

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL

48/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

25/04/2023

Gwerthusiad Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021–22

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Crown Copyright Digital ISBN 978-1-80535-760-5

Gwerthusiad Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Awduron: Dr Ian Johnson, Dr Nikola Vousden

wavehill

Social and economic research

Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Johnson, Ian; Vousden, Nikola (2023).

Gwerthusiad Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021-22. Caerdydd:

Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 48/2023

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-lleoedd-lleol-ar-gyfer-natur-2021-22>

Barn a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yw rhai'r ymchwilydd ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Aimee Marks

Is-adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays, Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr o Dablau	2
Rhestr o Ffigyrau	2
Rhestr Termiau	3
1. Cyflwyniad/Cefndir	5
2. Methodoleg	17
3. Canfyddiadau - Gweithdy Rhesymeg Rhaglen.....	23
4. Canfyddiadau - Cangen Partneriaethau Natur Lleol.....	27
5. Canfyddiadau - Cangen Cadw Cymru'n Daclus	44
6. Canfyddiadau - Cangen Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol	68
7. Casgliadau ac Argymhellion.....	75
Atodiad 1: Cynlluniau LNP ar gyfer 2021-22.....	81
Atodiad 2: Cynigion Cytunwyd gan NLHF 2020-21 & 2021-22	91
Atodiad 3: Gwahoddiad i gymryd rhan mewn Gweithdy LPfN.....	93
Atodiad 4: Cwestiynau cyfweiliad cwmpasu	94
Atodiad 5: Cwestiynau cyfweiliad Cydlynnydd LNP	96
Atodiad 6: Cwestiynau arolwg KWT.....	99
Atodiad 7: Cwestiynau Arolwg NLHF	105
Atodiad 8: Astudiaethau Achos.....	111
Atodiad 9: Hysbysiadau Preifatrwydd	127

Rhestr o Dablau

Tabl 1.1. 'Y mesurau cymedrol'	10
Tabl 1.2 Cyllid LPfN 2021-222, yn ôl cynllun (cyfalaf a refeniw)	10
Tabl 2.1 Rhestr o gyfranogwyr gwerthuso	17
Tabl 4.1: LNPs a gymerodd ran mewn cyfweiliadau ymchwil	27
Tabl 5.1: Nifer a chanran y ceisiadau llwyddiannus a ddywedodd, yn y cyfnod ymgeisio, y byddent yn cynnwys cyfranogwyr difreintiedig	45
Tabl 5.2: Allbwn Rhaglen a Mesurau Cymedrol	46
Ceisiadau llwyddiannus am grantiau NLHF yn 2020-21 a statws prosiect cyfredol	91
Ceisiadau llwyddiannus am grantiau NLHF yn 2021-22 a statws prosiect cyfredol	92

Rhestr o Ffigyrau

Ffigwr 5.1: Profiadau grŵp o Brosiect KWT	52
Ffigwr 5.2: Pa faterion, os o gwbl, effeithiodd ar eich gallu i gyflawni'r prosiect	55
Ffigwr 5.3: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y prosiect wedi helpu i greu 'natur ar eich stepen drws'?	56
Ffigwr 5.4: Effeithiau wedi'u cofnodi o gymryd rhan ar les corfforol a meddyliol	57
Ffigwr 5.5: Adroddiad effaith ar hunan-effeithiolrwydd unigolion	58
Ffigwr 5.6. Effaith adroddol ar gefnogaeth unigolion i fyd natur	60
Ffigwr 5.7: Effaith gymunedol canfyddedig	61
Ffigwr 5.8: Mynediad canfyddedig a chynwysoldeb y prosiect	62
Ffigwr 5.9: Ymgysylltiad y grŵp â natur	63
Ffigwr 5.10: Pa mor hyderus ydych chi y byddwch chi'n gallu cynnal a chadw eich gofod natur yn y dyfodol?	64

Rhestr Termau

Allweddair	Ystyr
Cynnal Cymru/ Sustain Wales	Sefydliad Datblygu Cynladwy yng Nghymru, yn gweithio yn ddi-elw ac wedi ei gofrestru fel elusen.
ENRaW	Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru
Grwpiau Hynod Leol	Mae Grwpiau Hynod Leol yn ffocysu o amgylch cymuned wedi ei ddiffinio yn glir ac mae ei brif ffocws yn targedu pryderon y boblogaeth o fewn y gymuned hynny.
KWT	Cadw Cymru'n Daclus
LA	Awdurdod Lleol
LERC	Canolfanau Cofnodi Amgylchedd LLeol
LNP	Partneriaeth Natur Lleol
LPfN	Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
NGO	Sefydliad An-lywodraethol
NLHF	Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
NPA	Awdurdod Parc Cenedlaethol
NRW	Cyfoeth Naturiol Cymru
OVW	One Voice Wales – Sefydliad sydd yn cynrychioli a chefnogi Cynghorau Tref a Chymunedol Cymru
Precept	Y gost i'r Treth Cyngor gan y Cynghorau Tref a Chymunedol yng Nghymru i'w galluogi i wneud eu gwaith.
Rhannol-Drefol	Ardaloedd sydd yn newid defnydd y tir o wledig i drefol a sydd wedi eu lleoli rhwng ffiniau allanol canolfanau trefol a rhanbarthol a'r amgylchedd wledig.
PfG	Rhaglen waith Llywodraeth Cymru

Adroddwyr	Unigolion sydd yn adrodd ar nifer y rhywiogaethau mewn ardaloedd, yn aml yn ran o rwydwaith ble mae'r canfyddiadau yn cael eu gyrru i gynlluniau mwy.
RSPB	Cymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar
SMS	Cynllun Rheolaeth Cynadlawy
SMNR	Rheolaeth Gynladwy Cyfoeth Naturiol
SoNaRR	Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru
SSSI	Safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig – dynodiad cadwraeth ar gyfer cynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion daearegol a ddynodwyd o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) ac o dan gyfrifoldeb NRW
TCC	Cynghorau Tref a Chymunedol
TfW	Trafnidiaeth I Gymru
WBFG	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Deddf 2015
WCVA	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
WIMD	Mynegai Amddifadedd Lluosog CYmru
WLGA	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
WWT	Ymddideriolaeth Natur Cymru

1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru Wavehill i wneud gwerthusiad o'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y gwerthusiad a wnaed ar gyfer blwyddyn gyntaf y cynllun, sef 2020- 21.

Cyd-destun ar gyfer LPfN

- 1.2 Mae'r amgylchedd yn cynnig sylfaen i les economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac unigol. Mae'r boblogaeth yn dibynnu ar fyd natur i ddarparu bwyd, dŵr glân, aer, ynni a'r deunyddiau crai ar gyfer diwydiannau. Mae'r pwysau a roddir ar fyd natur yn dod o sawl ffynhonnell, gan gynnwys trefoli, rheolaeth amaethyddol, llygredd, newid yn yr hinsawdd a rheoli coetiroedd.
- 1.3 Mae bioamrywiaeth yng Nghymru yn dirywio ac fe nododd "Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016" (SoNaRR) gan Gyfoeth Naturiol Cymru nad oedd Cymru yn cyrraedd targedau bioamrywiaeth ryngwladol a chenedlaethol 2010.¹ Dywedodd Adroddiad Cyflwr Byd Natur 2019 (a ysgrifennwyd gan bartneriaeth trydydd sector o sefydliadau cadwraeth natur), o blith y 3,902 o rywogaethau yr oedd digon o ddata ar gael ar eu cyfer, bod dros 600 (17y cant) ohonynt dan fygythiad o fod yn ddiflanedig yng Nghymru. Mae 73 (2 y cant) arall eisoes yn ddiflanedig². Mae adroddiad diweddaraf SoNaRR, yn 2020, yn dod i'r casgliad bod angen i Gymru i barhau i weithredu er mwyn cyflawni'r gwaith o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR)³. Nodwyd y cyfleoedd a oedd i weithredu, gan gynnwys cydnabod bioamrywiaeth fel ased, rheoli ecosystemau yn effeithiol a chynnal a chadw systemau presennol.
- 1.4 Fel ymateb i golled barhaus bioamrywiaeth, dirywiad ecosystemau a'r argyfwng newid hinsawdd cynyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhai o'r deddfwriaethau llymaf yn y byd, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WBFG)⁴ a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.⁵ Mae'r

¹ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016 \(naturalresources.wales\)](#)

² [Adroddiad Cyflwr Natur 2019](#)

³ [Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020\) Crynodeb Gweithredol](#)

⁴ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

⁵ [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#)

ddeddfwriaeth hon yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r heriau mewn ffordd fwy cydgysylltiedig, gyda dyletswyddau ar Weinidogion a awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Eglurir is-law sut y mae'r ddeddfwriaethau yma yn bwydo i mewn i'r rhesymeg dros y rhaglen LPfN, yn ogystal a datblygiadau polisi perthnasol eraill yng Nghymru sy'n cyd-fynd ag LPfN.

Polisi a deddfwriaeth

- 1.5 Cytunwyd ar raglen LPfN ym mis Rhagfyr 2019, gyda'r amcan o dreialu ymyriadau ar raddfa fach a fyddai yn ehangu natur mewn ardaloedd gyda'r amddifadedd uchaf a chyda'r mynediad lleiaf i fyd natur. Datblygwyd y rhaglen yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth a'r polisi presennol, gan gynnwys Deddf WCFG a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ogystal â'r Polisi Adnoddau Naturiol⁶ a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur⁷. Mae rhaglen LPfN yn cynnig ffordd o ymgysylltu a gweithredu ar uchelgeisiau a blaenoriaethau cymunedau, sefydliadau anllywodraethol (NGOs) a'r sector gyhoeddus ar raddfa leol. Fe'i cynlluniwyd i gyd-fynd â a chefnogi y blaenoriaethau strategol allweddol hynny sydd eisoes wedi'u nodi mewn deddfwriaeth. Mae'n parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o fewn chweched tymor y Senedd, ochr yn ochr â rhaglenni strategol sydd wedi'u cynllunio i helpu i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r argyfwng natur yng Nghymru. Ymhlith eraill, mae'r rhain yn cynnwys Rhaglen Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru/CNC, y Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)⁸ a Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW).⁹ Yn unol â Deddfau'r WCFG a'r Amgylchedd, nod pob rhaglen adfer natur yw cefnogi ac ymgysylltu â chymunedau a darparu manteision ehangach iddynt. Mae LPfN wedi'i anelu'n benodol at flaenoriaethu'r gefnogaeth a'r ymgysylltu â chymunedau i greu a rheoli natur lle mae pobl yn byw.
- 1.6 Mae rhai o'r prif ddeddfwriaethiau ac ysgogwyr polisi o fewn ein cyd-destun Cymraeg sy'n sail i ddatblygiad a phwrpas LPfN yn cael eu hamlygu isod.

⁶ [Y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol | LLYW.CYMRU](#)

⁷ [Cynllun gweithredu adfer Natur | LLYW.CYMRU](#)

⁸ [Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy | Is-bwnc | LLYW.CYMRU](#)

⁹ [Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant | LLYW.CYMRU](#)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 1.7 Mae Deddf WBFG 2015 yn gosod trywydd eang ac arloesol er mwyn integreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol a diogelu bioamrywiaeth o fewn holl weithgareddau a meysydd gwaith y sector cyhoeddus yng Nghymru., sy'n cynnwys saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio tuag at.¹⁰ Mae hyn i'w gyflawni drwy'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy lle dylai cyrff cyhoeddus ystyried yr effaith y gallai penderfyniadau gael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol. I ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor, rhaid i gyrff cyhoeddus ddilyn y pum ffordd o weithio (tymor hir, integreiddio, cynnwys, cydweithredu ac atal) er mwyn helpu i annog gwell cydweithio i fynd i'r afael â'r heriau tymor hir y mae Cymru'n eu hwynebu. Wrth wneud penderfyniadau felly mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi ystyriaeth ddyledus i effaith hirdymor eu gweithgareddau ar sawl maes, gan gynnwys yr amgylchedd a bioamrywiaeth. Mae hyn yn rhan o gyflawni 'Cymru Wydn', sef "cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd cenedlaethol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithrediad iach sy'n cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid". Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi yr uchelgais o greu Cymru o gymunedau cydlynus, a'r cam cyntaf tuag at gyflawni hyn yw cael pobl yn fwy gweithgar o fewn eu cymunedau.¹¹
- 1.8 Yn sail i'r Ddeddf mae cyfres o ddangosyddion lles cenedlaethol sy'n dangos cynnydd ar y nodau lles. Dangosydd 44 yw 'statws amrywiaeth biolegol yng Nghymru'. Bydd y dangosydd yn gyfuniad o amcangyfrifon blynyddol o'r newid mewn rhywogaethau blaenoriaeth (gweler Deddf yr Amgylchedd isod) fel dangosydd unigol a fydd yn dangos cynnydd.¹²

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- 1.9 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn ceisio mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r heriau trwy ddarparu fframwaith o dystiolaeth *iterative* trwy bedwar nod y Polisi Adnoddau Naturiol, polisi SoNaRR a chyflwyno ar sail lleoedd (y datganiadau ardal) i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy a

¹⁰ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru](#)

¹¹ [Gymru o Gymunedau Cydlynys - Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru](#)

¹² [Lles Cymru: dangosyddion cenedlaethol | LLYW. CYMRU](#)

chydlynus.¹³ Amcan Deddf yr Amgylchedd yw cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision sy'n deillio ohonynt, yn unol â nodau Deddf WBFG a'r nodau lles. Mae Deddf yr Amgylchedd yn ceisio ategu'r uchelgais ar gyfer economi werdd carbon-isel a all addasu i effeithiau newid hinsawdd.

- 1.10 Mae adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd, yn eu barn hwy, o bwysigrwydd mawr, wrth sôn am gynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru. Mae'n ofynnol wedyn i weinidogion gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r organebau byw a'r mathau o gynefin a gynhwysir mewn unrhyw restr a gyhoeddwyd o dan yr adran hon ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Mae hyn yn cyfrannu at Ddangosydd Lles Cenedlaethol 44 ar 'statws bioamrywiaeth yng Nghymru'.

Rhaglen Llywodraeth Cymru 2021-26

- 1.11 Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (PfG) 2021-26¹⁴ yw'r ddogfen sy'n nodi yr ymrwymadau mae'r Llywodraeth yn anelu at eu cyflawni yn ystod tymor y Chweched Senedd. Ymhlith yr ymrwymadau yn y PfG, mae nod Llywodraeth Cymru i gysidro yr ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth y mae'n ei wneud. Mae'r PfG yn cynnwys ystod eang o ymrwymadau, gan gynnwys ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol.

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

- 1.12 Prif focws LPfN yw 'creu natur ar stepen eich drws ar raddfa eang ac yn sydyn', gan ymgysylltu â chymunedau i gymryd rhan yn y broses i greu a gwella mannau gwyrdd yn sylweddol i gefnogi 'natur ar stepen eich drws', ac nid yn unig i fod yn arsylwyr neu'n dderbynwyr goddefol natur.

¹³ [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

¹⁴ [Rhaglen lywodraethu: diweddariad | LLYW.CYMRU](#)

- 1.13 Mae'r rhagdybiaeth ar gyfer y dull hwn wedi'i nodi gan Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru, fel a ganlyn:¹⁵
- Os yw pobl yn gallu ymgysylltu â byd natur lle maen nhw'n byw, gweithio a chael mynediad at wasanaethau cyhoeddus maen nhw'n fwy tebygol o'i werthfawrogi.
 - Os yw pobl yn gwerthfawrogi natur, maen nhw'n fwy tebygol o gefnogi mentrau ehangach, a gwariant, i gefnogi'r gwaith i adfer a gwella natur a'r amgylchedd yn ehangach, ar raddfa fwy.
 - Mae ymgysylltu â byd natur yn cynnig buddion lles cysylltiedig.
 - Bydd y sector gyhoeddus yn arwain trwy esiampl ac yn arddangos y newidiadau rydyn ni am eu gweld.
- 1.14 Mae'r rhaglen LPfN i 'ddarparu natur ar stepen eich drws' yn bwriadu bod yn un yn null 'o'r gwaelod i fyny'. Nid yw'n bwriadu rhoi cyfarwyddiadau pendant ynglŷn â'r hyn y gallai cymunedau eu gwneud. Mae LPfN yn bwriadu galluogi pobl i weld gwelliannau i fyd natur 'o'u stepen drws', gan gynnwys gweithgarwch sy'n cael ei arwain gan y gymuned.
- 1.15 Mae'r rhaglen LPfN yn ceisio annog ac ariannu grwpiau cymunedol i ymgysylltu gyda gwaith tyfu ar raddfa fach mewn mannau yn eu cymunedau, gan ddarparu ased cyfalaf sydd â chynllun costio ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.
- 1.16 Mae'r rhaglen yn gweithio i dargedu ardaloedd trefol a pheri-drefol a mannau cyhoeddus sydd heb fynediad i fyd natur. Nod y rhaglen hefyd yw targedu cymunedau difreintiedig, a rhai sydd dan anfantais, yn benodol. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o difreintiedig, wrth edrych ar ddiffiniadau a mesuriadau safonol, yn parhau i fod yn gymharol hyblyg. Mae'r diffiniad a gymhwysir yn ceisio ystyried diffyg mynediad at natur a mannau gwyrdd fel anfantais perthnasol a phwysig.
- 1.17 Isod ceir rhestr o'r deg 'mesur cymedrol' a fwriedir i gael effaith leol mewn cymunedau ledled Cymru a helpu i gyflawni yn erbyn yr ymrwymadau PfG a nodir uchod. Mae'r rhain wedi newid ychydig ers 2020-21 ac maent bellach yn cynnwys

¹⁵ [Gwerthuso Lleoedd Lleol ar gyfer Rhaglen Natur: Blwyddyn Un \(2020 i 2021\) | LLYW. CYMRU](#)

10 mesur yn hytrach na 9 (gan ychwanegu "Gerddi synhwyrdd at ddibenion therapiwtig").

Tabl 1.1. 'Y mesurau cymedrol'

Y Mesurau Cymedrol
Cynyddu plannu blodau gwyllt; Creu 2,000 o safleoedd cynefin peillwyr
Cynyddu cyfleoedd tyfu bwyd cymunedol trwy greu 1,000 o safleoedd tyfu bwyd cymunedol gan gynnwys darparu rhandiroedd
Cynyddu plannu coed yn lleol, gan gynnwys coed stryd, perllannau a choetiroedd bach
Creu 100 o goetiroedd trwchus ac amrywiol maint cwrt tenis
Adfer neu greu 200 o berllannau cymunedol, gan feithrin ffrwythau brodorol
Annog blodau gwyllt a gwella bioamrywiaeth drwy newid arferion torri gwair awdurdodau lleol (ac awdurdodau cyhoeddus eraill) a chynyddu ardaloedd dolydd ar dir llethrog
Lleihau'r defnydd o blaladdwyr
Gwella mynediad y cyhoedd at ddŵr yfed
50 cynllun greu cynefinoedd mewn gorsafoedd rheilffordd a chyfnewidfeydd trafndiaeth
Gerddi synhwyrdd at ddibenion therapiwtig, a gyflwynir mewn partneriaeth ag elusennau iechyd a'r GIG yng Nghymru

Rheoli Cynllun LPfN

- 1.18 Mae'r adran hon yn darparu cyflwyniad byr i'r tri cynllun sy'n dod o dan y rhaglen LPfN cyffredinol. Mae'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y cynlluniau i'w weld yn Tabl 1.2, isod.

Tabl 1.2 Cyllid LPfN 2021-222, yn ôl cynllun (cyfalaf a refeniw)

Cynllun	Cyllid
WCVA	£6.0m
CGD	£1.8m
NLHF	£0.9m
OVW (Un Llais Cymru)	£41k
Cyfanswm	£8.741m

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) Partneriaethau Natur Lleol

- 1.19 Mae WCVA yn gweinyddu'r mwyaf o'r tri chynllun, trwy ei rôl gyda Phartneriaethau Natur Lleol (LNP) Cymru, sef rhwydwaith adfer natur gyda chydlynwyr ym mhob awdurdod lleol (LA) ac awdurdod parc cenedlaethol (NPA) ledled Cymru.
- 1.20 Prosiect tair blynedd oedd LNP Cymru, a gafodd ei redeg yn y lle cyntaf o 2019 tan 2022, i adeiladu rhwydwaith adfer natur ledled Cymru gan ymgysylltu pobl, cymunedau, busnesau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn gweithredu yn ymarferol a chynllunio yn strategol ar gyfer Cymru iach, gwydn a llawn natur. Yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru drwy gwmni ENRaW¹⁶ a'i gydlynu gan WCVA, roedd y bartneriaeth yn cynnwys; holl Awdurdodau Lleol a pharciau cenedlaethol Cymru, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, WCVA a'r Canolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol (LERC).
- 1.21 Mae LNPs wedi sicrhau bod cydlynnydd ym mhob LA a NPA ledled Cymru. Eu gwaith yw creu rhwydwaith, neu bartneriaeth, o bobl a grwpiau sydd eisiau gwneud mwy o wahaniaeth i'r amgylchedd yn eu hardaoedd lleol, gan gynnwys sefydliadau amgylcheddol, grwpiau cymunedol ac unigolion. Gall enghreifftiau o aelodau'r LNP gynnwys Ymddiriedolaeth Natur Ranbarthol Cymru (WWT) neu'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn ogystal â grwpiau hynod leol yn y sir.
- 1.22 Cynhelir LNPs o fewn partner arweiniol; fel arfer mae eu LA neu NPA a WCVA yn defnyddio rhwydwaith, strwythur llywodraethu a systemau ariannol yr LNP hwn i ddsrannu eu cyllid LPfN. Mae cyfran WCVA o gyllideb LPfN yn cael ei ddsbarthu'n uniongyrchol i gydlynwyr LNP, gan eu galluogi i gynllunio a darparu prosiectau mawr a fydd yn cael mwy o effaith ar fioamrywiaeth yr ardal. Mae'r rhwydwaith hwn o LNPs a'r cydlynwyr ar draws Cymru yn golygu bod modd cynnwys pob rhan o Gymru yn y cynllun.

¹⁶ ENRaW yn grant sy'n cefnogi prosiectau yn bennaf i wneud gwelliannau mewn ardaloedd preswyl ac o'u cwmpas trwy sicrhau manteision i bobl, busnesau a'u cymunedau - [Galluogi Adnoddau Naturiol a Chynllun Llesiant | Is-bwnc | LLYW. CYMRU](#)

- 1.23 I ddechrau, gweinyddodd WCVA gynllun grantiau nad oedd yn gystadleuol lle gwnaeth LNPs geisiadau am gyllid i gyflawni amcanion yn ymwneud â sefydliadau'r sector cyhoeddus ym mhob ardal LNP i ddarparu cymorth i adfer neu wella natur ar eu hystâd trwy wyrddnio eu tir a/neu adeiladau.
- 1.24 Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun, yn 2020-2021, roedd hyn yn cynnwys grantiau gwerth £2.7m. Yn 2021-22, roedd dyraniad o £5.5m yn fwymewn grantiau i LNPs, gan ei wneud y mwyaf o'r tri cynllun o fewn y rhaglen LPfN. Roedd rhan o'r dyraniad hwn yn parhau i fod yn grantiau nad oedd yn gystadleuol yn 2021- 22, ar yr un sail ag o'r blaen yn 2020-2021. Yn y flwyddyn ariannol 2021-2022 ychwanegwyd 'Cronfa Her', lle oedd modd i'r LNPs gael gafael ar gyllid prosiect pellach drwy broses ymgeisio gystadleuol. Cafodd £2.5m o arian cyfalaf ei ddyrannu i grantiau heb fod yn gystadleuol a £3m ar gyfer y Gronfa Her. Mae pob prosiect i ddarparu asedau cyfalaf naturiol.

Cadwch Gymru'n Daclus

- 1.25 Mae cynllun KWT yn dosbarthu pecynnau i grwpiau cymunedol er mwyn darparu 'natur ar stepen eich drws'.
- 1.26 Yn ystod dwy flynedd gyntaf y cynllun LPfN, cynigiodd KWT ddau becyn gwahanol, 'Cychwyn' a 'Datblygu', y gallai unrhyw grŵp cymunedol wneud cais amdano, heb ofyn am gyfansoddiad neu gyfrif banc. Roedd pob un o'r pecynnau rhagdaledig hyn yn cynnwys planhigion brodorol, offer, a deunyddiau eraill i'w helpu i greu eu gardd gymunedol eu hunain ar gyfer natur. Mae pecynnau Cychwyn yn fach, ac mae angen tua hanner diwrnod o hyfforddiant i wirfoddolwyr a ddarperir gan KWT. Mae'r pecynnau Datblygu yn fwy ac yn cymryd tua 20 diwrnod i'w gwblhau. Mae KWT hefyd yn rhoi cefnogaeth gyda'r archebu a'r danfoniadau, yn ogystal a chefnogaeth ymarferol ar lawr gwlad. Caiff ceisiadau eu hasesu gan banel arbenigol, a rhoddir blaenoriaeth i brosiectau mewn ardaloedd trefol, peri-drefol neu ddifreintiedig heb lawer o fynediad at natur. Rhoddir blaenoriaeth hefyd i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli sydd am ymgysylltu â'r cynllun, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl, a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig a dan anfantais. Yn 2021-222, dyrannwyd £1.8m ar gyfer pecynnau Cychwyn and Datblygu.

Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF)

- 1.27 Mae rhan NLHF LPfN yn gynllun grant cyfalaf a fwriedir i alluogi cymunedau yng Nghymru i adfer a gwella natur. ¹⁷ Yn unol â'r rhesymeg dros LPfN, bwriad y cynlluniau yw galluogi ardaloedd gyda'r cymunedau difreintiedig mwyaf, peridrefol/trefol, a/neu'r rhai sydd â lleiaf o fynediad at natur yng Nghymru i adfer a gwella natur 'ar eich stepen drws'. Maent yn diffinio hyn fel 50 ardal mwyaf difreintiedig Cymru sy'n seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD). Maent hefyd yn cefnogi prosiectau tyfu cymunedol yn unrhyw le yng Nghymru.
- 1.28 Darperir cyllid trwy grantiau, gyda ffurflenni cais wedi'u cwblhau yn cael eu cyflwyno i banel sy'n ystyried rhinweddau'r cais yn erbyn y meini prawf. Mae'n broses ymgeisio agored lle gall unrhyw sefydliad gyflwyno cynnig prosiect, er bod rhaid iddynt gael eu cyfansoddi'n briodol ac arddangos digon o adnoddau ac arbenigedd i reoli arian cyhoeddus.
- 1.29 Mae gan yr NLHF brofiad sylweddol mewn rheoli cynlluniau grant yng Nghymru; Mae 85 y cant o'r cyllid ar gyfer y rhan yma o LPfN yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru gyda'r NLHF yn darparu'r 15 y cant sy'n weddill o gyllid, yn ogystal a chymorth gweinyddu (fel rhodd). Yn 2020-2021 roedd y gronfa yn cynnig grantiau cyfalaf o £10,000 – £50,000 ar gyfer ymyriadau mwy pwrpasol a rhai wedi eu teilwra. Cododd y cyllid hwn i £10,000 - £250,000 yn 2021-2022. Yn 2021-22, dyrannwyd cyfanswm o £700,000 i Gronfa Gyfalaf NLHF. Cytunwyd ar 13 o brosiectau gan y panel yn y flwyddyn ariannol 2021-22.
- 1.30 Yn ystod 2021-22 lanswyd Cronfa 'Chwalu Rhwystrau' ¹⁸newydd, o dan reolaeth yr NLHF. Mae arian y grant hwn ar gyfer:
- Sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau cymunedol Du, Asiaidd ac Ethnig, grwpiau cymunedol ffoaduriaid, Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
 - Y rhai sy'n gweithio gyda phobl yn y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru fel y'u diffinnir gan y WIMD

¹⁷ [Llefydd Lleol ar gyfer Natur | Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol](#)

¹⁸ [Llefydd Lleol ar gyfer Natur – Torri Rhwystrau | Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol](#)

- 1.31 Mae' agored i ymgeiswyr newydd yn ogystal â derbynwyr blaenorol grantiau LPN i symud ymlaen i'r cam nesaf o ddatblygu lleoedd ar gyfer byd natur yn eu cymuned.
- 1.32 Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer hyn oedd £400,000, gyda grantiau refeniw ar gael am rhwng £30,000 a £100,000. Cafodd y broses ymgeisio am ei chynnal yn ystod Hydref a Gaeaf 2021, ac roedd pum prosiect yn llwyddiannus yn y broses yma. Fodd bynnag, gan fod gwaith ar y prosiect hwn yn parhau i fod ar lwyfan rhagarweiniol yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, nid yw hyn yn cael ei ystyried yn fanwl yn y gwerthusiad hwn.

Gwerthusiad Blwyddyn Un LPfN (2020-21)

- 1.33 Mae'r adroddiad hwn yn dilyn gwerthusiad blaenorol o'r rhaglen LPfN yn ei flwyddyn gyntaf (Ebrill 2020 i Fawrth 2021).¹⁹ Canfu'r gwerthusiad hwnnw fod y tri chynllun wedi'u cynllunio'n fwriadol i gyrraedd gwahanol grwpiau ac mae'n ymddangos eu bod yn cyflawni canlyniadau gwahanol. Roedd tystiolaeth i awgrymu, er y gwahaniaethau, bod y rhannau gwahanol yn ategu ei gilydd. Gyda'i gilydd mae ganddynt y potensial i effeithio newid ar raddfeydd gwahanol, ac mewn perthynas ag ystod o gymunedau ac unigolion, yn ogystal ag annog cynaliadwyedd ac ymgysylltu tymor hir.
- 1.34 Yn ogystal, heriwyd pob cynllun gan derfynau amser llym. Er y gall y cynllun grantiau cyfalaf gynnig mwy o hyblygrwydd i'w ddeiliaid grant, mae'r ddwy gangen gyllido eraill wedi wynebu llwyth gwaith a baich gweinyddol cynyddol o ganlyniad i gyfnod byr y gronfa arddangos, ac mae angen iddynt baratoi cynlluniau ail blwyddyn law yn llaw gyda gweinyddu blwyddyn gyflawni anodd (yn ystod pandemig COVID – 19)
- 1.35 Oherwydd amseru cyflwyno, canolbwyntiodd gwerthusiad blwyddyn un ar brosiectau pecyn cymunedol KWT i raddau mwy na phrosiectau grant NLHF a WCVA-LNP. Teimlwyd yn eang, oherwydd yr oedi i gyflawni ac, o ganlyniad i'r pandemig, na fyddai llawer o effeithiau cymunedol y lleoedd yn weladwy nac yn fesuradwy y tu hwnt i gwblhau gwaith a sefydlu arferion newydd, sy'n golygu bod gwaith yr LNPs yn anodd ei fesur.

¹⁹ [Gwerthusiad Lleoedd Lleol ar gyfer Rhaglen Natur: Blwyddyn Un \(2020–2021\) \(llyw.cymru\)](#)

1.36 Her allweddol, a amlygwyd gan werthusiad blwyddyn un, oedd yr angen i LPfN ymgysylltu â rhanddeiliaid a oedd i weld yn amheus o'r rhaglen. Rhagwelwyd erbyn gwerthusiad blwyddyn un y byddai ymwybyddiaeth o gyflawniadau ac effeithiau'r rhaglen, yn ogystal â rhesymeg ei dull bychan ond eang, yn helpu i leddfu pryderon a chynhyrchu cefnogaeth ac ymgysylltu ehangach â'r rhaglen a'i hamcanion.

Gwerthusiad presennol

1.37 Roedd adroddiad gwerthuso blwyddyn un yn gyfyngedig yn ei allu i nodi effeithiau natur a bioamrywiaeth prosiectau a ariennir o dan gyllid LPfN 2020\2021221 oherwydd amseru y gwaith maes. Cydnabyddir y gall effeithiau natur a bioamrywiaeth gymryd amser i'w gwireddu. O ganlyniad, lle bo'n bosibl, mae'r gwerthusiad blwyddyn dau presennol wedi ceisio nodi'r effeithiau hyn o brosiectau 2020-21. Mae'r ddau nod ymchwil arall, a nodir isod, yn edrych i gwmpasu prosiectau a ariennir yn 2021-22. Yn benodol, roedd gwerthuso blwyddyn un o'r rhaglen LPfN yn llai abl i gwmpasu prosiectau a gyflwynir trwy'r NLHF a WCVA oherwydd amseru gwaith maes nad oedd bob amser yn cyd-fynd â chyflwyno prosiectau. Felly, lle bo'n briodol, mae'r gwerthusiad presennol wedi anelu at gael cipolwg ar gyflawniad ac effaith prosiectau NLHF a WCVA ar draws y ddwy flynedd o gyflwyno. Fodd bynnag, mae llawer o'r cyfyngiadau hyn yn parhau oherwydd oedi i allbynnau prosiectau natur a'r canlyniadau dilynol. Yn y cyd-destun hwn, mae gwerthusiad blwyddyn dau o'r rhaglen LPfN eto yn canolbwyntio ar effaith cyfranogiad ar gymunedau ac unigolion sy'n gysylltiedig ac wedi ymgysylltu â'r rhaglen.

1.38 Lle bo'n bosibl, nod y gwerthusiad presennol hwn felly yw adeiladu ar ganfyddiadau a gyflwynwyd eisoes yn adroddiad Gwerthuso Lleoedd Lleol ar gyfer Natur: Blwyddyn Un (2020-21):

- I nodi pa effeithiau mae'r rhaglen LPfN wedi'i chael hyd yma ar greu 'natur ar stepen eich drws' ac wrth greu, adfer a gwella bioamrywiaeth.
- Nodi effeithiau'r rhaglen LPfN ar gymunedau lleol a'r unigolion sy'n rhan o'r prosiectau.

- Mae nodi i ba raddau mae'r tri cynllun a'r rhaglen yn ei chyfanrwydd yn cyflawni amcanion LPfN. Oes modd gwneud gwelliannau, o safbwynt ymgeiswyr prosiect, rheolwyr cynllun a rhanddeiliaid?

Strwythur Adroddiad

- 1.39 Mae gan yr adroddiad hwn y strwythur canlynol. Mae'r cyflwyniad hwn yn nodi'r rhesymeg a nodwyd ar gyfer y rhaglen LPfN, y cyd-destun polisi y cafodd ei ddatblygu ynddo a chefnidir rheoli'r cynllun ar gyfer y rhaglen.
- 1.40 Bydd gweddill y penodau yn ystyried y meysydd trafod canlynol fel rhan o'r gwerthusiad. Mae'r fethodoleg yn nodi'r camau a wnaed i werthuso'r cynllun yn ystod 2021-22, ei ail flwyddyn o weithredu. Roedd hyn yn cynnwys:
- Gweithdy rhesymeg rhaglen lle roedd unigolion ag arbenigedd a gwybodaeth am natur a bioamrywiaeth, a/neu faterion cymunedol yn trafod sut y dylai llwyddiant y cynllun edrych.
 - Cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda staff rheoli a darparu yn y tri corff cyflenwi a sefydliadau cefnogol.
 - Cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda chynrychiolwyr o un ar bymtheg (o'r un ar hugain) LNPs o bob rhan o Gymru.
 - Arolwg Ar-lein o ymgeiswyr grant llwyddiannus KWT a NLHF. Derbyniodd yr arolwg 105 o ymatebion gan ymgeiswyr grant KWT. Doedd dim digon o ymatebion gan yr NLHF i ddod i unrhyw gasgliadau dibynadwy am brosiectau NLHF - trafodir hyn ymhellach yn yr adran fethodoleg.
 - Cyfweiliadau gyda chwe phrosiect NLHF a derbynwyr grant a gyda dau gydlynnydd LNP i lywio astudiaethau achos am y prosiectau y maent wedi'u datblygu.
- 1.41 Mae'r adrannau sy'n weddill yn manylu ar ganfyddiadau y camau gwaith maes. Mae'r bennod olaf yn cynnwys cyfres o argymhellion yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad.

2. Methodoleg

- 2.1 Mabwysiadwyd dull cymysg o ddulliau ar gyfer y gwerthusiad, a oedd yn cynnwys sawl llinyn ymchwil, fel y nodir isod.
- 2.2 Datblygwyd cwestiynau cyfweld ac arolwg ar y cyd â swyddogion Llywodraeth Cymru. Ymgynghorwyd hefyd â rheolwyr cynllun KWT a NLHF ar y priod arolygon ar gyfer eu cynlluniau i roi adborth ar y cwestiynau.
- 2.3 Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfranogwyr yn y gwerthusiad a'r dull o gasglu data.

Tabl 2.1 Rhestr o gyfranogwyr gwerthuso

Cyfranogion	Dull	Nifer y cyfranogwyr
Rheolwyr Cynllun LPfN a Staff Cefnogi	Cyfweld	5
Unigolion sydd ag arbenigedd ym meysydd natur/bioamrywiaeth neu faterion cymunedol	Gweithdy	5
Cydlynwyr LNP	Cyfweld	16
Cydlynwyr LNP	Cyfweliad Astudiaeth Achos ²⁰	2
Grwpiau KWT	Arolwg	105
Cydlynwyr Prosiect NLHF	Arolwg	5
Cydlynwyr Prosiect NLHF	Cyfweliad Astudiaeth Achos	6

Cwmpasu cyfweliadau â staff rheoli a staff cymorth o fewn y tri corff dosbarthu a sefydliadau cefnogol

- 2.4 Cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu gyda thri o staff rheoli o WCVA, KWT a NLHF, yn y drefn honno, yn ogystal â chyfweliadau gyda dau aelod o staff wedi'u hymgorffori o fewn sefydliadau sy'n cefnogi darpariaeth ac effaith y rhaglen (pump i gyd). Mae'r staff hyn wedi'u lleoli yn Un Llais Cymru (OVW), y corff sy'n cynrychioli cynghorau tref a chymuned yng Nghymru, a Cynnal Cymru ('Sustain Wales'), yn eu tro. Nod y cyfweliadau hyn oedd cael dealltwriaeth o sut yr oedd deall pob cynllun LPfN, yn cael ei redeg, monitro sy'n gysylltiedig â'r cynllun, ac i ba raddau y mae eu cynllun wedi cyrraedd ei amcanion o ran natur a bioamrywiaeth a chyfranogiad cymunedol. Cynhaliwyd y cyfweliadau â staff rheoli o fewn cyrff darparu'r rhaglen ym mis Ionawr

²⁰ Y ddau achos yma study mae cyfweliadau yn is-set o'r 16 cyfweliad gyda chydgyssylltwyr LNP - cawsant eu cyfweld eto mewn perthynas â'u prosiect penodol.

a mis Chwefror 2022, ac aelodau o staff wedi'u lleoli mewn sefydliadau eraill ym mis Ebrill 2022.

Gweithdy rhesymeg prosiect

- 2.5 Ym mis Ionawr 2022, cafodd gweithdy ei gynnal gyda phump o gyfranogwyr a gafodd wahoddiad fel trigolion ag arbenigedd ym maes natur/bioamrywiaeth neu faterion cymunedol. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o Plantlife, WWT, CNC, yr RSPB a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), i gynnig arbenigedd ar faterion natur a bioamrywiaeth ac ymgysylltu â chymunedau – elfennau sy'n holl bwysig o ran y rhesymeg dros LPfN. Yn y gweithdy hwn, bu'r cyfranogwyr yn trafod nodau a chyfyngiadau'r rhaglen a'r modd y gellir asesu llwyddiant y rhaglen.
- 2.6 Dechreuodd y gweithdy drwy fod yn gyffredinol yn ei gwmpas ac nid oedd angen gwybodaeth flaenorol helaeth o'r cynllun LPfN. Roedd y drafodaeth yn ystyried ac yn asesu pa ganlyniadau cyffredinol o fathau penodol o brosiectau y gellir eu cyflawni (h.y. peillwyr/blodau gwyllt, llai o ddefnydd o blaladdwyr, ac ati.), cyn canolbwyntio'n fwy ar LPfN a'i ganlyniadau posibl.

Cyfweliadau gydag cydlynwyr Partneriaeth Natur Leol

- 2.7 Cynhaliwyd cyfweliadau gyda chydlynwyr yr LNPs ledled Cymru er mwyn deall gweithredu'r cynllun yn well ar lawr gwlad. Darparwyd y manylion cyswllt gan WCVA ar gyfer un ar hugain o bartneriaethau ledled Cymru, gan fod rhai LNPs yn gweithredu ar y cyd ar draws mwy nag un LA/NPA. Anfonwyd gwahoddiad bob un ddod am gyfweliad, gyda thri nodyn atgoffa dilynol cyson. Cafodd y rhai oedd heb ymateb hefyd ebost atgoffa gan reolwr y cynllun. Eglurodd cynrychiolwyr yr LNP a ymatebodd ond nad oedden nhw'n gallu cymryd rhan, fod hyn oherwydd pwysau gwaith a therfynau amser oedd ar fin digwydd. Cynhaliwyd 16 o gyfweliadau rhwng mis Chwefror ac Ebrill 2022, naill ai gydag unigolion neu grŵp.
- 2.8 Bu dau gyfweliad gyda LNPs hefyd yn trafod cyflwyno ac effeithiau prosiectau penodol i lywio astudiaeth achos.

Arolwg ar-lein o arweinwyr prosiect KWT

- 2.9 Datblygwyd arolwg ar-lein gyda Llywodraeth Cymru a KWT i ddeall profiad y grwpiau cymunedol wrth wneud cais am becynnau KWT a rheoli safle, yn ogystal ar effaith a gafodd eu cyfranogiad ar eu lles a'u hagweddau tuag at natur. Edrychodd yr arolwg hefyd ar i ba raddau y gallai grwpiau cymunedol gymryd rhan mewn prosiectau i adfer natur yn y dyfodol, yn unol â'r nod o feithrin ymgysylltiad pellach â natur o ganlyniad i gymryd rhan mewn prosiect LPfN.
- 2.10 Cynhaliwyd yr arolwg ar blatfform arolwg Qualtrics ym mis Ebrill 2022 ac roedd ar agor am dair wythnos. Cafodd dolen arolwg ei greu a'i anfon ymlaen at fanylion cyswllt pob ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer cynllun KWT ar gyfer 2020-21 a 2021-22 (cyfanswm o 799 o ymgeiswyr). KWT oedd yn gyfrifol am hyn, ac fe anfonwyd hysbysiad atgoffa at gyfranogwyr.
- 2.11 Roedd 105 o ymatebion wedi'u cwblhau (cyfradd ymateb o 13%), er nad oedd yn rhaid i'r cyfranogwyr ymateb i bob cwestiwn er mwyn parhau a llenwi'r holiadur.

Arolwg ar-lein o arweinwyr prosiect NLHF

- 2.12 Datblygwyd arolwg o ymgeiswyr llwyddiannus NLHF yn 2020-21 a 2021-22 fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Fodd bynnag, dim ond nifer fechan o ymatebion a dderbyniwyd i'r arolwg hwn, fel y trafodwyd yn fanylach yn yr adran gyfyngiadau isod.

Cyfweliadau gyda phrosiectau NLHF

- 2.13 Er mwyn cael gwybodaeth i'r astudiaethau achos, cynhaliwyd cyfweliadau gyda chwe phrosiect a gafodd eu hariannu drwy grant NLHF yn 2020-21. Roedd y cyfweliadau yn canolbwyntio ar gyflawniad ac effaith prosiectau. Cysylltwyd â dau brosiect arall ond ni chafwyd ymateb. Roedd y dewis o brosiectau i'w cysidro ar gyfer astudiaethau achos yn seiliedig ar drafodaeth gyda rheolwyr NLHF, a gynghorodd ar lefelau cynnydd y gwahanol brosiectau. Gan mai bwriad y cyfweliadau hyn oedd llywio astudiaethau achos, dim ond prosiectau a gwblhawyd erbyn dechrau Gwanwyn 2022 a ystyriwyd ar gyfer cymryd rhan a chael eu cynnwys.

Data rheoli

- 2.14 Fel rhan o'r gwerthusiad, mae dogfennau a gynhyrchwyd gan bob un o'r cynlluniau sy'n dangos y data a gasglwyd drwy eu proses ymgeisio a monitro cynnydd yn ystod y flwyddyn wedi cael eu hadolygu. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion a gyflwynwyd gan LNPs, gwybodaeth a gasglwyd gan KWT a'r ffurflenni cais a cheisiadau llwyddiannus i NLHF. Mae mwy o wybodaeth am y rhain i'w gweld yn y priod benodau ac yn yr Atodiadau.

Cyfyngiadau

- 2.15 Mae nifer o gyfyngiadau i'r dulliau a ddefnyddir yn y gwerthusiad hwn y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddehongli'r canfyddiadau.
- 2.16 O ganlyniad i effaith barhaus pandemig COVID-19 ar gam gwaith maes y gwerthusiad yng Ngwanwyn 2022, roedd y rhan fwyaf o ymgysylltu yn digwydd gyda'r arweinwyr prosiect sy'n rhan o wahanol ganghennau LPfN, yn hytrach na gydag aelodaeth ehangach grwpiau cyfranogwyr a'r gymuned ehangach. Felly mae'n dal yn aneglur i ba raddau y mae'r gymuned ehangach yn ymwybodol o LPfN a'i nodau a'i gwaith. Gan mai rhan o'r rhesymeg dros LPfN yw gweithredu fel dylanwad ehangach ar gyfer hyrwyddo natur, mae'n bwysig yn y dyfodol i gasglu data o ran i ba raddau y mae pobl yn ymwybodol o LPfN, a'r effaith y mae hyn wedi'i gael ar y gymdeithas yn ehangach. Bydd hyn yn gofyn am ystyriaeth i fethodolegau priodol ymhellach i ymgysylltu â chymunedau y mae prosiectau LPfN yn eu cyflawni ac yn cael eu trafod o fewn yr adran casgliadau ac argymhellion.
- 2.17 Yn ogystal, mae'r arolygon ar gyfer LPfN mewn perygl o ogwydd ymateb hunan-ddethol oherwydd gallai'r rhai a allai fod â theimladau cryfach (naill ai'n bositif neu'n negyddol) fod yn fwy tebygol o ymateb na chyfartaledd y rhai a oedd yn derbyn grantiau. Gall y gogwydd hunan-ddethol hwn hefyd fod yn amlwg yn y rhai sy'n dod yn arweinwyr a chydgyssylltwyr grwpiau; Mae siawns bod ganddynt farn gryfach nag aelodau eraill ac eu bod yn ymgymryd â rôl arweinyddol.

- 2.18 Mae potensial pellach i'r rhaid sydd yn cael eu cyfweliad dynnu sylw at feysydd penodol yn fwriadol fel rhan o agenda wedi'i gosod ymlaen llaw neu chwyddo'r effaith y mae eu prosiect wedi'i gael. Felly, lle mae canfyddiadau ar gael, mae canfyddiadau'n cael eu triongli gydag unrhyw ddata monitro sydd ar gael.
- 2.19 Mae ymatebion isel hefyd yn gyfyngiad i'r dulliau gwerthuso. O ganlyniad i'r gyfradd ymateb isel ymhlith derbynwyr grant NLHF (pum ymateb) a gynhaliwyd dros yr wythnosau ym mis Ebrill 2022, ni ellid dadansoddi ymatebion yr arolwg i ddod i unrhyw gasgliadau ystyrion.
- 2.20 Os yw nifer y prosiectau NLHF yn y dyfodol yn parhau ar y lefelau cymharol isel presennol yn 2021-22 yna efallai nad dulliau meintiol yw'r ffordd orau o gasglu gwybodaeth am effeithiolrwydd y prosiectau hyn. I ddeall proses a rheolaeth y prosiectau yn well, dylai'r ffocws fod ar brofiadau rheolwyr prosiect. Er mwyn dangos canlyniadau'n well, dylai prosiectau yn y dyfodol ddangos sut y byddan nhw'n ymgysylltu â'r gymuned yn ystod y cyfnod datblygu a gyda'r gymuned ehangach pan fydd y prosiect yn gwbl weithredol. Byddai dechrau monitro'r canlyniadau hyn drwy gydol darpariad y prosiectau hefyd yn ddefnyddiol i lywio gwerthusiadau yn y dyfodol.
- 2.21 Anfonwyd y ddolen i'r arolwg ar gyfer ymgeiswyr grant KWT a NLHF llwyddiannus gan reolwyr y cynllun priodol oherwydd rheolau GDPR y DU. Mae hyn yn golygu nad oedd y tîm ymchwil yn gallu nodi pa sefydliadau oedd wedi cymryd rhan nac felly anfon nodyn atgoffa penodol i'r rhai nad oedd eto wedi cwblhau'r arolwg. Efallai bod y penderfyniad i gymryd rhan wedi bod yn seiliedig ar gryfder (neu diffyg cryfder) yn y berthynas rhwng rheolwr y cynllun a'r derbynnydd grant a hefyd o unrhyw broblemau mynediad neu dechnegol na fyddai o reidrwydd yn cael eu hamlygu i'r tîm ymchwil. Gall hyn gynnwys y ddolen yn cael ei llygru neu geisiadau am gymryd rhan yn cael eu hamlygu fel e-bost sbam ac yn unol â hynny wedi'i gyfeirio at ffolderi 'sothach' ac felly yn llai tebygol o gael ein gweld gan y derbynnydd arfaethedig. Dylai ymchwil yn y dyfodol ystyried dulliau o gasglu data sy'n cydymffurfio â rheolau GDPR y DU ond sy'n hwyluso cyfranogiad. Efallai y bydd angen adolygu sut mae unrhyw gysylltiadau arolwg yn cael eu rhannu; er enghraifft, gan ystyried a ddylid cynnal y cyswllt arolwg ar naill ai gwefan y

contractwr, Llywodraeth Cymru neu y rheolwr y cynllun. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru hefyd am ystyried sut mae cymryd rhan yn y gwerthusiad wedi'i gynnwys o fewn telerau ac amodau'r grant a'r hysbysiad preifatrwydd grant; er enghraifft, gan gynnwys rhannu manylion cyswllt i unrhyw werthuswr sydd yn cael ei gyflogi gan Lywodraeth Cymru i werthuso y cynllun.

- 2.22 O ran ymgysylltu â'r NLHF, roedd ymatebion cyfyngedig gan brosiectau 2020-21 a 2021-22 i'r arolwg yn golygu bod cael gwybodaeth am gyflwyniad sc effaith y cynlluniau yn dibynnu ar gyfweliadau rheolwyr a chyfweliadau gyda prosiectau 2020-21 a gwblhawyd yn ystod cyfnod y gwaith maes yng Ngwanwyn 2022. Yn ystod cyfnod gwaith maes y prosiect, dim ond un o brosiectau 2021-22 oedd wedi ei gwblhau. Bydd angen i werthusiadau yn y dyfodol ystyried amseru priodol er mwyn cael gwybodaeth ystyrion am brosiectau yng nghyd-destun yr amser sydd ei angen iddynt gael eu cwblhau. Dylid ailystyried amseriad y gwaith maes i sicrhau nad yw unrhyw waith maes yn digwydd yn agos i ddiwedd y flwyddyn ariannol lle mae prosiectau ar eu prysuraf.

3. Canfyddiadau - Gweithdy Rhesymeg Rhaglen

Cyflwyniad

- 3.1 Fel rhan o'r ymarfer cwmpasu ar gyfer y gwerthusiad hwn, cynhaliwyd gweithdy gyda rhanddeiliaid perthnasol ag arbenigedd ym myd natur a bioamrywiaeth ac ymgysylltu cymunedol yng Nghymru. Pwrpas hyn oedd trafod rhesymeg y rhaglen a nodau a disgwyliadau'r prosiect. Roedd hyn yn cynnwys trafod sut y dylid cysyniadu llwyddiant ym mhob un o'r meysydd a gwmpesir o fewn y mesurau cymedrol.

Gweithdy Rhesymeg Rhaglen - Ionawr 2022

- 3.2 Ar 20 Ionawr 2022, cynhaliwyd gweithdy rhithwiol dwy awr ar Microsoft Teams gyda grŵp rhanddeiliaid yn cynnwys arbenigwyr mewn bioamrywiaeth/natur, yn cynnwys Plantlife, WWT, wlga, CNC a'r RSPB, ynghyd â chynrychiolwyr o Wavehill a Llywodraeth Cymru.
- 3.3 Ystyriodd y cyfranogwyr y deg mesur cymedrol yn fyr a gweithio drwy bob un er mwyn awgrymu sut y gellid dehongli llwyddiant yn nhermau effaith ar natur a chymunedau yn y tymor byr, canolig a hir. Mae'n werth nodi nad oedd aelodau'r panel yn gallu awgrymu canlyniadau ar gyfer rhai o'r mesurau cymedrol, a bod y prif fesurau yn aml yn allbynnau, fel nifer neu swm yr eitem oedd wedi ei chreu.
- 3.4 Rhybuddiodd cyfranogwyr yn erbyn y rhagdybiaeth fod pob man gwyrdd yn fuddiol ar gyfer bioamrywiaeth, a'r syniad bod cydberthyniad awtomatig rhwng creu man gwyrdd, a mwy o fioamrywiaeth o fewn lleoliad. Awgrymwyd bod diffyg tystiolaeth bod manau bychain gwyrdd o reidrwydd yn gwella bioamrywiaeth, yn enwedig os nad oes ganddynt gysylltiadau ehangach â safleoedd eraill cyfagos yn ddaeryddol. Mae'r ystyriaeth hon yn fwyaf perthnasol i gynllun KWT, lle mae'r prosiectau'n canolbwyntio ar greu safleoedd cymunedol bach, ond mae hefyd yn berthnasol i'r cynlluniau eraill. Efallai bod hyn yn adlewyrchu'r angen am gynllunio ar raddfa ehangach i sicrhau bod y gofodau ar gyfer y gymuned hefyd yn gallu darparu rhai buddion, hyd yn oed os yn fach, i fioamrywiaeth leol i helpu i hyrwyddo'r ymddygiadau y mae'r rhaglen LPfN yn gobeithio eu hannog ar raddfa fwy.

- 3.5 Nodwyd gan gyfranogwyr y bydd rhai o'r mesurau cymedrol (e.e. mwy o blannu blodau gwyllt, creu safleoedd peillwyr) yn fwy defnyddiol nag eraill o ran hybu bioamrywiaeth trwy LPfN. Un pryder a godwyd oedd y gallai cynigion am erddi synhwyrdd at ddibenion therapiwtig effeithio'n negyddol weithiau ar fioamrywiaeth oherwydd y ffocws ar blanhigion sydd â lliwiau llachar/arogleuon cryfion, gan arwain at bwyslais ar rywogaethau anffrodorol. Byddai pobl yn ymgysylltu â natur, sydd wrth wraidd LPfN, ond ni fyddai'n cynyddu bioamrywiaeth. Awgrymodd y dylai fod cydnabyddiaeth fwy pendant bod rhai mesurau cymedrol yn bwysicach nag eraill wrth fynd i'r afael â'r argyfwng natur.
- 3.6 Cododd y grŵp gweithdai faterion yn ymwneud ag allbynnau a chanlyniadau LPfN. Adeg y gweithdy, gosodwyd targedau ar gyfer allbynnau'r mesurau cymedrol, ond roedd y llwybr tuag at ganlyniadau yn llai sicr. Gwnaed y ddadl nad yw nifer a dosbarthiad safleoedd LPfN (allbynnau'r prosiect) yn adlewyrchu'r gwerth bioamrywiaeth gwirioneddol ond yn hytrach yn cynrychioli gwerth bioamrywiaeth posibl LPfN. Bydd gwerth bioamrywiaeth posibl pob safle yn wahanol ac mi fydd y siawns bod pob safle'n cyrraedd ei botensial yn dibynnu, er enghraifft, ar reolaeth y safle a ffactorau amgylcheddol ehangach. Nododd rhai cyfranogwyr nad oes metrig bioamrywiaeth sengl a dderbynnir yn gyffredin ar gyfer Cymru, gan ei gwneud hi'n anodd pennu lefelau cymharol o lwyddiant drwy gymharu â metrig mesuradwy a chytunwyd yn gyffredin. Awgrymwyd y bydd angen nodi enghreifftiau o arfer gorau (e.e. ar gyfer mesur cynnydd mewn rhywogaethau peillwyr) i fesur i ba raddau y mae'r gweithgareddau a weithredir yn cyd-fynd ag arfer gorau.
- 3.7 Ar y llaw arall, awgrymodd cyfranogwyr eraill y dylid mesur llwyddiant tymor byr LPfN trwy ddefnyddio'r nifer oedd wedi manteisio ar y cynllun. Awgrymodd y gallai'r metrigau ar ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol, nifer y cynlluniau, a'u dosbarthiad ar draws Cymru gael eu defnyddio i ddangos tystiolaeth o lwyddiant LPfN. Byddai hyn wedyn yn dangos yr enillion cadarnhaol (tybiedig) i unigolion a grwpiau cymunedol fel canlyniad i LPfN, hyd yn oed os yw'r canlyniadau natur yn llai sicr, neu wedi eu tystiolaethu yn wanach, ac ond yn dod yn amlwg ymhellach i lawr y lein.

- 3.8 Cytunodd cyfranogwyr y gweithdai y byddai'n haws mesur llwyddiant i unigolion a chymunedau nag i natur a bioamrywiaeth. Gallai enghreifftiau pellach gynnwys cynnydd mewn lles hunangofiannol ymhlith cyfranogwyr, ac, yn y tymor canolig a'r tymor hwy, p'un a yw argraffiadau yr ardal wedi gwella oherwydd mabwysiadu'r mesurau cymedrol. Roedd dangosyddion eraill o lwyddiant cymunedol yn cynnwys y grŵp cymunedol sy'n ymgymryd â rheoli'r gofod, cynyddu nifer y gwirfoddolwyr a nodi dysgu ychwanegol a uwchsgilio ymysg y grŵp, gan arddangos cynnydd yn y capasiti. Nododd cyfranogwyr y gweithdy hefyd bwysigrwydd posibl egluro'r gwaith sy'n cael ei wneud gan LPfN sy'n galluogi cymunedau a phlant ysgol i gysylltu gwaith lleol â'r rhesymeg ehangach am yr argyfwng natur. Dylai'r agwedd hon ar hyrwyddo cynlluniau adfer natur yn y gymuned leol ac yn ehangach gael ei ystyried gan LPfN fel rhan o hyrwyddo'r cynllun ei hun a'r nodau ehangach.
- 3.9 Wrth drafod cynnydd LPfN hyd yma, roedd cyfranogwyr y gweithdy yn cydnabod, ar ddiwedd yr ail flwyddyn hon o LPfN, y bu buddsoddiad mewn mewnbynnau i LPfN trwy'r tri chynllun, ac mae allbynnau wedi'u nodi trwy'r mesurau cymedrol. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd gan gyfranogwyr nad yw'r allbynnau hyn, mewn llawer o achosion, yn enwedig yng nghynlluniau WCVA a NLHF, wedi eu gwireddu'n llawn eto oherwydd amserlennu gwaith neu dwf natur. Roedd cyfranogwyr y gweithdy hefyd yn cydnabod y bydd yn cymryd peth amser i botensial bioamrywiaeth safleoedd gael eu gwireddu, yn enwedig y prosiectau WCVA a NLHF mwy hynny y rhagwelir y byddai ganddynt werth bioamrywiaeth posibl uwch nag allbynnau ar raddfa lai.
- 3.10 Tra'n mynegi pryder am sicrhau canlyniadau natur a bioamrywiaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng natur, roedd y cyfranogwyr hefyd yn cydnabod mai rhesymeg LPfN yw 'natur ar stepen eich drws'. Yn benodol, cydnabuwyd bod mwy o amlygrwydd o natur o fewn cymunedau a grwpiau cymunedol sydd yn cael perthynas well â byd natur hefyd yn rannau pwysig o LPfN ac felly yn ddangosyddion llwyddiant pwysig ar gyfer y rhaglen gyffredinol.
- 3.11 Cytunodd cyfranogwyr y gweithdy y bydd hi bob amser yn anodd priodoli newidiadau mewn agweddau cyhoeddus tuag at natur at brosiectau neu gynlluniau unigol. Awgrymasant ei bod felly'n bwysig cydnabod mai prif bwrpas LPfN yw

lluosogi cysylltiadau rhwng y gymuned a natur ac na fydd budd bioamrywiaeth sylweddol o ganlyniad i unrhyw un prosiect unigol. Nod tymor hir LPfN yw anog ymddygiad cymunedau i werthfawrogi a meithrin y mannau gwyrdd bach sydd ganddynt er mwyn i hyn greu newid ymddygiad mwy hirdymor, mwy buddiol a chynhyrchu manteision economaidd ac amgylcheddol lluosog. Nid yw'n bosibl o fewn y gwerthusiad hwn i benderfynu a yw'r newid ymddygiad hwn wedi digwydd. O ganlyniad, bydd angen rhagor o ymchwil i ddiffinio canlyniadau llwyddiannus a'u monitro i ddangos effaith LPfN. Gall y farn gan gyfranogwyr y gweithdy ffurfio man cychwyn i adeiladu arno i ystyried y llwybr o fewnbynau a gweithgareddau i allbynau ac, yn y pen draw, ganlyniadau.

4. Canfyddiadau - Cangen Partneriaethau Natur Lleol

Cyflwyniad

- 4.1 Fel y nodwyd eisoes, cangen LNP o'r LPfN yw'r mwyaf yn ariannol o dair rhan y rhaglen LPfN. Ym mlwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn LPfN, dyrannwyd cyllid nad oedd yn gystadleuol gan gangen WCVA ar sail cynllun cyflenwi prosiectau. Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn unol â nodau cyffredinol y cynllun LPfN ac ar draws dwy thema wahanol, yn ymwneud â 'thwf amgylcheddol ar stepen eich drws' a 'gwyrddio'r ystâd gyhoeddus'. Mae'r cynllun ar gyfer 2021-22 wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.
- 4.2 Yn 2021-222, cyflwynwyd 'Cronfa Her' newydd ar gyfer prosiectau mwy. Roedd hon yn broses gystadleuol oedd yn gofyn i LNPs wneud cais am arian y gellid ei ddefnyddio o fewn y flwyddyn ariannol. Mae rôl sy'n rhan annatod o Cynnal Cymru hefyd yn cefnogi LNPs gyda'u hymholiadau a'u ceisiadau Cronfa Her.
- 4.3 Fel yr eglurwyd eisoes, mae'r rhwydwaith LNP Cymru gyfan wedi'i ddefnyddio i hwyluso gwaith LPfN ledled Cymru. Mae Tabl 4.1 yn nodi nifer yr LNPs ym mhob rhanbarth o'i gymharu â nifer yr LNPs ym mhob rhanbarth a gymerodd ran mewn cyfweiliad.

Tabl 4.1: LNPs a gymerodd ran mewn cyfweiliadau ymchwil

Lleoliad	LNPs mewn ardal	LNPs a gymerodd ran mewn cyfweiliadau
Gogledd	7	6
Canolbarth	3	3
Gorllewin Cymru	2	2
De-ddwyrain Cymru	9	5

Ffynhonnell: Cyfweiliadau cydlynnydd LNP, 2022

- 4.4 Fel arfer, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chydlynnydd yr LNP ar gyfer ardal LA neu NPA. Mewn rhai achosion, rheolwr llinell uwch oedd y brif ffynhonnell. Roedd hyn fel arfer yn wir pan oedd cydlynnydd yr LNP yn gymharol newydd yn y swydd, er enghraifft, gyda llai na chwe mis o brofiad, ac felly'n methu gwneud sylw manwl ar y cynllun.

Rôl Cydlynnydd Partneriaeth Natur Leol

- 4.5 Mae cydlynwyr LNP yn gyfrifol am gyfres o berthnasoedd trwy eu swydd. Mae'r rhain yn cynnwys, fel mae'r enw'n awgrymu, eu cydlyniad o'u LNP, grŵp o sefydliadau ym mhob ardal LA neu NPA. Maent yn cyfarfod ar sawl achlysur bob blwyddyn, mae hyn yn amrywio yn ôl yr LNP.
- 4.6 Mae'r cydlynnydd LNP wedi'i leoli o fewn awdurdod sydd yn gofalu amdanynt, naill ai'r LA neu NPA. Fel arfer maent o fewn adrannau bychain o fewn yr awdurdod ehangach. Wrth gyflawni eu swyddi felly mae'n ofynnol iddynt hefyd gynnal perthnasoedd gydag adrannau eraill ar draws yr awdurdod i sicrhau ymrwymiad a chael mynediad at gyllid a chefnogaeth ychwanegol er mwyn cyflawni prosiectau sy'n gofyn am weithio trawsadrannol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys sicrhau cefnogaeth ar gyfer materion cynllunio priodol neu drwyddedau cau priffyrdd er mwyn caniatáu gwneud gwaith. Nodwyd yn ystod cyfweiliadau bod rol y cydlynnydd yn cael eu trin yn wahanol gan LAs ac NPAs, ac weithiau y cyllidwyd y swyddi hyn ochr yn ochr â rolau grant neu LA eraill, sy'n golygu mai dim ond rhan-amser oeddent yn gweithio ar waith WCVA-LNP.
- 4.7 Roedd cydlynwyr LNP hefyd yn cwrdd â'i gilydd yn rheolaidd, roedd y cyfarfodydd yma yn cael eu trefnu gan y WCVA. Cynhaliwyd y cyfarfodydd cenedlaethol hyn o gydlynwyr yn rhithiol gan roi cyfle i'r rhai mwy profiadol yn y rôl rannu arferion gorau, ateb cwestiynau a rhoi cyngor.
- 4.8 Nodwyd bod y cyfarfodydd yma yn rhai defnyddiol iawn, gan reolwyr a chydlynwyr. Cafodd pwysigrwydd y dysgu oedd yn cael ei rannu rhwng swydd-ddeiliaid, a phwysigrwydd presenoldeb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd, gan ddangos cefnogaeth i'r cynllun, ei esbonio gan gyfranogwr cyfweiliad rheolwyr;
- "Mae cefnogaeth cyfoedion wedi bod yn werthfawr. Yn ystod COVID, cawsom gyfarfodydd wythnosol/pythefnosol o'r rhwydwaith, yn aml gyda LIC yn mynychu ac yn darparu diweddariadau. Roedd hyn yn dangos cryfder y rhwydwaith ac yn rhannu dysg gan wahanol gydlynwyr." (Cyfweiliad rheolwyr)

Aelodaeth a gweithgareddau LNP

- 4.9 Fel y nodwyd yn gynharach, ariannwyd rhwydwaith yr LNP trwy grant ENRaW rhwng 2019 a 2022. Fel rhan o'r grant hwn, casglodd WCVA ddata monitro ar gynnydd y rhwydwaith. Mae'r data hwn hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer LPfN gan ei fod yn dangos twf ac ymgysylltiad yr LNPs. Mae'r data monitro yn dangos nod o 112 o gyfarfodydd LNP i'w cynnal yn ystod 2021-22, a chynnydd o 30 y cant i bartneriaid newydd, gyda hanner y rhain yn dod o gynulleidfaoedd anhraddodiadol, na fyddai fel arfer yn disgwyl cymryd rhan mewn cynlluniau adfer natur. Rhagorwyd ar y targed hwn, gyda 347 o gyfarfodydd yn cael eu cynnal a chynnydd o 483 y cant i bartneriaid newydd, 9 y cant o gynulleidfaoedd anhraddodiadol (yn gyfystyr a 92 o bartneriaid anhraddodiadol). Priodolwyd y llwyddiant hwn i'r gallu i gynnal cyfarfodydd ar-lein, sy'n haws eu trefnu ac yn aml yn cael presenoldeb uwch na chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae gan lawer o LNPs gyfarfodydd partneriaeth llawn ynghyd â grwpiau llywio a chyfarfodydd tasglu.
- 4.10 Mae union aelodaeth pob LNP yn amrywio ar draws Cymru, ac felly hefyd y modd y maent yn gweithredu. Esboniodd un cydlynnydd LNP eu bod wedi cwrdd â grwpiau sydd â diddordeb yn weddol reolaidd ac mae ganddynt hefyd elfen benodol o'r bartneriaeth sydd wedi'i hanelu at grwpiau cymunedol:
- "Rydyn ni'n cwrdd bob dau fis gyda'r nos. Mae gennym ni recordwyr, gwirfoddolwyr, cyrff anlywodraethol, grwpiau 'Ffrindiau', NRW. Mae'n organig mewn gwirionedd, felly os oes unrhyw un yn dangos diddordeb maen nhw'n cael gwahoddiad. Mae gennym gangen arall o'r bartneriaeth ... sydd wedi'i anelu at grwpiau cymunedol. Gwahoddir tua 40 neu 50 i'r cyfarfodydd, ac fel arfer mae gennym tua 25 yn y cyfarfodydd." (Cyfweliad cydlynnydd LNP)
- 4.11 Yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, esboniodd cydlynnydd sy'n canolbwyntio ar y gweithrediad rhanbarthol, ar draws ffiniau LA:
- "Rydyn ni'n aelodau o Bionet, rhwydwaith Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae pob grŵp cadwraeth yn lleol yn rhan ohono – RSPB, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt, AHNE, Grŵp Moch Daear Clwyd, ac unigolion preifat hefyd. Mae gennym chwe cyfarfod misol, hefyd e-bost cyfathrebu, cyfryngau cymdeithasol – mae'r ffocws ar ddigwyddiadau lleol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos drwy rwydwaith

cydlynwyr yr LNP. Rydym wedi datblygu offer arolygu ac offer monitro."
(Cyfweliad cydlynwyr LNP)

- 4.12 Mae'n debygol taw yr aelodaeth, a'r ffyrdd amrywiol o ymgysylltu â rhwydweithiau'r LNP, a'r rhwydwaith cydlynnydd ehangach, a fydd yn dylanwadu sut mae LNPs yn perfformio. Felly, mae'r dull presennol o gyfarfod a rhannu gwybodaeth ymhlith cydlynwyr LNP yn bwysig.
- 4.13 Mae WCVA yn casglu data monitro sy'n asesu lefel gweithrediad pob un o'r LNPs. Mae pedair lefel o weithredu o fewn y fframwaith: (1) Dim partneriaeth ond gweithgarwch cadwraeth; (2) Partneriaeth sylfaenol; (3) Partneriaeth 'dylanwadu' gweithredol; a (4) partneriaeth 'Gwneud i bethau ddigwydd'. Defnyddir rhestr o'r mathau o weithgareddau i ddiffinio pob lefel ac asesu o fewn pa un o'r LNPs y maent yn perthyn.
- 4.14 Roedd targedau o fewn grant ENRaW yn cynnwys un oedd yn mynu bod saith LNPs yn cael eu dychwelyd i 'statws gweithredol' (Lefel 3), a 75 y cant o LNPs yn symud ymlaen i Lefel 4 ('gwneud i bethau ddigwydd') o ran eu strwythur sefydliadol. Er bod WCVA yn dweud bod y targedau ar gyfer LNPs gweithredol wedi'u cyrraedd, ar adeg dadansoddi dim ond 41 y cant o LNPs oedd wedi cyrraedd targed Lefel 4. Ymhlith y rhesymau a roddwyd am beidio â datblygu ymhellach mae'r pandemig a'r grant cyfalaf LPfN, sy'n achosi newid yn y blaenoriaethau, a hefyd y ffaith na sefydlwyd llawer o LNPs tan ail flwyddyn cynllun ENRaW (hynny yw, 2020-21) oherwydd oedi yng nghyfnod cychwynol y cynllun, yn ogystal a materion recriwtio. Mae hyn yn golygu bod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd i'r system LNP er mwyn iddo allu gweithredu ar y lefel darged ledled Cymru, ac, ar adeg yr asesiad, mae perfformiad yn amrywio rhwng LNPs.
- 4.15 Mae'n amlwg bod gan hyn oblygiadau ar gyfer LPfN; nododd y rhai gafodd eu holi y byddai cefnogi LNPs i gynyddu capasiti ymhellach yn cael buddion o ran cyflwyno nodau yr LPfN o fewn eu hardal a chaniatáu i LNPs weithredu ar lefel uwch, mwy strwythuredig a threfnus.

Taliadau blwyddyn-sengl

- 4.16 Roedd y rhan fwyaf o gyfweiliadau gyda staff rheoli a darparu LNP yn codi materion yn ymwneud â dyluniad y cynllun - sy'n golygu bod yn rhaid cwblhau prosiectau o fewn un blwyddyn ariannol.
- 4.17 Gwelwyd hyn fel rhywbeth a oedd yn creu cyfres o broblemau, wrth ddylunio prosiectau yn ogystal a chadw staff. Dywedodd cyfranogwyr fod y rhan fwyaf o brosiectau angen mwy na blwyddyn i'w cwblhau, ac ni allai'r amserlen gyfrif am oedi ychwanegol oherwydd oedi a oedd y tu allan i reolaeth y prosiect (e.e. materion yn y gadwyn gyflenwi neu ofynion caffael neu ganiatâd cynllunio LA) ac, oherwydd y rhuthr i'w gwblhau cyn y dyddiad cau, roedd sgil-ffaith ar ddatblygiad manwl cynlluniau'r flwyddyn ganlynol. Effeithiodd hyn i gyd ar effeithiolrwydd prosiectau sy'n cyflawni yn erbyn nodau ehangach LPfN.
- 4.18 Esboniodd un cydlynnydd anawsterau ceisio cyflawni prosiectau o fewn blwyddyn, gan nodi problemau megis amser staffio, dylunio, gofynion ymgynghori, yn ogystal â salwch staff a gwirfoddol oherwydd COVID-19.
- "Mae'r amserlen yn hunllef. Mae ceisio cyflwyno o fewn blwyddyn yn anodd iawn... Ni allwch gyflawni prosiectau bob amser, gan fod yn rhaid i chi ganiatáu amser ar gyfer dylunio, ymgynghori, ac ati. Wnaeth y prosiect ddim hyd yn oed ddechrau tan ddiwedd Chwefror. Mae pobl yn cael COVID ac maen nhw ffwrdd ac mae'n oedi popeth." (Cyfweiliad cydlynnydd LNP)
- 4.19 Cafodd y cyllid blwyddyn-sengl ar gyfer y prosiectau hefyd ei weld gan cydlynwyr a rheolwyr LNP fel ffactor a oedd yn effeithio ar recriwtio a chadw staff. Mae cyllid tymor byr yn golygu bod LAs neu NPAs, fel prif gyflogwyr y cydlynnydd, yn llai tebygol o allu cynnig contract hirdymor neu barhaol oherwydd y risg y bydd y grant yn cael ei dynnu'n ôl mewn blynyddoedd i ddod. Nododd cydlynwyr LNP y risg y gall hyn ei gyflwyno wrth gyflawni cynllun, gan gynnwys tynnu eu sylw oddi ar eu cyfrifoldebau dyddiol i'r prosiect, lleihau cyfleoedd ar gyfer cynllunio tymor hir ac arwain at anhawsterau wrth gyflawni pan fydd swyddi'n wag oherwydd hyd y prosesau recriwtio. Yn eu tro, dywedodd rhai cydlynwyr LNP fod darparu contract tymor byr blwyddyn-sengl yn golygu bod staff yn aml yn chwilio am gyflogaeth amgen, efallai o fewn yr un adran yn y LA, yn fuan iawn ar ol dechrau ar y gwaith.

4.20 Er yn gefnogol iawn i'r cynllun, eglurodd un cydlynnydd LNP mai eu prif broblem oedd ansicrwydd swydi, yn seiliedig ar drefniadau ariannu. Mewn ymateb i gwestiwn am yr anhawster neu'r her fwyaf gyda'r rôl:

"Efallai nad yw LIC yn cadarnhau cyllid yn gyflym; Ar hyn o bryd dwi'n gorffen y mis yma oherwydd dydyn ni ddim wedi cael gwybod a ydyn ni'n cael estyniad ai peidio. " (Cyfweiliad cydlynnydd LNP)

4.21 Cynhaliwyd y cyfweiliad hwn ym mis Chwefror 2022, cyn cyhoeddi cyllid ar gyfer dyfodol LPfN a datrysiad y materion hyn ar gyfer dechrau blwyddyn 2022- 23, ond mae'n tynnu sylw at ofidion y cydlynwyr ar y pryd.

4.22 Roedd teimlad cyffredinol gan gyfranogwyr cyfweiliad y byddai rhaglen ariannu aml-flwyddyn yn caniatáu cynllunio prosiectau yn well, y byddent yn fwy effeithiol wrth gyflawni eu hamcanion, ac y byddai'r swyddi'n ymwneud â'r cynllun yn fwy deniadol i staff na chontractau tymor byr a oedd mewn perygl o beidio cael eu hadnewyddu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Cronfa Her

4.23 Wrth drafod y Gronfa Her, y rhan ychwanegol o'r cynllun a gyflwynwyd yn 2021-22, cyfeiriodd y cydlynwyr a'r staff cymorth unwaith eto at yr anawsterau sy'n gysylltiedig ag amserlenni grant a'r pwysau i gyflawni at ddiwedd y dyddiad cau ar gyfer y flwyddyn ariannol.

4.24 Nodwyd hefyd bod rhai LNP's yn ymgysylltu yn well â phroses y Gronfa Her nag eraill, gan beryglu anghydbwysedd mewn buddsoddiad ledled Cymru. Roedd yn awgrymu bod LNPs a oedd wedi'u trefnu'n well yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hyn i wneud cais am arian y Gronfa Her a'i dderbyn. Gall hyn hefyd ymwneud â materion cynharach yn ymwneud â chapasiti LNPs unigol, a dangos manteision pellach o wella eu gweithrediadau. Wrth drafod y materion hyn, nododd un cyfwelai rheoli pam eu bod yn credu bod rhai LNPs yn llai parod nag eraill i gymryd rhan mewn system ymgeisio am grant cystadleuol:

"Mae gan rai LNPs gydlynwyr ac mae gan rai staff cymorth. Felly mae yna wahanol broblemau capasiti mewn gwahanol lefydd. Mae amserlenni hefyd yn broblem. Mae ceisio am ganlyniad mawr yn ymarferol anodd." (cyfweliad rheolwyr).

Prosiectau a ymgrymwyd â hwy yn ysgod 2020-21

- 4.25 O ganlyniad i amseriad y gwaith cyfalaf cofrestredig (gweler Atodiad 1) ar gyfer blwyddyn 2020-21 LPfN, blwyddyn lawn gyntaf y prosiect, nid oedd yn bosibl ystyried allbynnau, canlyniadau ac effeithiau gwaith cyfalaf yr LNP o fewn gwerthusiad llynedd. Dyma'r cyfle cyntaf felly i ofyn i gydlynwyr LNP ynglun â chyflwyniad ac effeith eu prosiectau gorffenedig cyntaf.
- 4.26 Er mwyn profi yr effaith canfyddol yr oedd LPfN yn ei gael yn eu hardal, gofynnwyd i gyfranogwyr cyfweld raddio llwyddiant eu prosiectau hyd yn hyn ar greu 'natur ar stepen eich drws'. Gofynnwyd iddynt ddefnyddio graddfa 5 pwynt *Likert 5* lle roedd 1 yn golygu 'dim effaith o gwbl' a 5 yn golygu 'y cytundeb cryfaf iddo gael effaith hynod gadarnhaol'. Lle roedd prosiectau wedi'u cwblhau, roedd cydlynwyr LNP (n=16) yn gadarnhaol am y gwaith a wnaed a'r effaith o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed wrth greu 'natur ar stepen eich drws'.
- 4.27 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd nodi'r effaith yr oedd eu prosiectau'n ei gael ar wella natur a bioamrywiaeth.
- 4.28 Mae nifer o LNPs yn nodi sut y bu iddynt asesu'r effeithi ar natur a bioamrywiaeth yn eu prosiectau; Er enghraifft, mae technegau monitro aer mewn ardaloedd prosiect wedi gallu nodi sut mae'r prosiect yn cefnogi'r amgylchedd, fel yr eglurwyd gan un cydlynnydd isod:
- "Mae monitro aer wedi dangos bod rhwng 20 a 30 y cant o ostyngiad mewn nitrogen deuocsid, felly mae wedi cael yr effaith roedden ni ei eisiau. Ar safleoedd a oedd gynt yn iardiau wedi eu tarmacio, fe wnaethom gyflwyno rhywfaint o wyrddni a bioamrywiaeth." (Cyfweliad cydlynnydd LNP)
- 4.29 Nododd cydlynwyr LNP hefyd yr amser a gymerwyd i effeithiau y cynllun ddod i'r amlwg . Roedden nhw hefyd yn cytuno bod rhai effeithiau y gellir dechrau eu

hasesu drwy arolygon, gan gynnwys arolygon blodau gwyllt a botanegol ac arolygon glaswelltir. Esboniodd un cydlynnydd, fel a ganlyn;

"Mae prynu peiriannau i wneud toriad a chodi [torri gwair] yn golygu y bydd yna welliant yn nifer y peillwyr. Rydyn ni'n dod â mwy a mwy o dir i mewn yn raddol - gyda hynny, ni fyddwn yn gweld yr effaith yn syth. Ond mae plannu planhigion a hadau peillwyr yn gyflymach na hynny. Gyda'r cyrsiau hyfforddi wnaethon ni gynnig, aeth rhai pobl ymlaen i wneud arolygon glaswelltir i ni, felly mae wedi bod yn dda o ran monitro. Mae gwneud rhywbeth sy'n seiliedig ar arolwg yn dda oherwydd mae'n rhywbeth y gall pobl barhau i'w wneud yn eu hamser eu hunain." (Cyfweliad cydlynnydd LNP)

Ymgysylltiad Cymunedol

4.30 Gofynnwyd i gydlynwyr hefyd egluro sut roedd eu prosiect wedi cefnogi'r gymuned, gan gydnabod amcanion cydlynol y cynllun ar gyfer natur a'r gymuned.

4.31 Tanlinellwyd y cyfle i ddarparu hyfforddiant i wirfoddolwyr gan gwpl o gydlynwyr LNP:

"Roedd yna adfer cynefinoedd, felly roedd angen hyfforddi pobl ac roedd angen i bobl ymgysylltu; Roedd y cyfnod clo yn broblem ond roedd yn dda cael pobl yn yr awyr agored, roedd pobl yn gwybod ei fod yno ac roedden nhw'n gallu mynd i weld pethau." (Cyfweliad cydlynnydd LNP)

"Fe lwyddon ni i drefnu rhywfaint o hyfforddiant gwirfoddol y llynedd rhwng y cyfnodau clo, mae gennym ni hyfforddiant waliau cerrig sych ... a rhywfaint o reoli glaswelltir." (Cyfweliad cydlynnydd LNP)

4.32 Fodd bynnag, roedd yna sylwadau ar effaith COVID-19, a oedd wedi atal peth o'r gwaith disgwylidig gyda chymunedau rhag digwydd.

"Doedden nhw [y gymuned] ddim yn gymaint o ran o'r ddarpariaeth ac yr oedden wedi rhagwelwyd y bydda nhw (oherwydd COVID-19)." (Cyfweliad cydlynnydd LNP)

"Dydyn ni ddim wedi gwneud unrhyw wirfoddoli na dim byd." (Cyfweliad cydlynnydd LNP)

4.33 Roedd hefyd sylwadau ar faint o waith sydd ei angen i ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau sydd ddim yn dangos ddiddordeb mewn materion amgylcheddol ar hyn o bryd ac felly'n agosach at y gynulleidfa darged LPfN. Dywedodd un cydlynnydd:

"Mae'n cymryd amser hir i ymgorffori newid go iawn. Mae tipio anghyfreithlon [o amgylch y safle] wedi gostwng. Buom yn cydweithio gyda chymdeithasau tai i guro ar ddrysau ac anfon taflenni. Da ni wedi dechrau dyddiau gwirfoddol cymunedol ac mae wedi dechrau cael ei weld fel gofod i'r gymuned - lle mae pobl yn mynd am dro. Mae gwirfoddolwyr ar y safle rhan fwyaf o benwythnosau."
(Cyfweiliad cydlynnydd LNP)

4.34 Nododd cydlynnydd arall hefyd yr ymateb cymysg i brosiectau gan aelodau'r gymuned:

"Ar gyfer 'Natur ar eich Stepen Drws', gyda ymylon ffordd (verges) mae pobl yn defnyddio y rhaid bob dydd, yn ystod amser mynd i'r ysgol a ballu. Nid yw'r trigolion yn swil wrth gynnig adborth; Roedd gennym ni gryn dipyn o gwynion, ond hefyd y nifer uchaf o ganmoliaeth." (Cyfweiliad cydlynnydd LNP)

Cynaliadwyedd y prosiect

4.35 Gofynnwyd i gydlynwyr hefyd i ba raddau y byddai eu prosiectau a gyflwynwyd yn 2020-21 yn cael eu cynnal yn y dyfodol. O'r atebion a ddarparwyd, roedd amryw o grwpiau gwahanol yn ymgymryd â chyfrifoldeb am gynnal a chadw'r safleoedd yn y dyfodol, o awdurdodau lleol i grwpiau gwirfoddol lleol i grwpiau bywyd gwyllt a chadwraeth mwy.

4.36 Roedd cydlynwyr yn ymddangos yn hyderus bod eu prosiectau gwreiddiol wedi bod o fudd i fyd natur ar y cyfan, gan nodi canlyniadau monitro i gefnogi hyn lle bo yn bosibl ac amlygu'r mecanweithiau a roddwyd ar waith i sicrhau gwaith cynnal a chadw parhaus.

4.37 Un o'r pryderon a godwyd gan gydlynwyr LNP oedd bod effaith negyddol arian blwyddyn-sengl y prosiect yn golygu y gallai'r etifeddiaeth gael ei beryglu oherwydd efallai na fydd tîm y prosiect yno i barhau â'r gwaith, neu byddai'n dod yn llai o flaenoriaeth i'r LNP yn y dyfodol.

4.38 Dylid ystyried monitro gwaith cynnal a chadw ac effaith parhaus y prosiectau blynyddoedd cynnar hyn mewn blynyddoedd i ddod i roi sicrwydd bod eu heffaith wedi bod fel y disgwyl a bod eu gwaith cynnal a chadw parhaus wedi'i sicrhau. Yn ei gyfarwydd, dylai LPfN ystyried y ffordd orau o gofnodi data monitro ar gynnal a chadw ac effaith safleoedd gorffenedig. Dylai LPfN ystyried pwy ddylai ymgymryd â'r gwaith hwn a goblygiadau costau a chefnogaeth ariannol, os oes angen. Mae angen gwneud hyn ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, WCVA a LNPs er mwyn sicrhau ymrwymiad yn ogystal a sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu mabwysiadu ledled Cymru.

Pwyntiau penodol ynglŷn â thorri gwair

4.39 Mae'n amlwg o'r cyfweiliadau gyda chydlynwyr LNP fod ymateb cymysg i'r newidiadau i gyfundrefnau torri gwair ledled Cymru. O safbwynt y cydlynwyr, maen nhw'n credu ei fod yn fater o addysgu pobl am fanteision y dull newydd hwn, yn hytrach na'r gred fwy traddodiadol y dylai natur, a glaswellt yn benodol, fod yn 'daclus'. Esboniodd un cydlynnydd LNP fel a ganlyn:

"Os nad yw pobl yn deall beth ry'n ni'n ei wneud, maen nhw jyst yn ei weld e fel ni ddim yn torri'r glaswellt. Dwi'n meddwl, wrth i amser fynd yn ei flaen, bod mwy o bobl yn dechrau deall. Drwy'r prosiect hwn maen nhw'n dechrau deall pwysigrwydd torri, a ddylai adael etifeddiaeth ar ôl." (Cyfweiliad cydlynnydd LNP)

4.40 Trafodwyd heriau yn y berthynas ag adrannau eraill ar draws yr LA, a gyda chynghorwyr lleol, gan tua traean o'r cydlynwyr y buom yn siarad â nhw. Esboniodd un cydlynnydd LNP eu bod yn datblygu cyflwyniad i ddangos i gynghorwyr a staff eraill yr LA i egluro'r gwaith oedd yn cael ei wneud a'r rhesymeg y tu ôl iddo. Y gobaith oedd y byddai hyn yn lliniaru adweithiau negyddol sy'n deillio o ddiffyg ymwybyddiaeth o nodau prosiect ar gyfer natur.

4.41 Mewn termau ymarferol, esboniodd mwy nag un cydlynnydd LNP broblemau sy'n dod i'r amlwg yn LAs o ran cyflwyno peiriannau newydd a brynwyd fel rhan o LPfN, a gallu'r tîm LA presennol i addasu prosesau i ddefnyddio'r peiriant yn effeithiol. Esboniodd un cydlynnydd LNP y sefyllfa yn eu hawdurdod:

"Mae'r peiriant Cut and Collect yn fawr. Ry'n ni'n lwcus iawn bod ein gwasanaeth gwastraff gwyrdd yn casglu fe. Rydyn ni'n dal i fod yn newydd iawn i wybod pryd i dorri pethau - mae angen llawer o hyfforddiant. Mae pawb yn dal i ddysgu. A chael y dilyniant yn iawn, fel sicrhau bod glanhawyr strydoedd yn mynd i mewn i ddechrau a chymryd sbwriel i ffwrdd." (Cyfweliad cydlynedd LNP)

- 4.42 Yma, mae'r cydlynedd yn esbonio bod defnyddio'r grant i gael peiriant newydd wedi arwain at yr angen am newid sylweddol o fewn y tîm lleol i ddatblygu protocolau i'w defnyddio'n briodol. Mewn rhai manau, amlygodd y cyfranogwyr, oherwydd y gofynion hyn, nad oedd yr offer a brynwyd wedi cael ei ddefnyddio oherwydd ei fod wedi achosi heriau i dîm yr LA i ddefnyddio'r offer ochr yn ochr â'r gwasanaethau presennol. Mae hyn yn cyfeirio at yr angen am ymrwymiad ehangach gan adrannau LA gyda'r cyfrifoldeb parhaus am y gwaith hwn a chydabyddiaeth bod heriau, ideolegol ac ymarferol, i weithredu systemau newydd o fewn sefydliadau traddodiadol. Fel arall, mae perygl y bydd y grant sy'n cael ei ddefnyddio i brynu offer newydd ddim yn cael ei ddefnyddio. Gallai dysgu o unrhyw arfer gorau ar draws rhwydwaith LNP fod yn fan cychwyn defnyddiol.

Datblygu cynigion ar gyfer 2021- 22

- 4.43 Gofynnwyd i gyfranogwyr y cyfweliad esbonio'r prosiectau yr oeddent wedi'u cyflwyno i LPfN yn y flwyddyn ariannol 2021- 22. O'r ymatebion a gafwyd, mae'n amlwg bod arferion a syniadau gorau yn cael eu lledaenu ledled Cymru, gan ganolbwyntio'n gynyddol ar arferion torri gwair a safleoedd blodau gwyllt, ar y naill law, fel rhan o greu safleoedd newydd, a thuag at greu waliau gwyrdd fel modd o 'wyrddio'r ystâd gyhoeddus', ar y llaw arall.
- 4.44 Fel y soniwyd eisoes, roedd amseru'r gwaith maes yn golygu bod llawer o brosiectau yn 2021-22 heb gwblhau eu cyflawniad eto, ac felly ni ellid gwerthuso allbynnau, canlyniadau ac effeithiau. Ond ar adeg cyhoeddi mi fydd y prosiectau hyn wedi bod o gwmpas ers tua blwyddyn.

Ymgysylltu â thrydydd parti

- 4.45 Yn ogystal â thrafod effeithiau eu prosiect ar fyd natur a'u cymuned leol, gofynnwyd hefyd i gydlynwyr egluro sut roedden nhw wedi gweithio ar draws gwahanol sefydliadau i gyflawni eu prosiectau. Roedd y rhain yn dangos ystod o grwpiau, gan gynnwys y rheiny sy'n fwy traddodiadol yn gysylltiedig â bywyd gwyllt, fel yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ac Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru ac, fel rhan o 'wyrddio'r ystâd gyhoeddus', sefydliadau sy'n llai cysylltiedig â natur a'r amgylchedd, fel y GIG a'r Gwasanaeth Tân. Caiff data ymgysylltu ei gasglu gan WCVA, sy'n dangos 'grwpiau traddodiadol' ac 'anhraddodiadol' fel rhan o'r LNP ac wrth weithio gyda phrosiectau (gweler paragraff 4.9).

Ymgysylltu â'r gymuned

- 4.46 Gofynnwyd i gydlynwyr hefyd sut roedd grwpiau cymunedol lleol wedi cymryd rhan yn y prosiectau oedd yn cael eu datblygu yn 2021-22. Adroddwyd lefelau gwahanol o ymgysylltiad.
- 4.47 Esboniodd un cydlynnydd eu bod wedi cynnal digwyddiad ar ffurf diwrnod agored lle'r oedd pobl leol yn gallu rhoi eu barn ar gynigion yr LPfN lleol, gan ddweud:
- "Ar gyfer y prosiect fe wnaethon ni gynnal diwrnod ymgynghori ac fe wnaethon nhw i gyd gyfarfod ar y safle ac fe aethon ni dros beth oedden ni eisiau. Hefyd cawsom gyfarfodydd blaenorol gyda'r gymdeithas dai a'r ysbyty. Ac mae'r ysgol leol wedi gwneud yr holl waith celf i groesawu i'r safle, ac fe gyflogon ni artist o dde Cymru. Roedd pawb a oedd yn yr ymgynghoriad yn gallu egluro'r hyn roedden nhw'n ofnus ohono a neb yn dweud nad oedden nhw ei eisiau. Mae wedi gwneud newid go iawn i'r ardal, gyda llwybrau i gadw pobl o fwq'n rhai ardaloedd." (Cyfweiliad cydlynnydd LNP)
- 4.48 Esboniodd cydlynnydd arall nad oedden nhw wedi cynnal unrhyw ymgynghoriad rhagweithiol, ond yn hytrach yn ymateb yn adweithiol i sylwadau wrth iddyn nhw godi. Eglurodd:

"Un o'r ysgogiadau ydy adborth gan bobl sy'n cysylltu gyda'r cyngor. Dwi wedi bod yn ymateb i e-byst gan unigolion am ymarfer torri gwair ers i mi ddod i'r swydd yn 2010. Ddim mewn niferoedd mawr, mae ambell flwyddyn yn eithaf sylweddol." (Cyfweiliad cydlynnydd LNP)

4.49 Mewn achosion lle mae'n ymddangos bod mwy o gysylltiad cymunedol wedi bod, mae'n ymddangos bod TCCs lleol wedi chwarae rhan sylweddol, rhywbeth sy'n ymddangos yn gyffredin ar draws LPfN, er enghraifft, cydlynnydd a esboniodd:

"Roedd y gymuned yn rhan mawr o'r prosiectau i gyd. Dyma'u tir; e.e. eu tir hamdden, a'r cyngor cymuned sy'n cyfarfod yno a nhw sydd wedi trefnu popeth." (Cyfweiliad cydlynnydd LNP)

4.50 Esboniodd cydlynnydd pellach fod cyfranogiad wedi cael ei gyfyngu gan COVID-19 yn eu barn nhw, gan ddweud:

"Mae wedi cael ei gyfyngu gan COVID, felly allech chi ddim gwneud ymgynghoriadau cymunedol mawr, ond, yn enwedig gyda'r perllannau, maen nhw fel arfer yn awgrymiadau [gan y cyhoedd]." (Cyfweiliad cydlynnydd LNP)

4.51 Pan ofynnwyd i'r rhai gafodd eu holi am sut roedden nhw'n ymgysylltu â chymunedau difreintiedig, derbyniwyd amrywiaeth o ymatebion, yn seiliedig ar grwpiau penodol o bobl o fewn y gymuned sy'n llai abl i ymgysylltu â natur, ac mewn lleoliadau penodol a enwir. Er enghraifft, cyfeiriodd cydlynwyr at weithio gyda grwpiau sydd â phroblemau symudedd ac felly maent yn gyfyngedig o ran eu mynediad at fyd natur, neu gyda grwpiau â materion iechyd meddwl, sy'n cael eu hystyried fel pobl a fydd yn elwa o fynediad at fyd natur.

4.52 Esboniodd cydlynnydd arall eu bod wedi bod yn gweithio gyda'r gwasanaeth prawf fel rhan o'u prosiect, tra eglurodd un arall eu bod wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â chymdeithas dai i gael mynediad i wirfoddolwyr gan nad oedd ganddyn nhw'r adnoddau eu hunain. Yn y ddau achos, mae hyn yn cyd-fynd â nodau LPfN o ymgysylltu â phobl sydd dan anfantais/amddifadedd neu gyda mynediad cyfyngedig i fyd natur.

- 4.53 Mabwysiadodd rhai prosiectau ddull sy'n seiliedig ar ardal i ymgysylltu; Dewiswyd prosiectau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd penodol o Bowys a Chasnewydd ar gyfer eu lleoliad oherwydd eu lefelau uchel o dlodi cymharol. Cafodd Barrack Hill yng Nghasnewydd, er enghraifft, ei ddewis fel safle prosiect LNP oherwydd ei fod o fewn y 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas. Y nod oedd hawlio'r man gwyrdd ar gyfer natur a phobl drwy ysgogi newid ymddygiad a mynd i'r afael â phwysau allweddol ar fioamrywiaeth.
- 4.54 Mae angen rhagor o ymchwil i ymgysylltu â grwpiau sy'n llai abl i ymgysylltu â byd natur i ddeall pa effeithiau y mae prosiectau LPfN sydd yn cael eu darparu gan LNP yn ei gael. Bydd hyn yn gofyn am ddigon o amser i ganiatáu dod o hyd i unrhyw unigolion perthnasol a chael eu hadborth. Gallai fod yn ddefnyddiol ymgorffori lefel o gasglu adborth wrth gyflwyno prosiectau, gan gydnabod y bydd hyn yn effeithio ar adnodd amser ac arian y prosiectau. Man cychwyn arall i'r gwerthusiadau yn y dyfodol yw i geisio ymgysylltu â'r grwpiau a nodwyd gan gydlynwyr LNP a bydd angen cynnwys hyn yn y fframwaith gwerthuso, amserlenni a chyllideb.

Ymgysylltiad Gyhoeddus Ehangach

- 4.55 Ni ofynnwyd i gydlynwyr LNP yn benodol ynglun â ymgysylltu â'r cyhoedd ehangach yn ystod y set hyn o gyfweiliadau; Fodd bynnag, roedd sylwadau a dderbyniwyd yn dangos tuedd lle'r oedd y cyhoedd ehangach yn cael eu hystyried yn gefnogol i'r gwaith sy'n cael ei wneud, yn enwedig pan oedd wedi'i leoli o fewn ardal benodol ac yn rhan o gynllun gwella ar gyfer y lleoliad.
- 4.56 Ar y llaw arall, bu mwy o wrthwynebiad gan y cyhoedd i ganiatáu twf blodau gwylt mewn ardaloedd cyhoeddus a oedd yn cael ei gynnal gan LAs cyn hynny. Weithiau mae hyn yn gysylltiedig â chred bod gwaith o'r fath yn cynrychioli torri costau gan yr LA, a hefyd cred y bwriedir cadw ardaloedd o'r fath yn 'daclus'. Nid yw'n glir a yw hon yn farn eang, neu un a gyflwynwyd gan leiafrif lleisiol. O ystyried bod gwaith LNP yn cael ei ddarparu drwy LAs a gall cynghorwyr lleol ymatebol i gwynion cyhoeddus, mae'n dangos pwysigrwydd neges gyfathrebu i'r cyhoedd a chynghorwyr i egluro pwrpas y gwaith natur sy'n cael ei gyflawni.

4.57 Yn gyffredinol, mae hyn yn dangos bod angen mwy o waith gyda'r cyhoedd yn ehangach, ac nid dim ond y rhai sy'n ymwneud â phrosiectau, er mwyn deall eu hagwedd tuag at fyd natur. O ystyried bod disgwyl i effeithiau gael eu teimlo gan unigolion sy'n rhyngweithio â safle'n rheolaidd, hynny yw, trwy fyw neu weithio gerllaw neu basio heibio ar daith gymudol neu reolaidd, bydd yn bwysig ceisio ymgysylltu â phobl benodol. Efallai y bydd angen dulliau arloesol, sy'n cael eu hystyried ymhellach yn yr adran casgliadau ac argymhellion.

Effaith ymgysylltu pobl â'r argyfwch natur. diddordeb pobl yn yr argyfwng natur

4.58 Gofynnwyd i gydlynwyr yr LNP sut mae LPfN yn effeithio ar yr argyfwng natur ac ar y cymunedau sy'n ymgysylltu â'r prosiect.

4.59 Ar y cyfan cafwyd ymatebion cadarnhaol i'r cwestiwn hwn. Dyma un cydlynnydd sy'n nodi'r sefyllfa:

"Rwy'n credu ei fod yn helpu gan ei fod yn cael pobl i feddwl am fyd natur. Mae'r gerddi o fudd i fyd natur. Dwi'n meddwl bod yr effaith ar y bobl sy'n dysgu am fyd natur ac wedyn yn mynd ymlaen a gwneud newidiadau yn eu bywydau, mae'n fwy o effaith ar y bobl, ond dyw hynny ddim i ddweud y bydd pobl yn elwa."

(Cyfweliad cydlynnydd LNP)

4.60 Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod bod y prosiectau'n parhau i fod ar raddfa gymharol fach eu natur, ac yn mynegi eu cefnogaeth i LPfN, ond hefyd yn nodi'r cyd-destun ehangach, fel isod:

"Mae prosiectau'n gweithio orau pan maen nhw'n weladwy iawn, yn hynod emosiynol neu'n benodol, fel prosiect y parc. Mae'r mesurau cymedrol yn braf – mae wedi galluogi pobl i ymgysylltu. Maen nhw'n eich galluogi i adeiladu eich prosiect o'u cwmpas. Maen nhw'n berthnasol . Ond does dim byd yno sy'n ein hannog i ymgysylltu â materion anodd. Gallai fod ail haen sy'n annog pobl i wneud mwy." (Cyfweliad cydlynnydd LNP)

Cymharu â chanfyddiadau gwerthuso blwyddyn un

- 4.61 Mae canfyddiadau gwerthuso blwyddyn dau gan gydlynwyr yr LNP yn ailadrodd pryderon cynharach a ganfuwyd ym mlwyddyn un ynghylch amserlenni tynn i'w cyflawni. Mae'r canfyddiad parhaus hwn yn y gwerthusiad presennol yn awgrymu bod problemau amserlenni yn mynd y tu hwnt i'r oedi a achoswyd gan COVID-19 a'r ymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd a nodwyd ym mlwyddyn un.
- 4.62 Mae cydlynwyr LNP yn parhau'n bositif am eu gallu i gynnal prosiectau LPfN a gyflwynir trwy'r rhwydwaith LNP yn y ddwy flynedd gyntaf.
- 4.63 Nododd cydlynwyr LNP hefyd yr ymgysylltiad â'r gymuned i ddatblygu a chyflwyno prosiectau yn adroddiad gwerthuso blwyddyn un, o fewn cyfyngiadau COVID-19. Fodd bynnag, her gyffredin, fel y nodwyd gan gydlynwyr LNP ym mlwyddyn un oedd y gallu i ymgysylltu â chymunedau mewn ardaloedd arbennig o ddifreintiedig. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad presennol yn awgrymu y bu peth llwyddiant wrth fynd ati i ymgysylltu â grwpiau penodol â mynediad cyfyngedig at natur ac mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae hyn yn awgrymu bod rhai LNPs yn symud i'r cyfeiriad cywir a dylid rhannu'r arferion gorau er mwyn adeiladu ar yr ymgysylltu y maent eisoes wedi bod yn ymgymryd ag ef.

Crynodeb

- 4.64 Mae'r bennod hon wedi canolbwyntio ar y cynllun LPfN sy'n cael ei weinyddu gan WCVA ac mae'n defnyddio rhwydwaith LNP ledled Cymru i gyflawni prosiectau. Cododd cyfres o themâu cyffredin o'r cyfweiliadau hyn, gan gynnwys anawsterau gyda'r trefniadau ariannu blwyddyn-sengl presennol, angen gwell cefnogaeth i rai LNPs i gyrraedd eu potensial, gan gynnwys gwella perthnasoedd gwaith o fewn rhai awdurdodau i sicrhau canlyniadau gwell. Mae cydlynwyr LNP yn dechrau asesu'r effeithiau tymor byr ar natur trwy fonitro aer a thrwy ond yn cydnabod y bydd rhai effeithiau'n cymryd mwy o amser i'w gwireddu. Mae'r prosiectau wedi ymgysylltu â chymunedau a grwpiau penodol gyda mynediad cyfyngedig i natur lle bo'n bosib, ond bu anawsterau o hyd ym mlwyddyn dau o ganlyniad i barhad cyfyngiadau COVID-19. Mae arwyddion bod y prosiectau'n cael ymateb da; ond bu i gydlynwyr nodi eto ymatebion cymysg mewn rhai mannau ynglun â blodau gwyllt a newid arferion torri gwair, lle mae rhai elfennau o'r cyhoedd yn feirniadol. Mae angen

ystyried sut mae effeithiau tymor hir prosiectau yn mynd i gael eu monitro'n unigol ac ar y cyd a sicrhau bod etifeddiaeth y prosiect yn cael ei gynnal. Mae pwysigrwydd rheolaeth safleoedd i ymwybyddiaeth gyhoeddus ac ymrwymiad ehangach yn bwysig. Dylid ystyried ymgysylltu â chymunedau a grwpiau penodol yn y dyfodol, gan ganiatáu digon o amser i ymgymryd â hyn. Mae awgrymiadau an fethodolegau posib i'w gweld yn y casgliadau a'r argymhellion.

5. Canfyddiadau - Cangen Cadw Cymru'n Daclus

Cyflwyniad

- 5.1 Fel yr eglurwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae cangen KWT LPfN yn cynnwys creu mannau cymunedol bach trwy ddarparu cymorth wedi'i becynnu ymlaen llaw ar ffurf naill ai pecyn Cychwyn neu Ddatblygu. Mae grwpiau'n cyflwyno ffurflen gais i'r panel, sy'n blaenoriaethu cyllid ar sail cwrdd â rhesymeg LPfN 'natur ar stepen eich drws', gan gyfeirio'n benodol at y rhai mewn lleoliadau trefol neu beri-drefol, a gyda mynediad cyfyngedig at natur.

Pecynnau a dosbarthiad KWT yn y flwyddyn 2021-22

- 5.2 Yn ystod 2021-22, cymeradwyodd KWT 279 o geisiadau i gyd. Roedd y rhain ar gyfer 172 o becynnau cychwyn a 107 o becynnau datblygu. Mae hyn yn cymharu â 438 pecyn cychwyn a 82 pecyn dablygu a gafodd eu dosbarthu yn 2020-21, blwyddyn gyntaf LPfN. Ym mlwyddyn gyntaf y prosiect, dosrannwyd dros 200 o becynnau i TCCs yn 2021–2022. Cafodd y ceisiadau hyn eu cymeradwyo'n awtomatig ac nid oedd angen eu prosesu trwy banel dethol (fel gyda phob cais arall). Yn yr ail flwyddyn, roedd gofyn i'r cyfranogwyr gwblhau'r broses ymgeisio lawn.
- 5.3 Mae adroddiad blynyddol KWT ar gyfer 2021- 22²¹ yn nodi eu bod wedi derbyn 314 o geisiadau yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu bod 89 y cant o geisiadau o'r ceisiadau wedi cael eu cymeradwyo. Maen nhw'n dweud bod 279 o erddi natur newydd wedi cael eu creu, gyda 2.34 hectar o dir wedi'i wella ar gyfer natur. Mae'r rhain yn cynnwys 117 o ardaloedd tyfu bwyd newydd wedi'u creu a phlannu 157 o berllannau cymunedol.
- 5.4 O ranf y meini prawf LPfN i hyrwyddo natur mewn ardaloedd trefol a rhannol-drefol, ac ymhlith y rhai sydd â mynediad cyfyngedig i natur, roedd 66 y cant o gyfanswm y pecynnau a ddosbarthwyd yn 2021-22 wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol, 23 y cant mewn ardaloedd rhannol-drefol a dim ond 11 y cant mewn lleoliadau gwledig. Dylid

²¹ Adroddiad Mannau Lleol Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer Adroddiad Diwedd y Flwyddyn 2021–22

nodu nad oedd rhaid lleoli pecynnau sy'n tyfu bwyd mewn ardaloedd trefol, difreintiedig.

- 5.5 Mae tabl 5.1, isod, yn dangos nifer y pecynnau a ddyfarnwyd gan y nifer a'r canran o geisiadau llwyddiannus a ddywedodd, yn y cyfnod ymgeisio, y byddent yn cynnwys cyfranogwyr difreintiedig.

Tabl 5.1: Nifer a chanran y ceisiadau llwyddiannus a ddywedodd, yn y cyfnod ymgeisio, y byddent yn cynnwys cyfranogwyr difreintiedig

Categori ²²	Rhif	Canran
Du, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig	43	15%
Anabl	148	53%
Digartref	30	11%
Camddefnyddio sylweddau	19	7%
Cyflwr/anhwylder iechyd meddwl	75	27%
Oedolion hŷn	81	29%
Gofalwyr/rhieni ifanc neu sengl	48	17%
Cam-drin domestig	14	5%
LHDTQ+	18	7%
Troseddwyr	16	6%
Difreintiedig yn economaidd gymdeithasol	82	29%

Ffynhonnell: Adroddiad Lleoedd Lleol KWT ar gyfer Natur Diwedd y Flwyddyn 2021-22

- 5.6 Mae'r tabl yn dangos bod 53 y cant o ymgeiswyr llwyddiannus wedi dweud, yn eu cais i KWT, byddent yn ymgysylltu â phobl anabl, 29 y cant gyda'r henoed neu gyda phobl sydd dan anfantis economaidd-gymdeithasol a 27 y cant gyda phobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl. Dywedodd pymtheg y cant o'r ymgeiswyr y bydden nhw'n ymgysylltu â grwpiau Du, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig. Nid yw'r gwerthuswyr yn ymwybodol o unrhyw ddata, yn dilyn datblygiad yr ardd, sy'n cadarnhau bod y grwpiau hyn yn cael eu cynnwys. Byddai'n ddefnyddiol datblygu mecanwaith i gadarnhau'r ymgysylltu hwn.
- 5.7 Mae KWT yn nodi, o'r 279 pecyn s dosbarthwyd yn 2021-22, dosbarthwyd 40 y cant i leoliadau yn y 30 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a ddiffiniwyd gan WIMD, gyda 24 y cant wedi'u dosbarthu i ardaloedd rhwng 30 y

²² Sylwch fod rhai o deitlau'r categori yn y tabl hwn wedi'u newid ar gyfer priodoldeb.

cant a 50 y cant mwyaf difreintiedig, gyda'r 36 y cant arall wedi'u dosbarthu i hanner ardaloedd lleiaf difreintiedig y wlad.

- 5.8 Cyhoeddodd KWT hefyd dabl yn dangos ei allbynnau yn 2021-22, o'i gymharu â rhai o'r mesurau cymedrol.

Tabl 5.2: Allbwn Rhaglen a Mesurau Cymedrol

Mesur cymedrol	Cyfanswm cyffredinol	Hectarau
Nifer o safleoedd cynefinoedd peillwyr	279	2.35
Safleoedd tyfu bwyd cymunedol wedi'u creu	157	2.18
Cynyddu plannu coed (nifer y coed a blannwyd)	4,985	-
Nifer o berllannau cymunedol wedi'u creu	157	2.18
Cynlluniau creu cynefinoedd mewn gorsafoedd rheilffordd a chyfnewidfeydd trafniadaeth	2	0.001
Gerddi synhwyrdd at ddibenion therapiwtig, a gyflwynir mewn partneriaeth ag elusennau iechyd a'r GIG yng Nghymru	27	0.27
Nifer o fylbiau/llwyni brodorol wedi'u plannu	142,472	-
Ardal wedi'i chreu/gwella ar gyfer natur (sqm)	23,470	2.35
Cyfranogwyr yn rhan o greu gerddi newydd	1,930	
Oriau sy'n cael eu treulio gan ymgeiswyr wrth greu a rheoli gerddi newydd	20,350	
Gerddi wedi'u gosod ar arwynebau cwbl manmade	63	0.21

Ffynhonnell: Adroddiad Lleuedd Lleol KWT ar gyfer Natur Diwedd y Flwyddyn 2021-22

Cynnydd y cynllun cyn-becynnu KWT

- 5.9 O'i gymharu â changhennau eraill LPfN, mae cangen cyn-becynnu KWT wedi'i ddatblygu'n dda o ran nifer y prosiectau unigol sydd wedi'u cwblhau a'r allbynnau sydd ar gael y gellir eu harddangos am ddwy flynedd cyntaf y prosiect.
- 5.10 Roedd trafodaethau gyda'r staff rheoli yn canolbwyntio ar rôl y gangen hwn o fewn y rhaglen LPfN ehangach, y broses a'r heriau effaith a ddaeth yn amlwg yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, a sut y gellir datrys y rhain trwy welliannau yn y dyfodol.
- 5.11 Wrth drafod rôl cynllun KWT o fewn LPfN, disgrifiodd aelod o'r tîm rheoli eu safle unigryw fel a ganlyn:

"Rydyn ni'n gweithio mewn lleoliadau trefol sy'n cynnwys pobl sydd bellaf o fyd natur, gan roi'r sgiliau, yr hyder a'r byd natur iddyn nhw, o fewn eu gallu. Mae'r manteision mwyaf eleni wedi bod i'r rhai sydd bellaf o fyd natur, sydd ddim â'r hyder i sefydlu pethau. Mae'n hawdd gwneud cais. Mae'r cyfan wedi ei baratoi i gyd-fynd â'r mesurau cymedrol, rhywogaethau brodorol, rhydd o fawn, ac ati. , felly bach iawn yw'r risg i natur neu Lywodraeth Cymru. Mae'n rhoi cyfle i bobl waeth beth fo'u cefndir a'u sgiliau." (Cyfweiliad Rheolwyr)

- 5.12 Yng ngwaith eleni, canolbwyntiodd KWT ar y rhai sy'n wynebu anfantais a mynediad cyfyngedig at natur, yn unol â rhesymeg y rhaglen, ac mae'n nodi bod bron i 90 y cant o'r lleoliadau yn 2021- 22 wedi bod o fewn ardaloedd trefol neu rhannol-drefol.
- 5.13 Tynnodd cyfweiliadau gyda rheolwyr sylw at y ffaith mai polisi bwriadol oedd hwn eleni, yn unol â'r rhesymeg LPfN, i dargedu grwpiau a allai gael eu hystyried dan anfantais neu ddiffyg mynediad at fyd natur, gan nodi bod blwyddyn gyntaf y project wedi cynnwys nifer o gynghorau cymuned nad oedd o reidrwydd mewn rhannau trefol neu rannol-drefol o Gymru.

"Mae ymgyrch gyfathrebu dargedol wedi bod ar y mathau o anfantais, e.e. anabledd, iechyd meddwl, y digartref, cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig. Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau ymbarél. Rydyn ni wedi targedu sefydliadau a chynnal cyflwyniadau gyda nhw, wedi gosod sylfeini gyda nhw." (Cyfweiliad Rheolwyr)

- 5.14 Fodd bynnag, awgrymodd cyfweilai rheolwyr KWT hefyd fod angen sicrhau bod sefydliadau a grwpiau a addawodd gefnogaeth trwy lythyrau yn y broses ymgeisio yn gyfranogwyr gwirioneddol yn ystod y cyfnod hyfforddi a cynnal a chadw diweddarach. Mynegodd KWT awydd i dynhau'r broses hon yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod lefelau cymorth addawedig yn cael eu darparu gan sefydliadau.

Problemau Caffael

- 5.15 Nododd adroddiad gwerthuso blwyddyn un LPfN feirniadaeth o arferion caffael o fewn cangen KWT, er enghraifft, doedd y cyflenwyr ddim o Gymru, neu bod pecynnau yn cynnwys cynnyrch nad oedd yn gynhenid i'r ardal o Gymru lle'r oedd i

gael ei ddefnyddio. Roedd y cyfweiliadau rheolwyr yn trafod y potensial ar gyfer ffynonellau mwy lleol, ac fe gadarnhaodd bod ymchwiliad yn cael ei gynnal i hyn; Ond, fe wnaethant hefyd gyfeirio at yr angen i ddarparu nifer fawr o becynnau mewn cyfnod byr, a bod angen cadwyni cyflenwi cadarn a allai ddarparu digon o becynnau o fewn yr amser nodedig. Nodwyd dyhead y byddent, yn y dyfodol, yn gallu datblygu nifer o gyflenwyr lleol gan adlewyrchu gwahanol ranbarthau Cymru.

- 5.16 Mater arall a godwyd mewn cyfweiliadau rheolwyr oedd yr oedi yn y gadwyn gyflenwi a'r angen i weithio gyda grwpiau anghyfansoddiadol, gan arwain at waith gweinyddol ychwanegol wrth ddarparu prosiectau. Nododd rhai hefyd sut y gall yr angen i gyflawni prosiectau o fewn blwyddyn wneud addasu i oedi'n anodd, gyda'r cyfwelai'n egluro:

"Mae llawer o waith gweinyddol - mae elfen swyddfa'r prosiect yn 10 y cant, sy'n cynnwys archwilio a chaffael yn ogystal â cheisiadau prosesu. Mae 'na wahanol anghenion yma o'i gymharu â phrosiect grant mawr. Mae hynny'n cynnwys helpu grwpiau i wneud cais. Fel rhaglen gyfalaf, dim ond ar lawr gwlad rydyn ni'n cael ein talu, felly mae'n anodd os nad ydy pobl yn troi fyny, neu os oes oedi neu salwch. Mae'r materion ariannu hirdymor yn cyflwyno problemau eraill ynghylch yr angen i wario o fewn blwyddyn, sy'n gallu bod yn broblem os yw oedi oherwydd yr ymgeisydd." (Cyfweiliad Rheolwyr)

- 5.17 Mae hyn yn ei gwneud yn amlwg bod y gallu i barhau i gyflawni'r cynllun yn ddibynnol ar argaeledd yr adnoddau priodol.

Canfyddiadau'r arolwg gan grŵp cymunedol ac arweinwyr prosiect

- 5.18 Oherwydd rhwyddineb cymharol gosod, mae llawer mwy o becynnau KWT wedi'u cwblhau o'u cymharu â chynlluniau LPfN eraill. Yn gyffredinol, mae'n haws mesur cangen KWT o ran dosbarthu 'natur ar stepen eich drws' trwy'r data monitro a gesglir gan KWT.
- 5.19 Er y dylai gwerthuso yn y dyfodol hefyd ystyried gwir effaith bioamrywiaeth y pecynnau KWT, canolbwyntiodd gwerthusiad blwyddyn dau ar effaith cymryd rhan yn LPfN ar y grwpiau cymunedol.

- 5.20 Er mwyn cyflawni hyn, datblygwyd arolwg, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a KWT, ac a ddosbarthwyd gan KWT i arweinwyr grŵpiau cymunedol i'w cwblhau. Felly, mae'n bwysig pwysleisio bod ymatebion yn adlewyrchu'r rhai sy'n cynrychioli'r grŵpiau cymunedol dan sylw yn hytrach nag aelodau'r grŵpiau cymunedol eu hunain. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn gweithio'n agos gydag aelodau eu grŵp, felly mi fydd eu hymatebion roi rhyw syniad o'u barn.
- 5.21 Cafwyd 105 o ymatebion wedi'u cwblhau, er nad oedd yn rhaid i'r cyfranogwyr ymateb i bob cwestiwn i barhau i gwblhau'r holiadur. Oherwydd talgrynnu, ni fydd pob canran yn 100 y cant. Pan fo nifer yr ymatebion i gwestiwn yn llai na 100, mae'r niferoedd yn cael eu hadrodd ac nid yw canrannau'n cael eu hadrodd.
- 5.22 Oherwydd natur yr arolwg a'r cyfranogwyr hunan-ddethol, efallai y bydd gogwydd cyfranogiad yn y gwaith ymhlith y rhai sydd wedi dewis cwblhau'r arolwg, a dylid ystyried hyn wrth ddarllen yr holl ymatebion i'r arolwg hwn.

Ymatebion cyffredinol

- 5.23 O ystyried yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn eu cyfanrwydd, mae carfan gref o ymatebwyr sy'n credu'n glir y bu set hynod gadarnhaol o ganlyniadau fel rhan o'u hymgysylltiad â'r rhaglen. Yn yr un modd, mae nifer fach o ymatebwyr sydd wedi rhoi adborth negyddol cyson drwy'r arolwg, sy'n awgrymu nad yw pob ymgysylltiad â'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus ac wedi ei ystyried yn werth chweil.

Blwch crynhoi:

- Mae 95 y cant o'r ymatebwyr (100 allan o 105) yn credu bod eu prosiect wedi cyfrannu'n gadarnhaol at nod LPfN o 'natur ar stepen eich drws'.
- Dywedodd 83 allan o 97 o'r ymatebwyr fod cymryd rhan yn y prosiect wedi helpu eu llesiant corfforol, a dywedodd 81 allan o 97 o'r ymatebwyr ei fod wedi helpu eu lles meddyliol.
- Dywedodd 81 y cant o'r ymatebwyr (81 allan o 100) y byddent yn fwy tebygol o gefnogi gwariant ar brosiectau natur lleol ar ôl iddynt gymryd rhan yn y prosiect hwn, a dywedodd 70 allan o 97 o ymatebwyr y byddent yn fwy tebygol o gefnogi gwariant ar brosiectau natur cenedlaethol.

- Dywedodd 72 y cant o'r ymatebwyr (74 allan o 104) fod y pecyn wedi eu galluogi i gynnwys mwy o bobl difreintiedig neu sydd wedi'u tangynrychioli yn eu gardd.
- Dywedodd 62 y cant o'r ymatebwyr (65 allan o 105) y bydden nhw'n cynllunio mwy o waith natur yn dilyn eu prosiect. Fodd bynnag, dim ond nifer fechan o'r rhain ddywedodd y byddent yn gwneud hynny drwy LPN.

Blwyddyn ariannol

- 5.24 Er mwyn nodi lledaeniad ymatebwyr yr arolwg ar draws y blynyddoedd ariannu, gofynnwyd yn gyntaf i'r ymatebwyr, ym mha flwyddyn yr oeddent wedi derbyn cyllid LPfN trwy'r cynllun KWT. Roedd 98 ymateb yn nodi'r flwyddyn lle derbyniwyd cyllid ar gyfer y prosiect, gyda 51 allan o 98 o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi derbyn cyllid yn y flwyddyn 2020-21, blwyddyn gyntaf y prosiect, a 47 allan o 98 o ymatebwyr yn nodi eu bod wedi derbyn cyllid yn y flwyddyn 2021-22. Mae hyn yn datgelu rhaniad bras gyfartal o ymatebwyr o ddwy flynedd y rhaglen hyd yma. Dywedodd pedwar wnaeth ymateb, oedd wedi'u cynnwys o fewn y ffigyrau uchod, eu bod wedi cael cyllid yn llwyddiannus yn y ddwy flynedd.

Gwybodaeth ddemograffig am wirfoddolwyr

- 5.25 Yn gyffredinol, adroddwyd bod nifer y gwirfoddolwyr mewn prosiectau wedi cynyddu (38 y cant - 39 allan o 104) neu wedi aros yr un fath (53 y cant 55 allan o 104) ers dechrau'r prosiect. Nododd ymatebwyr yr arolwg gan amlaf oedran cyfartalog y gwirfoddolwyr oedd 45 – 60, fel yr adroddwyd gan 36 y cant o brosiectau (37 allan o 104). Roedd llai o ymatebwyr yn adrodd oedran cyfartalog o 60 75 yn yr arolwg gwerthuso presennol (18 y cant ym mlwyddyn dau o'i gymharu â 26 y cant yng ngwerthusiad blwyddyn un) a mwy yn adrodd oedran cyfartalog o 31-44 (18 y cant yng ngwerthusiad blwyddyn dau o'i gymharu â 10 y cant ym mlwyddyn un).

Math o becyn a dderbyniwyd

- 5.26 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa fath o becyn roedden nhw wedi'i dderbyn. Dywedodd 65% o'r ymatebwyr (68 allan o 104) eu bod wedi derbyn pecyn Cychwyn, tra bod y 35 y cant arall (36 o 104) wedi derbyn pecyn Datblygu. Dywedodd 13 o'r rhai a dderbyniodd becyn datblygu eu bod hefyd wedi derbyn pecyn cychwyn yn y gorffennol, sy'n awgrymu llinell ddatblygu yn gweithredu o

'ddechreuwr' hyd at 'ddatblygiad'. Mae'n debygol bod rhai o'r 13 ymatebydd hyn wedi derbyn eu pecyn cychwyn a datblygu o fewn yr un flwyddyn ariannol, o ystyried mai dim ond pedwar ymatebydd oedd wedi dweud eu bod wedi derbyn pecyn yn 2020- 21 a 2021-22.

Sut ddaeth y grwpiau i wybod am y rhaglen Lleoedd Lleoli i Natur


- 5.27 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi sut y daeth eu grŵp yn ymwybodol o'r rhaglen LPfN. Cawsant ystod o opsiynau penodol, ac adran 'arall', y gallent ei gwblhau.
- 5.28 Dywedodd y mwyafrif eu bod wedi clywed am y prosiect am y tro cyntaf drwy KWT. Dyma'r ateb a roddwyd gan 72 y cant o'r ymatebwyr (74 allan o 103), ac yna roedd 9 y cant (9 allan o 103) wedi clywed am y prosiect trwy OVW ac 8 y cant (8 allan o 103) gan ffrindiau/teulu/cydweithwyr. Dywedodd nifer llai o'r ymatebwyr eu bod wedi clywed am LPfN trwy'r cyfryngau cymdeithasol, Llywodraeth Cymru neu'r canghennau eraill (WCVA neu NLHF).
- 5.29 Roedd cyfran yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi clywed am y rhaglen LPfN trwy KWT yn fwy na chyfran yr ymatebwyr yng ngwerthusiad blwyddyn un– 34 y cant o'r ymatebwyr ym mlwyddyn un adroddodd eu bod yn clywed amdano trwy KWT. Gall hyn, yn rhannol, adlewyrchu'r ffaith bod KWT wedi ail-gysylltu ym mlwyddyn dau a'r rheini oedd wedi cwblhau pecyn ym mlwyddyn un, neu bod nifer o dderbynwyr blwyddyn un yn TCCs, a oedd o bosib yn cael gwybodaeth ychwanegol drwy sianeli eraill, yn hytrach na grwpiau cymunedol sy'n dibynnu ar waith allgymorth KWT. Yn gyffredinol, mae'r ymatebion hyn yn dangos pwysigrwydd ymdrechion hyrwyddo KWT ar gyfer y prosiect.

Profiad y prosiect

- 5.30 Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio pa mor hawdd neu heriol y daeth eu grŵp o hyd i bedair proses wahanol yn ymwneud â'r cynllun, gan ddefnyddio graddfa pum pwynt *Likert* lle mae 1 yn 'yr anoddaf neu'r mwyaf heriol', a 5 yw'r 'hawsaf a'r lleiaf heriol' – gweler Ffigwr 5.1.
- 5.31 Y pedair proses oedd:
- Y broses o gael gwybodaeth am y rhaglen/pecyn
 - y broses o wneud cais am y pecyn

- profiad y grŵp o reoli'r prosiect; a
- profiad y grŵp o gyflawni/cwblhau'r prosiect.

Ffigwr 5.1: Profiadau grŵp o Brosiect KWT



Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr KWT, 2022. N=100,103, 98, 97

5.32 Mae'r pedair eitem yma yn dangos ymateb cadarnhaol cryf gan y rhai sy'n cwblhau'r arolwg. Roedd yr ymatebion mwyaf cadarnhaol yn ymwneud ag eitemau ynghylch cael gwybod am y prosiect, lle rhoddodd 86 y cant (86 allan o 100) ymateb cadarnhaol, a'r broses o wneud cais am y pecyn, a oedd unwaith eto yn 86 y cant (86 allan o 103). Ychydig yn is ond yn dal yn gadarnhaol iawn oedd yr eitemau am brofiadau rheoli (75 allan o 98) a chwblhau'r prosiectau (72 allan o 97). Mae hyn yn awgrymu profiad cadarnhaol ar y cyfan o gyflwyno y prosiect, er y gallai ymatebion cadarnhaol hefyd adlewyrchu, i ryw raddau, y ffaith mae ymgeiswyr llwyddiannus i'r cynllun sy'n ateb y cwestiynau hyn.

Beth sydd wedi gweithio'n dda ar brosiect Lleoedd Lleol i Natur yr ymatebwyr (hyd yn hyn)

5.33 Rhoddwyd ymateb testun rhydd i'r ymatebwyr i esbonio'r hyn y credant oedd wedi gweithio'n dda ar eu prosiect LPfN (hyd yn hyn); Atebodd 85 y cant o'r ymatebwyr posib (89 allan o 105) i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebion ar y cyfan yn fyr, gan gwmpasu brawddeg neu ddwy, ac roeddent yn gyffredinol yn eang, ond yn

canolbwyntio'n aml ar gefnogaeth y gymuned a gwirfoddolwyr, perthynas gadarnhaol â staff cymorth KWT neu effaith yr ymyrraeth ar natur.

- 5.34 Mae'r dyfyniadau isod yn cynrychioli gwahanol agweddau y tynasant sylw atynt. Mae eu geiriau eu hunain yma yn rhoi esboniad ansoddol o fanteision y prosiect i grwpiau cymunedol bach yn eu bro.

"Mae hi wedi bod yn hyfryd gweld pobl ifanc yn cael mwynhau a chymryd rhan yn gwneud newidiadau i'w hamgylchedd. Mae gwneud prosiect bach fel y rhain yn golygu nad yw'n rhy anodd nac yn cymryd llawer o amser i bawb sy'n gysylltiedig ond yn fuddiol iawn ac mae'n gorffen gydag ymdeimlad hyfryd o gyflawniad."

"Mae wedi creu diddordeb ymysg y gymuned ac mae wedi harddu'r pentref. Diolch yn fawr. (Mae wedi creu diddordeb ymysg y gymuned ac wedi gwneud y pentref yn fwy deniadol. Diolch yn fawr.)"

"Er gwaethaf COVID, rhoddodd y pecynnau gyfle gwych i ni ddarparu gweithgaredd pwrpasol gyda grwpiau bach, a oedd yn helpu iechyd meddwl a lefelau cymhelliant."


"Mae llecyn gwyrdd ein pentref wedi cael ei drawsnewid. Mae bellach yn hygyrch ac yn atyniadol. Mae gennym wrych newydd, ein perllan ein hunain ac arddangosfa hyfryd o flodau gwyllt. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer mae ein pentref yn trefnu digwyddiadau cymunedol ac yn mwynhau'r lle sydd ar gael o'r stepen drws."

Materion a effeithiodd ar gyflawni'r prosiect

- 5.35 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi unrhyw faterion a effeithiodd ar eu gallu i gyflawni eu prosiect. Darparwyd rhestr o faterion posibl, yn seiliedig ar ganfyddiadau gwerthusiad blwyddyn un, a gwaith maes gyda rheolwr y cynllun, ochr yn ochr ag opsiwn 'arall' i ymdrin ag unrhyw faterion na soniwyd amdanynt o'r blaen.
- 5.36 Yn y cwestiwn hwn, cafodd yr ymatebwyr eu hannog i nodi unrhyw faterion a oedd wedi effeithio ar eu cyflawniad, felly rhoddodd rhai ymatebion lluosog. Roedd 145 ymateb i'r cwestiwn gan 105 o ymatebwyr, gyda 27 y cant o'r ymatebwyr (28 o 105) wedi dewis yr ymateb 'doedd gennym ni ddim problemau' wrth gyflawni eu prosiect – gweler Ffigur 5.2. Mae'r Ffigur isod yn adrodd y problemau hyn.

- 5.37 Dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr, 51 y cant (53 allan o 105), fod cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi effeithio ar eu gallu i gyflawni'r prosiect. Fodd bynnag, mae'n werth nodi, gan fod cyfyngiadau COVID-19 bellach wedi'u dileu, mae'n llai tebygol y bydd y cyfyngiadau hyn yn effeithio ar LPfN mewn blynyddoedd i ddod.
- 5.38 Dywedodd 21 y cant o'r ymatebwyr (21 allan o 105) fod ganddyn nhw broblemau'n ymwneud ag oedi yn y gadwyn gyflenwi. Efallai bod y rhain wedi'u hachosi'n rhannol gan bandemig COVID-19, ond gall y sefyllfa economaidd barhaus hefyd barhau i effeithio ar hyn. Gall oedi cyn derbyn cynhyrchion arwain at gyfnod dosbarthu hir ar gyfer LPfN oherwydd nad yw'r gweithredu'n rhedeg i amserlen, gan arwain at gostau ychwanegol, gan gynnwys amser staff.
- 5.39 Adroddwyd hefyd am faterion aelodaeth grŵp gan 15 y cant o'r ymatebwyr (16 allan o 105), tra codwyd pryderon mynediad i'r safle hefyd gan 9 y cant o'r ymatebwyr (9 allan o 105). Dylai'r materion hyn, o bosibl, gael eu hystyried yn fanylach mewn gwerthusiadau yn y dyfodol.

Ffigwr 5.2: Pa faterion, os o gwbl, effeithiodd ar eich gallu i gyflawni'r prosiect




Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr KWT, 2022. N=105, dewisiadau lluosog ar gael

Y graddau y cyfrannodd prosiectau tuag at 'natur ar eich stepen drws'

- 5.40 Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio i ba raddau yr oedd eu prosiect wedi cyfrannu tuag at natur ar garreg eu drws; er enghraifft, gofodau newydd, profiad a mwynhau byd natur yn lleol ar raddfa o 'Cytuno'n Gryf' i 'Anghytuno'n Gryf'.
- 5.41 Mae Ffigwr 5.3 yn dangos bod mwyafrif mawr o'r ymatebwyr yn gadarnhaol am eu hymdrechion eu hunain i wella natur yn lleol, gyda 67 y cant o'r ymatebwyr (70 allan o 104) yn rhoi 'Cytuno'n Gryf' gyda'r datganiad, a'r 28 y cant arall (29 allan o 104) hefyd yn cytuno â'r datganiad. Cytunodd cyfanswm o 99 o ymatebwyr o 104 (95 y cant) gyda'r datganiad i ryw raddau. Doedd yr un ymatebwr yn 'anghytuno'n gryf' â'r datganiad hwn.

5.42 Ni ddylai'r lefel uchel hon o gefnogaeth fod yn syndod o ystyried ymrwymiad y rhai sy'n gysylltiedig â'r rhaglen a gogwydd cwblhau'r arolwg. Yn wir, mae hyn yn arwydd cryf iawn bod y rhai sydd wedi ymgysylltu â'r rhaglen ac wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad yn cefnogi ei resymeg ac yn hyderus eu bod yn gwneud gwelliannau i 'natur ar stepen eich drws' drwy eu cyfraniadau.

Ffigwr 5.3: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y prosiect wedi helpu i greu 'natur ar eich stepen drws'?



Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr KWT, 2022. N=105


Effaith ar yr unigolyn

5.43 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ymateb i gyfres o ddeg datganiad am effaith eu cyfranogiad arnynt yn bersonol. Fel o'r blaen, gofynnwyd iddynt gytuno neu anghytuno â'r datganiadau ar raddfa 5 pwynt *Likert* 5 lle mae 1= 'anghytuno'n gryf' a 5 = 'cytuno'n gryf'. Dyma'r datganiadau:

- Mae bod yn rhan o'r prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar fy iechyd corfforol
- Mae cymryd rhan wedi cael effaith gadarnhaol ar fy iechyd meddwl a lles
- Dw i wedi cwrdd â phobl/ffrindiau newydd
- Rwy'n teimlo'n llai ynysig/unig
- Mae cymryd rhan wedi fy helpu yn ystod pandemig COVID-19

- Rwyf wedi dysgu sgiliau newydd
- Rwy'n gwerthfawrogi natur fwy na chyn i mi cymeryd rhan yn y prosiect
- Rwy'n fwy gwybodys am fyd natur nag yr oeddwn ni cyn i mi ddod yn rhan o'r prosiect
- Erbyn hyn rwy'n fwy tebygol o gefnogi prosiectau natur eraill yn lleol
- Rwyf bellach yn fwy tebygol o gefnogi prosiectau cenedlaethol am fyd natur


Ffigwr 5.4: Effeithiau wedi'u cofnodi o gymryd rhan ar les corfforol a meddyliol



Ffynhonnell: Arolwg o gyfranogwyr KWT, 2022. N=97

- 5.44 Mae'r ymatebion i bob un o'r datganiadau hyn yn gyffredinol gadarnhaol gan yr ymatebwyr. Mae Ffigwr 5.4 uchod yn amlygu datganiadau sy'n ymwneud â gwelliannau mewn lles meddyliol a chorfforol o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun. Dywedodd tua phedair rhan o bump o'r ymatebwyr bod eu iechyd/lles corfforol a/neu feddylion a/neu feddyliol wedi gwella ers cymryd rhan yn y prosiect – gan sgorio'r datganiad yn 5 neu 4, naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno, gan ddangos perthynas gadarnhaol canfyddedig rhwng cymryd rhan a gwella llesiant corfforol a meddyliol.
- 5.45 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd raddio pedwar datganiad sy'n ymwneud â'u hunan-ffeithiolrwydd, a ddangosir yn Ffigwr 5.5, isod. Roedd y rhain yn cynnwys datganiadau'n ymwneud â gwneud ffrindiau newydd, teimlo'n llai ynysig neu'n unig, effaith pandemig COVID-19 a dysgu sgiliau newydd.

Ffigwr 5.5: Adroddiaded effaith ar hunan-ffeithiolrwydd unigolion




Ffynhonnell: Arolwg o gyfranogwyr KWT, 2022. N=98, 97, 94, 92

- 5.46 Dywedodd tua dwy ran o dair (69 allan o 98) o'r ymatebwyr eu bod wedi cwrdd â phobl/ffrindiau newydd a dywedodd 74 allan o 97 eu bod wedi dysgu sgiliau newydd. Dywedodd niferoedd llai, (43 allan o 94) eu bod yn llai ynysig neu'n unig o ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect, tra bod (58 allan o 92) wedi dweud bod cyfranogiad wedi eu helpu i ddelio â phandemig COVID-19. Mae'r cwestiynau olaf hyn yn dangos bod cymryd rhan wedi eu cynorthwyo i ddelio â rhai o'r materion sy'n ymwneud â phandemig COVID-19; Ond, bydd asesiad o os yw rhywun yn llai ynysig neu unig yn dibynnu ar waelodlin o ba mor unig neu ynysig y gallen nhw fod wedi teimlo o'r blaen, neu i ba raddau yr oedd angen help arnynt wrth ddelio â'r pandemig.
- 5.47 Roedd gweddill y datganiadau yn canolbwyntio ar sut mae ymatebwyr yn gwerthfawrogi ac yn ymateb i fyd natur. Canfu'r ymateb i'r datganiad cyntaf ynghylch a oedd yr ymatebwyr yn fwy gwybodus am natur na chyn cyfranogiad y prosiect, bod 75 y cant yn cytuno â hyn (75 allan o 101), sy'n awgrymu bod cyfranogiad yn gwella gwybodaeth am fyd natur. Fodd bynnag, roedd y datganiad

ynglŷn ag a yw unigolion yn gwerthfawrogi natur yn fwy nawr nag o'r blaen yn fwy cymysg na'r disgwyl, gyda 59 allan o 98 yn sgôrio y datganiad yn 5 neu 4 - gweler Ffigur 5.6, isod. Gallai hyn awgrymu nad oedd y prosiect bob amser yn arwain at fwy o werthfawrogiad o natur nag o'r blaen neu efallai bod llawer o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod eisoes yn gwerthfawrogi natur i raddau helaeth, a bod hyn wedi eu harwain i gymryd rhan yn y prosiect, ac felly nid yw eu cyfranogiad wedi newid eu barn.

- 5.48 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am eu parodrwydd i gefnogi prosiectau natur yn lleol ac yn genedlaethol ar ôl iddynt gymryd rhan. Dywedodd cyfanswm o 81 y cant (81 allan o 100 o ymatebwyr) y bydden nhw'n fwy parod i gefnogi prosiectau natur yn lleol a byddai 70 allan o 97 o ymatebwyr yn fwy parod i gefnogi prosiectau yn genedlaethol. Yn unol â nodau LPfN, mae hyn yn awgrymu y byddai'r ymatebwyr yn fwy cefnogol o'r ddau weithgaredd i gefnogi natur leol a chenedlaethol, o fod wedi cymryd rhan yn y prosiect hwn. Mae hyn hyd yn oed wrth gydnabod y gallai fod lefel uchel bresennol o gefnogaeth ymhlith y grŵp hwn cyn cyflawni'r prosiect. Er bod lefelau cytuno yn uchel ar gyfer y ddau ddatganiad, gall y gyfran uwch o gefnogaeth ar gyfer prosiectau natur lleol o'i gymharu â chenedlaethol adlewyrchu y gallai prosiectau lleol gael eu gweld o fudd mwy uniongyrchol i'r ymatebwr.

Ffigwr 5.6. Effaith adroddol ar gefnogaeth unigolion i fyd natur



Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr KWT, 2022. N=101, 98, 100, 97


Effaith ar y grŵp

- 5.49 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd wneud sylw ar saith datganiad pellach, eto ar raddfa 5 pwynt *Likert*, yn glun â'r effaith ar eu grŵp a'u cymuned. Yn yr achlysur hwn, cafodd y graddfeydd eu gwrthdroi, gydag 1 yn cynrychioli ateb positif (cytuno'n gryf) a 5 yn cynrychioli ochr negyddol y continwwm (anghytuno'n gryf). Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyfranogwyr wedi ymgysylltu â'r datganiadau ac nid dim ond ticio'r blwch tybiedig er mwyn cwblhau'r arolwg yn gyflymach.
- 5.50 At ddibenion cymharu ag eitemau eraill yn yr arolwg hwn, mae'r ymatebion hyn wedi'u hail-godio i'r un raddfa 5 pwynt *Likert* ag o'r blaen; felly, 1 = cytuno'n gryf a 5 = anghytuno'n gryf.
- 5.51 Dyma'r datganiadau:
 - Mae'r prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar y grŵp
 - Dwi'n teimlo bod y gymuned yn gryfach o ganlyniad i'r prosiect

- Mae'r ardd newydd wedi arwain at fuddion cymunedol, ehangach eraill (e.e. gymdeithasol, economaidd, lles, diwylliannol, iechyd)
- Mae gan y gymuned fwy o fynediad at natur yn lleol, yn dilyn y prosiect hwn
- Mae'r pecyn wedi'n galluogi i gynnwys mwy o bobl difreintiedig/heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gardd
- Bydd y grŵp yn parhau i weithio ar brosiectau natur ar ôl i'r prosiect hwn ddod i ben
- Hoffai'r grŵp wneud cais am ragor o gymorth/cefnogaeth i barhau â'u gwaith ar brosiectau natur lleol.

5.52 Er bod yr ymatebion hyn yn cynnwys y cafeat law barn oddrychol y rhai sy'n cwblhau'r arolwg yw hwn, mae'r canlyniadau'n awgrymu budd mawr i'r grŵp sydd yn cymryd rhan yn y prosiect, ym marn arweinwyr grŵpiau cymunedol ac arweinwyr prosiect. Yn y dyfodol, dylid canfod dull o ddeall barn aelodau'r gymuned, lle bo hynny'n bosibl. Er enghraifft, fe allai y cam cyntaf gynnwys amser i reolwyr y grŵp cymunedol ledaenu unrhyw arolygon i'w grŵpiau cyfan.

Ffigwr 5.7: Effaith gymunedol canfyddedig




Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr KWT, 2022. N=105, 104, 105

5.53 Fel y dangosir yn Ffigwr 5.7 uchod, roedd 90 y cant o'r ymatebwyr (94 allan o 105) yn cytuno neu cytuno'n gryf fod 'y prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar y grŵp'. Cytunodd 76 y cant o'r ymatebwyr (79 allan o 104) gyda'r datganiad 'Rwy'n teimlo

bod y gymuned yn gryfach o ganlyniad i'r prosiect', ac roedd 82 y cant (86 allan o 104) yn cytuno bod yr ardd newydd wedi arwain at fuddion cymunedol eraill, ehangach (e.e. cymdeithasol, economaidd, lles, diwylliannol, iechyd).

5.54 Mae'r Ffigwr 5.8, isod, yn dangos canlyniadau datganiadau ar fwy o fynediad at natur o ganlyniad i'r prosiect, a chynwysoldeb cynyddol ar gyfer pobl ddifreintiedig a heb gynrychiolaeth ddigonol. Cytunodd 35% o'r ymatebwyr yn gryf a chytunodd 37 y cant (cyfanswm o 72 y cant neu 74 allan o 104) gyda'r datganiad 'mae'r pecyn wedi'n galluogi i gynnwys mwy o bobl difreintiedig/heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gardd'.²³ Ar y cyfan, mae hyn yn rhoi arwydd cadarnhaol bod yr arweinwyr cymunedol a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo eu bod wedi ymgysylltu â grwpiau difreintiedig neu sydd wedi'u tangynrychioli. Hyd yn hyn, mae'n ofynnol i geisiadau prosiect ymgysylltu â grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, ond eto ni fu mecanwaith ffurfiol i benderfynu ar lwyddiant hyn. Dylai ymchwil yn y dyfodol ystyried sut i ymgysylltu â chyfranogwyr o grwpiau difreintiedig sydd wedi bod yn rhan o brosiectau neu ymgysylltu â phrosiectau i ddeall eu profiadau o LPfN yn well. Yn y cyfamser, roedd mwyafrif sylweddol, 81 y cant (85 allan o 104) naill ai'n cytuno'n gryf (35 y cant) neu'n cytuno (46 y cant) gyda'r datganiad 'mae gan y gymuned fwy o fynediad at natur yn lleol, yn dilyn y prosiect hwn'. Mae'r ddau ganfyddiad hyn yn cyd-fynd â nodau LPfN.

Ffigwr 5.8: Mynediad canfyddedig a chynwysoldeb y prosiect




Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr KWT, 2022. N=104, 105

²³ Sylwer fod y graff yn dangos cytundeb cryf 35 y cant a 37 y cant (yn gyfartal 72 y cant) oherwydd talgrynnu.

5.55 Fel y dangosir isod yn Ffigur 5.9, 'Ymgysylltu â natur', roedd 86 y cant o'r ymatebwyr (90 allan o 105) yn cytuno neu yn cytuno yn gryf y byddai eu grŵp yn parhau i weithio ar brosiectau natur ar ôl i'r prosiect presennol ddod i ben, tra bod 81 y cant (85 allan o 105) yn cytuno neu cytuno yn gryf y byddai eu grŵp yn awyddus i wneud cais am gyllid/cymorth pellach i barhau â'u gwaith ar brosiectau natur lleol. Mae'r ymatebwyr yn bennaf yn credu bod y prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar eu grŵp a byddent yn parhau i wneud gwaith tebyg. Er hynny, nid yw'n glir a yw hyn oherwydd eu profiad o ddarparu'r pecyn KWT hwn trwy LPfN neu a fydden nhw wedi parhau o fewn eu grŵpiau i wneud y gwaith hwn beth bynnag.

Ffigur 5.9: Ymgysylltiad y grŵp â natur




Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr KWT, 2022. N=105, 105.

Cynnal a chadw'r safle

5.56 Gan ddefnyddio graddfa 5 pwynt *Likert* 5, gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio eu hyder o ran gallu cynnal a chadw y safle yr oedden nhw wedi cymryd cyfrifoldeb amdano, gyda 1 = 'ddim yn bosib o gwbl', a 5 = 'hyderus wrth gynnal a chadw y lle'. O fewn eu ceisiadau am becyn, mae angen i grwpiau gytuno i gynnal a chadw y safle am gyfnod ar ôl cwblhau'r pecyn. Pwrpas y cwestiwn hwn oedd gweld os oedd modd cadw'r lefelau hyder hyn fel bod modd cyflawni'r gwaith. Roedd cyfanswm o 91 y cant o'r ymatebwyr yn hyderus y gallant gynnal y safle (sgorio'r datganiad 4 neu 5), gyda dim ond nifer fach o ymatebion yn anghytuno. Mae hyn yn dangos lefel uchel barhaus o hyder yn cael ei adrodd gan yr ymatebwyr. Wrth i'r prosiect symud i'r

dyfodol , bydd angen monitro a dangos y gwaith o gynnal a chadw'r safle gan grwpiau.

Ffigwr 5.10: Pa mor hyderus ydych chi y byddwch chi'n gallu cynnal a chadw eich gofod natur yn y dyfodol?



Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr KWT, 2022. N=103

- 5.57 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr egluro sut maent yn bwriadu cynnal a chadw y safle ac os ydyn nhw'n rhagweld unrhyw heriau. Yr esboniad mwyaf cyffredin oedd eu bod yn rhagweld y bydd eu grŵp o wirfoddolwyr yn parhau i gymryd cyfrifoldeb am waith cynnal a chadw.
- 5.58 Er bod y rhan fwyaf o sylwadau'n gadarnhaol yn eu rhagolygon, roedd nifer o bryderon wedi eu crybwyll, sy'n egluro i rhyw raddau pam y gallai grwpiau deimlo'n llai hyderus o'u gallu gynnal a chadw eu safle er iddyn nhw gytuno i wneud hynny wrth dderbyn y pecyn. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf ag argaeledd gwirfoddolwyr parhaus, er enghraifft, oherwydd henaint.
- "Yn ddibynnol ar wirfoddolwyr sydd i gyd yn dod ymlaen dipyn, i fod yn onest."
(Ymatebydd arolwg KWT)
- 5.59 I'r gwrthwyneb, dywedodd rhai y bydd eu priosect yn cael ei gynnal mewn rhyw ffordd neu'i gilydd gan naill ai'r LA neu'r TCC.

"Bydd gwaith cynnal a chadw yn cael ei gynnwys yn rhaglen cynnal a chadw cyngor y ddinas. Rydym yn gadael y glaswellt o'i gwmpas heb ei dorri i flodau gwyllt dyfu. Bydd y toriad blynyddol a'r casglu yn cael ei gynnwys yng nghynnal y cyngor." (Ymatebydd arolwg KWT)

- 5.60 Roedd un sylw yn ymwneud â'r heriau o gynnal y tir ac effaith negyddol hyn ar y grŵp. Nid yw'n glir i ba raddau y mae cefnogaeth ychwanegol ar gael i grwpiau sicrhau bod modd datrys y sefyllfa hon. Eglurodd:

"Fe ddaethon ni ar draws sefyllfa lle'r oedden ni'n delio a chwyn parhaus *horsetail*. Cafwyd anghytuno o fewn ein grŵp ynghylch a ddylid ei drin yn gemegol ai peidio. Yn y diwedd, ni chafodd ei drin ac mae pawb wedi digalonni ac rydym yn ei chael yn anodd gwneud cynllun newydd i reoli'r lle. Mae'n ymddangos nad yw ein gwaith wedi dod i fawr ddim wrth i'r chwyn ledu." (Ymatebydd arolwg KWT)

Prosiectau natur yn y dyfodol

- 5.61 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd eu grŵp/sefydliad/cymuned yn cynllunio unrhyw waith yn y dyfodol, yn dilyn y prosiect LPfN hwn. Dywedodd 62% o'r ymatebwyr (64 allan o 104) eu bod yn cynllunio gwaith yn y dyfodol, gyda dim ond 8 y cant (8 allan o 104) yn dweud nad oedden nhw'n cynllunio unrhyw beth ar gyfer y dyfodol. Dywedodd 30% o'r ymatebwyr (32 allan o 104) nad oedden nhw'n gwybod. Mae hwn yn nifer ddealladwy o fawr gan ei fod yn gofyn cwestiwn o fwriad yn y dyfodol nad ydynt efallai wedi ystyried o'r blaen. Mae hefyd yn cynrychioli nifer sylweddol o'r ymatebwyr nad ydynt eto wedi penderfynu am unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol ond a allai fod yn agored i drafodaeth am y camau nesaf ar gyfer eu grŵp/sefydliad/cymuned. Mae hefyd yn bosib mai dim ond newydd gwblhau eu gardd yr oedd llawer o grwpiau adeg yr arolwg yng Ngwanwyn 2022 ac nad oedden nhw eto'n ystyried 'camau nesaf'.
- 5.62 Fodd bynnag, er gwaethaf elwa yn uniongyrchol o brosiect LPfN, nid yw'r grwpiau'n awtomatig yn ystyried LPfN fel rhan o'u gwaith parhaus. O'r 64 wnaeth ymateb gan ddweud eu bod yn bwriadu gwneud gwaith pellach gyda'u grwpiau, dim ond chwech o'r 64 a ddywedodd y byddai hyn drwy LPfN. Dywedodd 39 o'r 64 o'r ymatebwyr a oedd yn cynllunio gwaith yn y dyfodol na fyddai hyn yn digwydd trwy LPfN, tra nad

oedd 19 o ymatebwyr yn siŵr. Gall hyn fod oherwydd nad yw'r ymatebwyr yn ymwybodol o unrhyw gyllid arall sydd ar gael iddynt trwy LPfN, naill ai'r opswn i symud ymlaen i becyn datblygu KWT neu i wneud cais trwy'r NLHF. Ers i lawer o'r ymatebwyr glywed am LPfN a'u cyllid prosiect cyfredol trwy KWT, mae'n bosibl nad yw'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r canghennau eraill o gyllid LPfN sydd ar gael, ond nid yw hyn wedi'i brofi yn yr arolwg hwn.

Crynodeb

- 5.63 Mae'r bennod hon wedi canolbwyntio ar gynnydd pecynnau Cynllun Cychwyn a Datblygu KWT ar gyfer grwpiau cymunedol ar draws Cymru. Yn 2021-22, dosbarthodd y cynllun hwn gyfanswm o 279 pecyn, gan ganolbwyntio ar gyrraedd grwpiau cymunedol difreintiedig. Mae monitro'r data gan KWT yn dangos bod bron i 90 y cant o'r ceisiadau llwyddiannus mewn lleoliadau trefol neu rhannol-drefol, gyda llawer o'r ceisiadau hynny'n cynnig cynnwys grwpiau difreintiedig, yn unol â'r meini prawf ar gyfer LPfN. Dangosodd arolygon gyda cyfranogwyr y cynllun gefnogaeth gref i nodau LPfN, gyda'r ymatebwyr yn credu eu bod wedi cyfrannu at 'natur ar stepen eich drws', adroddwyd am welliannau mewn lles corfforol a meddyliol, a bod ymatebwyr i'r arolwg yn fwy parod i gefnogi gwariant lleol a chenedlaethol ar brosiectau natur ar ôl iddynt gymryd rhan mewn prosiectau LPfN. Dywedodd nifer o arweinwyr y grŵp cymunedol y bydden nhw'n cynllunio rhagor o waith natur yn dilyn eu prosiect.
- 5.64 Fodd bynnag, dim ond nifer fach o'r ymatebwyr hyn a ddywedodd y byddent yn gwneud hynny drwy LPfN, gan awgrymu bod cyfle i'r rhaglen ymgysylltu'n well â grwpiau ynglun â chyfleoedd pellach i gael cyllid trwy becynnau KWT a chynlluniau LPfN- eraill a ariennir. Ymhlith y cyfyngiadau i'r canfyddiadau hyn mae'r ffaith bod yn ymatebwyr yn hunan-ddetholedig a gofynnwyd i arweinwyr grŵpiau cymunedol roi atebion ar ran aelodau eu grŵp ar effaith eu prosiectau.. Efallai y bydd ymchwil yn y dyfodol ar y gangen hwn yn dymuno ystyried y ffordd orau o ymgysylltu ag aelodau'r grŵp ar wahân i arweinydd y prosiect, a sut i ymgysylltu ag aelodau grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Gallai hyn gynnwys grwpiau ffocws ac ymweliadau â'r safle i gwrdd ag aelodau, rhywbeth nad oedd yn cael ei ystyried yn bosibl ar ddechrau'r gwerthusiad hwn oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Byddai hyn

yn caniatáu data ansoddol gyfoethocach ynghylch ymgysylltu â'r cynlluniau. Gan weithio gyda grwpiau a KWT, byddai'n ddefnyddiol ystyried dulliau arloesol o gael mynediad at y cyhoedd ehangach sy'n byw a gweithio ger y prosiectau hyn i ddeall yn well os yw LPfN yn effeithio ar eu dealltwriaeth o fyd natur, ac os yw, sut mae'n gwneud hynny.

6. Canfyddiadau - Cangen Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Cyflwyniad

- 6.1 Fel yr eglurwyd yn flaenorol, mae cynllun NLHF yn LPfN yn cynnwys rheoli proses gymeradwyo grant ar gyfer prosiectau sydd â gwerth rhwng £10,000 a £250,000. Rhoddir ceisiadau gerbron panel lle penderfynir a ddylid dyfarnu grant ai peidio, yn ddibynnol ar y cais yn bodloni'r meini prawf ar gyfer LPfN. Darperir 85 y cant o'r cyllid ar gyfer y cynllun LPfN hwn trwy Lywodraeth Cymru, gyda'r 15 y cant arall yn dod o NLHF.
- 6.2 Mae rheolwr cynllun, sydd wedi'i leoli yn NLHF, ac yn 2021-22, swyddog penodol wedi'i ymgorffori o fewn OVW, corff Cymru ar gyfer TCCs. Mae'r aelod hwn o staff yn ymgysylltu â 731 TCCs Cymru ynghylch cynlluniau LPfN, gan nodi'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt trwy gynllun NLHF yn benodol.

Cynnydd y prosiectau

- 6.3 Yn ystod 2020-21, roedd 28 cais NLHF llwyddiannus a 13 cais llwyddiannus yn 2021-22. Mae rhestr o'r rhain i'w gweld yn Atodiad 2. Yn ystod ail flwyddyn gweithrediad y grant roedd llai o geisiadau nag yn y flwyddyn agoriadol.
- 6.4 Mae'r wybodaeth ar gael yn dangos bod y rhan fwyaf o brosiectau a gytunwyd yn ystod blwyddyn gyntaf proses ymgeisio grant NLHF wedi'u cwblhau erbyn diwedd yr ail flwyddyn, neu am gael eu cwblhau yn fuan wedyn. Yn ddealladwy, nid oedd prosiectau a gymeradwywyd yn fwy diweddar, y rhai oedd yn llwyddiannus o flaen y panel yn ystod 2021-22, wedi'u cwblhau erbyn i'r gwaith maes gael ei wneud.

Cyfweliadau Rheolwyr

- 6.5 Mewn cyfweliadau rheolwyr, nodwyd bod y mwyafrif o grantiau a ddaeth o flaen panel NLHF wedi'u cymeradwyo. Fe wnaethon nhw dynnu sylw at ymgysylltu cadarnhaol gyda darpar ymgeiswyr fel modd o sicrhau ansawdd y cais terfynol. Ar y llaw arall, nodwyd hefyd nad oedd rhai ymgeiswyr wedi ymgysylltu â'r broses cyn ei chyflwyno, a'r teimlad oedd y byddai gorfodi ymgysylltiad cyn ymgeisio yn gwella ansawdd y cais ac yn golygu llai o wastraffu amser i dîm NLHF ac i'r ymgeisydd. Esboniodd un o'r tîm rheoli a gafodd ei gyfnewid fanteision y dull hwn:

"Mae cael yr adnodd i ymgysylltu ag ymgeiswyr yn golygu bod ceisiadau o safon i dderbyn y cyllid. Ychydig iawn sydd ddim, o'r rhai sy'n ymgysylltu â ni. Pe bai'n rhaid i ymgeiswyr ymgysylltu â ni, byddai modd eu hariannu i gyd ond ar hyn o bryd nid yw hynny'n orfodol... Weithiau does dim yr holl waith papur wedi'i gwblhau - mae pobl yn methu â thynnu cysylltiadau rhwng eu gweithgaredd a meini prawf y grant." (Cyfweiliad rheoli)

- 6.6 Mewn cyfweiliadau rheolwyr, fe wnaethon nhw hefyd ailadrodd pryderon a amlygwyd yng ngwerthusiad blwyddyn un bod diffyg adfer costau llawn yn *off-putting* i sefydliadau'r trydydd sector am nad oes cefnogaeth refeniw ar gyfer prosiectau. Mae hyn yn golygu bod sefydliadau'n gorfod talu am amser staff sy'n gweithio ar brosiectau neu yn gorfod dibynnu ar wirfoddolwyr, a'r teimlad yw bod hyn yn rwystr iddyn nhw wneud ceisiadau am brosiectau. Eglurwyd:

"Y gwendid yw'r diffyg arian refeniw gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu nad yw sefydliadau trydydd sector mawr yn cymryd rhan oherwydd nad oes adferiad cost llawn ar eu cyfer." (Cyfweiliad Rheolwr)

- 6.7 Gohirwyd rhai prosiectau oherwydd COVID-19 a materion eraill, ond roedd tua hanner y prosiectau a gytunwyd arnynt yn 2020-221 (15 allan o 28) wedi cyrraedd y pwynt cwblhau erbyn mis Chwefror 2022. Lle bo'n briodol, mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad fel astudiaethau achos.
- 6.8 Bu llai o geisiadau yn rhan gyntaf blwyddyn 2021- 22 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; fodd bynnag, cytunwyd ar sawl cynllun mwy, gan gynnwys dau a noddir gan KWT, yn chwarter olaf blwyddyn ariannol 2021- 22.
- 6.9 NLHF oedd hefyd yn gyfrifol am reoli'r cais am y Gronfa Torri Rhwystrau. Cynhaliwyd y broses ymgeisio hon ddiwedd yr Hydref a'r Gaeaf 2021 ac, oherwydd ei fod yn rhywbeth a oedd newydd ei gyflwyno, nid yw'n cael ei ystyried yn ehangach o fewn y gwerthusiad hwn. Serch hynny, cafwyd sylwadau ar y broses:

"Mae adroddiad cynnydd yn dod ym mis Mehefin [2022]. Gobeithio bydd hynny'n dylanwadu ar rownd dau, gan ddangos beth sy'n dechrau cael ei ddysgu. Roedd £290k ar draws pum grant. Roedd 12 cais, ac roedd 6 ohonynt yn rhai ymarferol. Roedd hi'n dipyn o waith eleni. Roedd amserlen fer. Roedd pobl yn gallu gwneud

ymholiadau ond doedd dim rhaid iddyn nhw wneud hynny. Byddai'n well pe baen nhw'n gwneud hynny. Fe fethodd un cais y pwynt ond roedd yn rhaid i ni fynd drwy'r holl broses beth bynnag. Fe fyddem ni wrth ein bodd yn ei redeg mewn ffordd debyg ond gydag amserlen hirach. Roedd hi'n anodd cael pobl i ddeall. Fyddai'n braf cael llai o ruthro i gael ymatebion allan. Fel arfer rydyn ni'n dweud wyth wythnos [ar gyfer proses ymgeisio], ond y tro hwn roedd yr amser yn llai." (Cyfweliad Rheolwr)

- 6.10 Mae'r awgrym yn cael ei wneud yma unwaith eto y dylai fod yn ofynnol i ymgeiswyr ymgysylltu â staff cymorth grant cyn gwneud eu cais gan y byddai hynny'n osgoi camddealltwriaeth a gwallau sylfaenol yn y broses ymgeisio.
- 6.11 A gwnaed sylw tebyg, yn enwedig ynghylch cyflwyno'r gwaith papur cywir, gan KWT ac mae'n cael ei ddatrys ar hyn o bryd trwy borth gwe newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gadarnhau eu bod wedi cyflwyno gwaith papur cyn parhau â'u cais. Efallai y gall dull tebyg weithio i NLHF drwy ofyn am sesiwn gymorth grfodol i ymgeiswyr grant.
- 6.12 Nododd y Cyfweliadau gyda'r rheolwyr sut maent yn gweithio i hyrwyddo ymgysylltu TCC ag LPfN, a gyda chynllun NLHF yn benodol. Eglurwyd:

"Rydym yn targedu TCCs yn uniongyrchol sy'n cyd-fynd â'r meini prawf ynghylch amddifadedd trefol. Dadansoddais y data ynghylch amddifadedd yn fanylach a nodi pa feysydd fyddai'n gymwys i gael cyllid. Os nad oedd hyn yn rhan o LPfN yna efallai na fyddai TCCs yn meddwl amdano." (Cyfweliad Rheolwyr)

- 6.13 Gan wneudceisiadau am arian gan yr NLHF, ystyrir bod gan TCCs fantais gan eu bod eisoes wedi'u cyfansoddi'n ffurfiol a bod ganddynt fwy o brofiad rheoli prosiectau yn ogystal â rhywfaint o fynediad i'w cyllid eu hunain trwy'r *precept*. Nodwyd hyn hefyd yng ngwerthusiad blwyddyn un. Fodd bynnag, cyfeiriodd cyfweliadau rheolwyr hefyd at faterion parhaus ynghylch COVID-19 a'r gadwyn gyflenwi, fel yr amlygwyd yn flaenorol ar draws LPfN:

"Mae rhai cynghorau wedi bod yn cwrdd yn rhithiol am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae wedi bod yn anodd cael amcanbrisiau gan gyflenwyr oherwydd eu bod yn

brysur. Mae'r rhain wedi arafu pethau ac wedi oedi rhywfaint o gynnydd. Rydym hefyd yn dal i weld llai o wirfoddolwyr sydd yn cyfranu.. Yna mae'r amser y mae hi yn ei gymryd i wneud penderfyniadau, chaffael a gorfod cwblhau'r gwaith. Gobeithio y bydd hyn i gyd yn mynd yn gyflymach yn y flwyddyn [ariannol] newydd." (Cyfweiliad Rheolwyr)

- 6.14 One o'r anfanteision i'r TCCs yw eu bod, i raddau helaeth, i'w gweld yn ardaloedd gwledig a chymharol gefnog Cymru. Esboniodd cyfweiliadau rheolwyr bod y ffocws yn bennaf ar gefnogi'r TCCs hynny a oedd yn gymwys ar gyfer cyllid grant NLHF oherwydd eu statws fel trefol, rhannol-drefol neu ardal o amddifadedd ehangach. Cefnogwyd y TCCs hynny nad oedd yn bodloni'r meini prawf gyda phrosiectau tyfu bwyd cymunedol LPfN, a oedd ar gael i bob ardal, waeth beth oedd eu statws WIMD.
- 6.15 O fewn cangen NLHF, mae rheolwyr a staff cymorth, sydd wedi'u lleoli mewn sefydliadau eraill, yn creu darlun tebyg o gynnydd o fewn y cynlluniau ond yn nodi bod yr heriau parhaus yn ganlyniad i ffactorau allanol COVID-19 a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi. Maen nhw'n fodlon yn fras gyda chynnydd y rhaglen, ond maent wedi nodi gwelliannau o fewn eu cynlluniau sy'n gysylltiedig â'r broses ymgeisio a darparu prosiectau. Mae nifer o'r pwyntiau a nodwyd wedi'u cynnwys o fewn ein hargymhellion ar ddiwedd y gwerthusiad hwn.

Cyfweiliadau gyda chydlynwyr prosiect

- 6.16 Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, yn wreiddiol y bwriad oedd ymgysylltu â chymaint o gyfranogwyr NLHF â phosibl trwy arolwg o ymgeiswyr llwyddiannus NLHF yn 2020-21 a 2021-22. Fodd bynnag, oherwydd y gyfradd ymateb isel ymhlith derbynwyr grant NLHF (pum ymateb), ni ellid dadansoddi ymatebion yr arolwg. Serch hynny, gellir cael mewnwelediadau dangosol i gyflwyniad ac effaith prosiect NLHF o gyfweiliadau gyda chydlynwyr prosiect ar eu prosiectau. Gan fod y cyfweiliadau hyn wedi bwriadu llywio astudiaethau achos, dim ond prosiectau oedd wedi cwblhau oedd yn cael eu hystyried. Gofynnwyd am gyngor pellach ar ba brosiectau i ystyried gan aelod o'r tîm rheoli yn NLHF.
- 6.17 Cafeat hyn yw mai dim ond prosiectau yn 2020-21 sydd wedi cael ymgysylltiad trwy gyfweiliad i lywio astudiaethau achos oherwydd un prosiect yn unig yn 2021-22 oedd

wedi ei gwblhau erbyn amser gwneud y gwaith maes. Cysylltwyd ag wyth prosiect ar gyfer cyfweliad, ac fe ymatebodd chwech ohonynt.

- 6.18 Dangosodd cyfweliadau gyda cydlynwyr prosiect (chwech) a oedd wedi ymgysylltu â grantiau NLHF gyfres o themâu cyffredin, yn ymwneud â'r nodau ar gyfer y gymuned a'r amgylchedd lleol, ac yn cyd-fynd â nodau LPfN o 'natur ar stepen eich drws'. Roedd y cydlynwyr a gafodd eu cyfweld yn canolbwyntio ar sut y gallai gwirfoddolwyr o'r gymuned gydweithio i ddatblygu gwelliant cynaliadwy yn lleol o fannau gwyrdd a mwy o fioamrywiaeth. Roedd eu prosiectau wedi'u lleoli i raddau helaeth o fewn manau trefol yng nghanol eu tref neu bentref, ac weithiau'n canolbwyntio ar grwpiau o fewn cymdeithas nad ydynt yn gallu manteisio ar fyd natur, yn cynnwys pobl hŷn neu sy'n derbyn cymorth dysgu. Er bod cyfranogiad gwirfoddolwyr yn ystod pandemig COVID-19 wedi'i godi fel her, rhagwelwyd y byddai hyn yn llai o broblem yn y dyfodol gyda dileu rheoliadau ymbellhau cymdeithasol.

Effaith Cymunedol Ehangach

- 6.19 Mae'r prosiectau NLHF yr ydym wedi'u hystyried yn fanwl wedi canolbwyntio fel arfer ar adnewyddu darn o dir i greu man gwyrdd newydd. Mae gwirfoddolwyr yn y gymuned yn aml wedi bod yn rhan o ddatblygu'r tir hwn, sydd bellach ar agor i ddefnydd a mwynhad ehangach gan y cyhoedd. Mae adroddiadau gan gydlynwyr y prosiect yn nodi ymgysylltiad gan ysgolion lleol, yn ogystal ag ymwelwyr â'r safle. Mae hyn yn gyffredinol yn awgrymu ymgysylltu cadarnhaol â 'natur ar stepen eich drws' drwy'r prosiectau adfywio safle-benodol hyn, yn cyd fynd â nodau LPfN.
- 6.20 Mi fydd mwy o ymgysylltiad â nifer uwch o brosiectau gorffenedig NLHF yn y dyfodol yn gallu edrych i ba raddau y mae ffrwd NLHF o LPfN wedi cefnogi natur a chyflawni buddion ac ymgysylltiad sy'n gysylltiedig â'r gymuned, rhywbeth yr oedd llawer yn teimlo'n hyderus y byddai'n digwydd unwaith y byddai'r prosiect yn cael ei gyflawni.

NLHF case studies

- 6.21 Mae astudiaethau achos byr o brosiectau NLHF i'w gweld yn yr Atodiadau. Isod rydym yn rhannu rhai o themâu a nodweddion prosiectau NLHF sy'n cyd-fynd â nodau cyffredinol LPfN .

Ymgysylltu â'r gymuned

- 6.22 Nododd prosiectau y gwahanol ffyrdd y maent wedi ymgysylltu â'r gymuned a grwpiau penodol. Er enghraifft, adroddodd dau brosiect astudiaeth achos eu bod wedi trefnu digwyddiadau ymgysylltu i ddod a phobl i'r ardal a hyrwyddo gweithgareddau awyr agored yng Nghae Crwn, prosiect rhandir a glöynnod byw cymunedol yng Nghricieth, a'r Big Butterfly Count ym Mhorth Tywi - prosiect i wella Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) cydnabyddedig.
- 6.23 O ran ymgysylltu â grwpiau penodol, adroddodd prosiect gardd gymunedol Llwybrau Llesiant Arfon gyda chefnogaeth Gwasanaeth Anabledd Dysgu Cyngor Gwynedd hefyd eu bod wedi cefnogi grwpiau dan anfantais arbennig gyda'u lles, yn ogystal a'u cefnogi i archwilio'r hyn sydd o'u cwmpas.
- 6.24 Mae prosiectau hefyd wedi nodi sut iddynt ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned ym myd natur a'r buddion cymunedol posib y maen nhw wedi gallu eu darparu. Nododd prosiect rhandiroedd cymunedol Cae Crwn sut y bu modd i blant feddu gwybodaeth a sgiliau drwy'r prosiect. Mae gwirfoddolwyr y prosiect yma hefyd wedi dweud bod nifer o drigolion Cricieth wedi profi manteision iechyd meddwl a lles, gan ddweud eu bod yn gweld Cae Crwn fel lle i ymlacio ac yn le pwysig i gysylltu â byd natur. Yn y cyfamser, mae gardd gymunedol Llwybrau Lesiant Arfon yn cael ei weld gan arweinwyr prosiect fel ardal i gymdeithasu.

Cyflawni effeithiau natur

- 6.25 Mae rhai prosiectau hefyd yn nodi sut iddynt weld newidiadau ym myd natur a bioamrywiaeth yn eu prosiect. Mae tystiolaeth anecdotaidd wedi bod o gynnydd mewn rhywogaethau, megis mwy o weithgaredd ystlumod, cynnydd yn y nifer o wenyn ac mewn adar sy'n nythu yng ngardd pail a synhwyraidd Llandrindod. Yn yr un modd, mae tystiolaeth anecdotaidd wedi bod o ddraenogod a gwenyn i'w gweld ar Clwb Pwyllgor Yr Wyddgrug, tra bod y gwaith ym Mhorth Tywi wedi helpu gwella SSSI.

Gwella'r ardal leol

- 6.26 Thema arall a ddaeth o gyfweiliadau â'r astudiaethau achos o'r prosiectau oedd sut maenet wedi gwella ardaloedd lleol, gyda'r nod o gyflwyno 'natur ar stepen y drws'.

Mae gennym ddiddordeb yn yr effeithiau a gafodd y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur hyd yn hyn ar greu 'natur ar eich stepen drws' a chreu, adfer a gwella bioamrywiaeth, a hefyd effeithiau'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar gymunedau lleol a'r unigolion sy'n rhan o'r prosiectau.

Rydym ni hefyd eisiau deall pa welliannau y gellir eu gwneud i'r cynllun fel ei fod yn cyflawni'n well ei amcanion o safbwynt ymgeiswyr prosiectau, rheolwyr cynlluniau a rhanddeiliaid.

Mae'r cyfweiliad hwn yn rhan o'r cyfnod cwmpasu ar gyfer y gwerthusiad ac yn rhoi cyfle i archwilio rhesymeg a chynnydd y cynlluniau hyd yma, yn ogystal â thrafod y blaenoriaethau ar gyfer yr ymchwil a pha wybodaeth allweddol y gallai fod ar gael i gynorthwyo'r gwerthusiad.

Bydd unrhyw sylwadau y byddwch yn eu gwneud yn gyfrinachol a dim ond at ddibenion y gwerthusiad hwn y bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei defnyddio. Ni fydd sylwadau y byddwch yn eu gwneud yn cael eu priodoli i chi oni bai bod gennym eich caniatâd penodol i wneud hynny. Mae hefyd yn bwysig nodi *nad yw'r* tîm sy'n ymgymryd â'r gwerthusiad yn gweithio i Lywodraeth Cymru nac unrhyw un o'r sefydliadau sy'n ymwneud â chyflawni neu ariannu'r Rhaglen hon. Gwerthusiad annibynnol yw hwn .

Diolch ymlaen llaw eto am eich amser a'ch cyfraniad.

Cwestiynau i'w trafod

1. Allech chi ddweud ychydig wrtha i am y cynllun rydych chi'n ei reoli, a'ch rôl o fewn hynny (gan gynnwys pa mor hir rydych chi wedi bod yn y swydd)?
2. Sut fydd chi'n disgrifio Llefydd Lleol ar gyfer Natur i rywun sy'n anghyfarwydd â'r rhaglen? Beth yw pwrpas ac amcanion y rhaglen?
3. Ar sail eich profiad o gyflwyno'r cynllun, beth ydych chi'n ei ystyried oedd y cryfderau a'r gwendidau hyd yma?
4. Beth fu dy brif wers hyd yma o gyflawni'r cynllun?
5. Sut fyddet ti'n disgrifio canlyniadau ac effaith blwyddyn gyntaf y rhaglen? e.e. allbynnau a chanlyniadau o 2020-21.
6. Oes unrhyw effeithiau anfwriadol wedi bod o'r cynllun (naill ai'n positif neu'n negyddol)?
7. I ba raddau rydych chi'n meddwl bod Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi gallu cyflawni ei nodau mewn perthynas â (a) natur a (b) ymwneud/ymgysylltu cymunedol hyd yn hyn?
8. Ar y cyfan, ydy'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli'r cynllun yn gweithio'n dda?
9. Pa gyfleoedd ydych chi'n meddwl sy'n bodoli i'r cynllun wella yn y dyfodol?
10. Sut mae'r cynllun wedi ymgysylltu â chymunedau amrywiol (e.e. cymunedau sydd â chyfranogiad gan rai o'r grwpiau gwarchoddedig; yn arbennig y rhai o'r grwpiau Du, Asiaidd a Lleoedd Ethnig a phobl anabl)? Sut gellir gwella hyn?
11. Pa ffactorau allanol (fel Covid) sydd wedi cael effaith negyddol ar y cynllun?
12. Beth fyddai'n ddefnyddiol i chi i'r gwerthusiad ei ystyried?
13. Sut ydych chi wedi monitro'r cynllun hyd yma? A oes gennych ddata a gwybodaeth y credwch y gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer ein gwerthusiad, e.e. cronfeydd data, ffurflenni adborth ac ati? Oes unrhyw brosiectau eraill o 2020/21 y credwch y bydd yn gwneud astudiaethau achos defnyddiol (nad oes gennych eto)? A oes unrhyw brosiectau 2021/22 sydd wedi dechrau gweithio rydych chi'n meddwl a fydd yn gwneud astudiaethau achos defnyddiol?
14. Oes unrhyw beth arall rydych chi'n meddwl fyddai'n ddefnyddiol i ni ei wybod ar hyn o bryd?

Atodiad 5: Cwestiynau cyfweiliad Cydlynnydd LNP

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Cyfweiliad Cydlynnydd LNP

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad o Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021/22.

Y Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:

Mae'r rhaglen yn ceisio creu 'natur ar stepen eich drws', gan adfer a gwella natur lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Y bwriad ydi ehangu'r rhaglen ar raddfa a chyflymder i ddarparu 'mesurau cymedrol' sy'n cael effaith yn lleol.

Nod y rhaglen yw bod 'gwaelod i fyny' yn ei dull o weithredu, gan ganiatáu i ymarferwyr cymunedol gyflwyno eu syniadau ar sut i gyrraedd y rhai heb fawr ddim mynediad at fyd natur. Dyfernir amrywiaeth o grantiau gan LNP; Cadwch Gymru'n Daclus; a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Bydd y rhaglen yn targedu ymyriadau at;

- Ardaloedd o amddifadedd uchel
- Ardaloedd trefol a rhannol-drefol
- Cymunedau heb fawr ddim/dim mynediad at natur

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd Wavehill yn casglu gwybodaeth gyda chyfweiliadau unigol neu grŵp gyda rheolwyr cynllun, swyddogion rhaglenni ac arweinwyr Partneriaeth Natur Leol. Nodau'r gwerthusiad hwn yw:

- I nodi'r effaith mae'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi ei gael hyd yma ar greu 'natur ar stepen eich drws' ac wrth greu, adfer a gwella bioamrywiaeth.
- Nodi effeithiau'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar gymunedau lleol a'r unigolion sy'n rhan o'r prosiectau.
- Er mwyn nodi i ba raddau mae'r tri cynllun a'r rhaglen yn ei chyfanrwydd yn cyflawni amcanion LPfN ac a oes modd gwneud unrhyw welliannau.

Llywodraeth Cymru yw rheolydd data'r ymchwil. Bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn copi o'r data sydd wedi ei gasglu gan Wavehill. Bydd y wybodaeth sy'n cael ei gasglu yn ystod y prosiect yn cael ei gynnwys mewn adroddiad sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae eich Cyfranogiad yn yr ymchwil hon yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisiâu Llywodraeth Cymru.

Y cyswllt ar gyfer yr ymchwil hwn yn Wavehill yw Dr Ian Johnson

Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r tîm sy'n gwneud y gwerthusiad yn gweithio i Lywodraeth Cymru nac unrhyw un o'r sefydliadau sy'n ymwneud â chyflawni neu ariannu'r prosiect hwn. Gwerthusiad *annibynnol* yw hwn

Sylwch y gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd yn ystod y cyfweiliad.

Cyflwyniad

1. Allech chi ddweud ychydig amdanoch chi'ch hun, gan gynnwys eich rôl fel cydlynnydd Partneriaeth Natur Leol (LNP), hyd amser yn y swydd ac ati.
2. Allech chi ddweud ychydig wrthyf am eich LNP, e.e. pa sefydliadau sy'n aelodau, pa mor aml ydych chi'n cwrdd?

2020/21

3. Wrth feddwl am 2020/21, pa brosiectau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wnaethoch chi a'ch LNP eu darparu?
4. Beth oedd effeithiau eich prosiect ar:
 - a. natur,
 - b. y gymuned leol, a
 - c. sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'ch partneriaeth (e.e. rheoli tirwedd a gweithrediadau cyflawni sefydliadau'r sector cyhoeddus)?
5. Wrth feddwl am y tri chategori uchod, a yw'r effeithiau hyn yn debygol o gael eu cynnal?
 - a. Os felly, sut?
 - b. Os ddim, pam ddim?
6. A oes unrhyw effeithiau anfwriadol neu anystywallt wedi bod rydych chi wedi'u hadnabod, yn bositif ac yn negyddol, e.e. beth yw'r ymateb cymunedol i'ch prosiectau?
7. Ar raddfa o un i bump, pa mor llwyddiannus ydych chi'n meddwl oedd y prosiectau hyn wrth greu 'natur ar stepen eich drws'? Pam yr ydych chi o'r farn yma?

2021/22

8. Wrth feddwl am y flwyddyn gyfredol, 2021/22, pa brosiectau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ydych chi a'ch LNP yn eu cyflawni?
9. Beth yw'r rhesymeg tu ôl i'r prosiectau hyn?
 - a. Beth fyddan nhw'n ei gyfrannu at y mesurau cymedrol?
 - b. Sut roedd y gymuned yn rhan o'u dyluniad?
10. Pa randdeiliaid rydych chi wedi gweithio gyda nhw eleni?
 - a. Sut ydych chi wedi ymgysylltu â grwpiau heb eu gwasanaethu yn eich cymuned?
11. Sut mae'r prosiectau hyn wedi datblygu?
 - a. Oes 'na rwystrau neu heriau wedi bod?

Cynllun Partneriaeth Natur Leol

12. Sut mae'r cyllid LPfN yn eich LNP wedi'i ddsbarthu? h.y. pa gyfran o'r cyllid y mae'r awdurdod lleol/parc cenedlaethol [dileu fel sy'n berthnasol] yn cadw i'w wario ar brosiectau LPfN a beth sy'n cael ei ddyrannu i sefydliadau eraill i'w wario ar brosiectau LPfN?
13. Yn gyffredinol, beth fydddech chi'n ei ddweud yw cryfderau a gwendidau yn nghynllun y Bartneriaeth Natur Lleol o fewn Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, e.e. beth sydd wedi bod yn gweithio'n dda a beth sydd wedi bod yn heriol?
14. Wrth feddwl am y ddwy flynedd ddiwethaf, sut mae sefydliadau partner o'r LNP sy'n rhan o'r cynllun wedi ymgysylltu a'r cynllun? Pa fuddion y gellir eu hadnabod? Pa wersi y gellir eu dysgu?
15. Eto, wrth feddwl am y ddwy flynedd ddiwethaf, pa mor gynaliadwy yw ymgysylltiad â'r gymuned a sefydliadau partner LNP gyda natur leol?
 - a. Beth fyddai'n helpu'r gymuned a phartneriaid i gynnal eu gweithgareddau?
 - b. Pa ffactorau sy'n annog eu hymgysylltiad?
 - c. Oes unrhyw faterion yn ymwneud â gallu neu anghenion rydych chi wedi'u hadnabod?
16. A yw'r cynllun wedi cael unrhyw effaith arall rydych chi wedi'i gweld (naill ai'n bositif neu'n negyddol)?

Llefydd Lleol ar gyfer Natur

17. I ba raddau y mae Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi gwneud cyfraniad i
 - a. mynd i'r afael â'r argyfwng natur
 - b. ymgysylltu â chymunedau o ran cydnabod a gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn?
18. Pa wersi y gellir eu dysgu o Leoedd Lleol ar Gyfer Natur?
 - a. Pa mor dda mae'r tair elfen cynllun o fewn LPfN yn gweithio gyda'i gilydd?
 - b. Beth yw'r manteision a'r tensiynau? Oes pwrpas cyffredin?
 - c. O ran Covid-19, a oes gwersi y dylid ei ystyried yn ymarferol yn y dyfodol?
19. A oes angen ymestyn, ehangu neu barhau â'r gefnogaeth a gynigir drwy Leoedd Lleol ar gyfer Natur (ac os felly, pa newidiadau fydddech chi'n eu gwneud)?

Cau

20. A oes unrhyw beth nad yw wedi cael sylw yn y cyfweiliad rydych chi'n meddwl sy'n bwysig i ni ei ystyried ar hyn o bryd yn y gwerthusiad?

Atodiad 6: Cwestiynau arolwg KWT

Arolwg Ar-lein gydag ymgeiswyr pecyn Cadwch Gymru'n Daclus (Lleoedd Lleol ar gyfer Natur).

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

Prif nod y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yw ennyn diddordeb cymunedau i gymryd rhan yn y broses o greu lleoedd i fyd natur. Bydd yr ymchwil hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddysgu gwersi ynglŷn â pha mor effeithiol y mae'r rhaglen yn gweithio, gan gynnwys nodi meysydd i'w gwella. Fel rhan o'r ymchwil yma, bydd arolwg yn cael ei gynnal gyda'r rhai sydd ynghlwm â'r rhaglen.

Llywodraeth Cymru yw rheolydd data'r ymchwil. Fodd bynnag, bydd Wavehill yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir cyn ei rannu â Llywodraeth Cymru.

Bydd yr wybodaeth fydd yn cael ei gasglu yn ystod y prosiect yn cael ei gynnwys mewn adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru unwaith y bydd yr ymchwil wedi ei gwblhau.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hon yn gwbl wirfoddol. Ond mae eich sylwadau a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio Llywodraeth Cymru yn y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r rhaglen hon.

Mae Hysbysiad Preifatrwydd manwl ar gael yma. Y cyswllt ar gyfer yr ymchwil hwn yn Wavehill yw Ian Johnson: ian.johnson@wavehill.com

C1 Ydych chi'n hapus i barhau â'r arolwg? *Nodwch y gallwch roi'r gorau i lenwi'r holiadur ar unrhyw adeg os byddwch yn penderfynu nad ydych chi am barhau.*

- Ie
- Na

C2 Diolch am eich amser. I adael yr arolwg hwn, gallwch gau'r tab hwn yn eich porwr.

C3 Ym mha flwyddyn wnaethoch chi ymgeisio'n llwyddiannus am gyllid? [defnyddio'r ddwy flynedd, os yn berthnasol]

1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 21

1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 22

C4 Faint o wirfoddolwyr sy'n rhan o'ch prosiect?

C5 Ers i chi ddechrau'r prosiect, mae nifer y gwirfoddolwyr wedi

- Cynyddu
- Aros yr un fath
- Lleihau
- Ddim yn gwybod

C6 Beth fyddech chi'n ei ddweud yw oedran cyfartalog eich gwirfoddolwyr?

- 18 oed neu iau
- 19 i 30
- 31 hyd 44
- 45 i 60
- 61 hyd 75
- Dros 75
- Well gen i beidio â dweud

C7 Ble mae eich prosiect wedi'i leoli? [rhestr gollwng awdurdodau lleol]

- Blaenau Gwent
- Pen-y-bont
- Caerffili
- Sir gaerfyrddin
- Ceredigion
- Caerdydd
- Ogwen
- Sir ddinbych
- Flint
- Gwynedd
- Ynys Môn
- Merthyr Tudful
- Sir fynwy
- Castell-nedd a Phort Talbot
- Casnewydd
- Sir benfro
- Powys
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe
- Torfaen
- Bro Morgannwg
- Wreccsam

C8 Cyn eich prosiect, pa mor hawdd oedd cael mynediad at natur a mwynhau natur lle rydych chi'n byw?

- 1 - Ddim yn bosib o gwbl
- 2
- 3
- 4
- 5 - Digon o natur i gael mynediad a mwynhau

C9 Pa becyn wnaeth eich grŵp ymgeisio amdano?

- Cychwyn
- Datblygiad

[Os Datblygu, gofynnwch os i chi gael Pecyn Starter yn flaenorol?]

C10 Sut ddaeth eich grŵp i wybod am y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur?

- Teulu/Ffrindiau/Cydweithwyr
- Cadwch Gymru'n Daclus
- Un Llais Cymru
- Cyfryngau cymdeithasol
- Llywodraeth Cymru
- WVCA
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri
- Arall _____
- Ddim yn gwybod/methu cofio

Dangoswch y cwestiwn hwn:

*Os sut ddaeth eich grŵp i wybod am y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur? =
Cyfryngau eraill/cymdeithasol*

C11 Sut gawsoch chi wybod am y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur? Os oedd o'r cyfryngau cymdeithasol, allwch chi gofio ble roeddech chi'n ei weld yn cael dyrchafiad?

C12 Ar raddfa o 1-5 (gydag 1 yn heriol iawn a 5 ddim yn heriol o gwbl), ymatebwch i'r cwestiynau canlynol. Os yw eich prosiect yn dal i fynd rhagddo ac nad ydych yn gallu ateb, yna dewiswch yr opsiwn N/A

	1	2	3	4	5	AMH
Sut oedd y broses o ddod i wybod am y rhaglen/pecyn?						
Sut oedd y broses o wneud cais am y pecyn?						
Sut oedd y profiad o reoli'r prosiect?						
Sut oedd y profiad o gyflawni/cwblhau'r prosiect?						

C13. Beth ydych chi'n meddwl sydd wedi gweithio'n dda ar eich prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (hyd yn hyn)? Pa agweddau sydd wedi bod fwyaf buddiol, wrth eich helpu i gyflawni?

[Testun rhydd]

C14 Pa rai, os o gwbl, o'r materion canlynol a effeithiodd ar eich gallu i gyflawni/cwblhau'r prosiect? [Cynnwys cymaint ag sy'n berthnasol]

- Materion aelodaeth grŵp (h.y. pobl yn colli diddordeb, absenoldebau gwirfoddol, diffyg unigolion sy'n gallu ymrwymo)

- Absenoldeb sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws (h.y. salwch, hunan-ynysu gan aelodau o'r grŵp)
- Cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â coronafeirws
- Materion tarfu/cyflawni'r Gadwyn Gyflenwi
- Mynediad i'r safle
- Caniatâd perchennog tir
- Ariannu blwyddyn
- Arall _____
- Nid ydym wedi cael unrhyw broblemau

Dangoswch y cwestiwn hwn:

Os oes un, os o gwbl, o'r materion canlynol yn effeithio ar eich gallu i gyflawni/cwblhau'r prosiect? = Arall

C15 Nodwch pa faterion eraill yr effeithiwyd ar eich gallu i gyflawni neu gwblhau'r prosiect.

C16 I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y prosiect wedi helpu i greu 'natur ar eich stepen drws' e.e gofodau newydd i gael mynediad at, profi a mwynhau byd natur yn lleol?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno rhywfaint
- Peidio â chytuno nac anghytuno
- Rhywfaint yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf

C17 I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am sut mae'r prosiect wedi effeithio arnoch chi'n bersonol?

	Cytuno'n gryf	Cytuno rhywfaint	Peidio â chytuno nac anghytuno	Rhywfaint yn anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn Gwybod/ N/A
Mae bod yn rhan o'r prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar fy iechyd corfforol						
Mae cymryd rhan wedi cael effaith gadarnhaol ar fy iechyd meddwl a lles						
Rwy'n gwerthfawrogi natur fwy cyn i mi ddod yn rhan o'r prosiect						
Rwy'n fwy gwybodys am fyd natur na chyn i mi ddod yn rhan o'r prosiect						
Erbyn hyn rwy'n fwy tebygol o gefnogi prosiectau natur eraill yn lleol						
Rwyf bellach yn fwy tebygol o gefnogi prosiectau cenedlaethol am fyd natur						
Dw i wedi cwrdd â phobl/frindiau newydd						
Rwy'n teimlo'n llai ynysig/unig						
Mae cymryd rhan wedi fy helpu yn ystod pandemig Covid						
Rwyf wedi dysgu sgiliau newydd						

C18 I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am sut mae'r prosiect wedi effeithio ar eich cymuned/grŵp?

	Cytuno'n gryf	Cytuno rhywfaint	Peidio â chytuno nac anghytuno	Rhywfaint yn anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod N/A
Mae'r prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar y grŵp						
Bydd y grŵp dan sylw yn parhau i weithio ar brosiectau natur ar ôl i'r prosiect hwn ddod i ben						
Hoffai'r grŵp wneud cais am ragor o arian/cymorth i barhau â'u gwaith ar brosiectau natur lleol						
Dwi'n teimlo bod y gymuned yn gryfach o ganlyniad i'r prosiect						
Mae gan y gymuned fwy o fynediad at natur yn lleol, yn dilyn y prosiect hwn						
Mae'r pecyn wedi'n galluogi i gynnwys mwy o pobl difreintiedig/heb gynrychiolaeth yn ein gardd						
Mae'r ardd newydd wedi arwain at fuddion cymunedol, ehangach eraill (ee buddion cymdeithasol, economaidd, lles, diwylliannol, iechyd)						

C19 Ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 'Ddim yn bosib o gwbl' a 5 yn 'hyderus o gynnal y gofod'), pa mor hyderus ydych chi y byddwch chi'n gallu cynnal eich gofod natur yn y dyfodol?

- 1 - Ddim yn bosib o gwbl
- 2
- 3
- 4
- 5 - Hyderus o gynnal y lle

C20 Pa drefniadau sydd gennych chi yn eu lle ar gyfer cynnal a chadw'r prosiect rydych chi wedi dechrau? Ydych chi'n rhagweld unrhyw heriau o ran cyflawni hyn? [testun rhydd]

C21 Ydy eich grŵp / sefydliad / cymuned yn cynllunio unrhyw waith pellach yn dilyn y prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur hwn?

- Ie
- Na
- Ddim yn gwybod

Os felly, beth ydych chi'n bwriadu ei wneud nesaf? A yw hyn wedi'i gynllunio drwy Lleoedd Lleol ar gyfer Natur?

Diolch am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn! Cliciwch ar y botwm 'submit' i gofnodi eich ymatebion.

Atodiad 7: Cwestiynau Arolwg NLHF

Arolwg Ar-lein gydag ymgeiswyr pecyn Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (Lleoedd Lleol ar gyfer Natur).

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

Prif nod y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yw ennyn diddordeb cymunedau i gymryd rhan yn y broses o greu lleoedd i fyd natur. Bydd yr ymchwil hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddysgu gwersi ynglŷn â pha mor effeithiol y mae'r rhaglen yn gweithio, gan gynnwys nodi meysydd i'w gwella. Fel rhan o'r ymchwil yma, bydd arolwg yn cael ei gynnal gyda'r rhai sydd ynghlwm â'r rhaglen.

Llywodraeth Cymru yw rheolydd data'r ymchwil. Fodd bynnag, bydd Wavehill yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir cyn ei rannu â Llywodraeth Cymru.

Bydd yr wybodaeth fydd yn cael ei gasglu yn ystod y prosiect yn cael ei gynnwys mewn adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru unwaith y bydd yr ymchwil wedi ei gwblhau.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hon yn gwbl wirfoddol. Ond mae eich sylwadau a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio Llywodraeth Cymru y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r rhaglen hon.

Mae Hysbysiad Preifatrwydd manwl ar gael yma. Y cyswllt ar gyfer yr ymchwil hwn yn Wavehill yw Ian Johnson: ian.johnson@wavehill.com

C1 Ydych chi'n hapus i barhau â'r arolwg? *Nodwch y gallwch roi'r gorau i lenwi'r holiadur ar unrhyw adeg os byddwch yn penderfynu nad ydych chi am barhau.*

- Ie
- Na

C2 **Diolch am eich amser. I adael yr arolwg hwn, gallwch gau'r tab hwn yn eich porwr.**

C3 Ym mha flwyddyn wnaethoch chi ymgeisio'n llwyddiannus am gyllid?

2020/21
2021/22

C4 Faint o wirfoddolwyr sy'n rhan o'ch prosiect?

C5 Ers i chi ddechrau'r prosiect, mae nifer eich gwirfoddolwyr wedi

- Cynyddu
- Aros yr un fath
- Lleihau
- Ddim yn gwybod/ Ddim yn berthnasol

C6 Beth fydddech chi'n ei ddweud yw oedran cyfartalog eich gwirfoddolwyr?

- 18 oed neu iau
- 19 i 30
- 31 hyd 44
- 45 i 60
- 61 hyd 75
- Dros 75
- Well gennyf beidio â dweud

C7 Ble mae eich prosiect wedi'i leoli? [rhestr gollwng awdurdodau lleol]

- Blaenau Gwent
- Pen-y-bont
- Caerffili
- Sir gaerfyrddin
- Ceredigion
- Caerdydd
- Ogwen
- Sir ddinbych
- Flint
- Gwynedd
- Ynys Môn
- Merthyr Tudful
- Sir fynwy
- Castell-nedd a Phort Talbot
- Casnewydd
- Sir benfro
- Powys
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe
- Torfaen
- Bro Morgannwg
- Wreccsam

C8 Cyn eich prosiect, pa mor hawdd oedd cael mynediad at natur a mwynhau natur lle rydych chi'n byw?

- 1 - Ddim yn bosib o gwbl
- 2
- 3
- 4
- 5 - Digon o natur i gael mynediad a mwynhau

C9 Sut ddaeth eich grŵp i wybod am y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur?

- Teulu/Ffrindiau/Cydweithwyr
- Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
- Un Llais Cymru
- Cyfryngau cymdeithasol
- Arall _____

- o Ddim yn gwybod/methu cofio

Dangoswch y cwestiwn hwn:

*Os sut ddaeth eich grŵp i wybod am y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur? =
Cyfryngau eraill/cymdeithasol*

C10 Sut gawsoch chi wybod am y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur? Os oedd o'r cyfryngau cymdeithasol, allwch chi gofio ble roeddech chi'n ei weld ei weld?

C11. Ar ba gam mae eich prosiect chi?

Cwblhau

Mynd rhagddo

Heb ddechrau eto ar y safle

C12 Ar raddfa o 1-5 (gydag 1 yn heriol iawn a 5 ddim yn heriol o gwbl), ymatebwch i'r cwestiynau canlynol. Os yw eich prosiect yn dal i fynd rhagddo ac nad ydych yn gallu ateb, yna dewiswch yr opsiwn N/A

	1	2	3	4	5	AMH
Sut oedd y broses o ddod i wybod am y rhaglen/pecyn?						
Sut oedd y broses o wneud cais am yr arian?						
Sut oedd y broses o reoli'r prosiect?						
Sut oedd y broses o gyflawni/cwblhau'r prosiect?						

C13. Wrth feddwl am broses ddyfarnu grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, beth oedd angen i chi ei wneud i gael eich taliad cyntaf?

[Testun Rhydd]

C14 Beth ydych chi'n ei feddwl sydd wedi gweithio'n dda ar eich rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (hyd yn hyn)? Beth sydd wedi eich helpu i gyflawni?

[Testun Rhydd]

C15 Pa rai, os o gwbl, o'r materion canlynol a effeithiodd ar eich gallu i gyflawni/cwblhau'r prosiect? [Cynnwys cymaint ag sy'n berthnasol]

- Materion aelodaeth grŵp (h.y. pobl yn colli diddordeb, absenoldebau gwirfoddol, diffyg unigolion sy'n gallu ymrwymo)
- Absenoldeb sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws (h.y. salwch, hunan-ynysu aelodau o'r grŵp)
- Cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â coronafeirws
- Tarfu ar y Gadwyn Gyflenwi

- Mynediad i'r safle,
- Caniatâd perchennog tir.
- Ariannu blynyddol
- Materion gyda Chronfa Dreftadaeth Genedlaethol Loteri
- Arall _____
- Nid ydym wedi cael unrhyw broblemau

Dangoswch y cwestiwn hwn:

Os oes un, os o gwbl, o'r materion canlynol yn effeithio ar eich gallu i gyflawni/cwblhau'r prosiect? = , Materion gyda Chronfa Treftadaeth Genedlaethol y Loteri, Arall

C16 Nodwch pa faterion eraill a effeithiodd ar eich gallu i gyflawni neu gwblhau'r prosiect.

C17 I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y prosiect yn helpu i greu 'natur ar eich stepen drws' e.e gofodau newydd i gael mynediad at, profi a mwynhau byd natur yn lleol?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno rhywfaint
- Peidio â chytuno nac anghytuno
- Rhywfaint yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf

C18 I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am sut mae'r prosiect wedi effeithio arnoch chi'n bersonol?

	Cytuno'n gryf	Cytuno rhywfaint	Peidio â chytuno nac anghytuno	Rhywfaint yn anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn Gwybod/ N/A
Mae bod yn rhan o'r prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar fy iechyd corfforol						
Mae cymryd rhan wedi cael effaith gadarnhaol ar fy iechyd meddwl a lles						
Rwy'n gwerthfawrogi natur fwy na chyn i mi ddod yn rhan o'r prosiect						
Rwy'n fwy gwybodys am fyd natur na chyn i mi ddod yn rhan o'r prosiect						
Erbyn hyn rwy'n fwy tebygol o gefnogi prosiectau natur eraill yn lleol						
Rwyf bellach yn fwy tebygol o gefnogi prosiectau cenedlaethol am fyd natur						
Dw i wedi cwrdd â phobl/ffrindiau newydd						
Rwy'n teimlo'n llai ynysig/unig						
Mae cymryd rhan wedi fy helpu yn ystod pandemig Covid						
Rwyf wedi dysgu sgiliau newydd						

C19 I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am sut mae'r prosiect wedi effeithio ar eich cymuned/grŵp?

	Cytuno'n gryf	Cytuno rhywfaint	Peidio â chytuno nac anghytuno	Rhywfaint yn anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod N/A
Mae'r prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar y grŵp						
Bydd y grŵp dan sylw yn parhau i weithio ar brosiectau natur ar ôl i'r prosiect hwn ddod i ben						
Hoffai'r grŵp wneud cais am ragor o arian/cymorth i barhau â'u gwaith ar brosiectau natur lleol						
Dwi'n teimlo bod y gymuned yn gryfach o ganlyniad i'r prosiect						
Mae gan y gymuned fwy o fynediad at natur yn lleol, yn dilyn y prosiect hwn						

C20 Ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 'Ddim yn bosib o gwbl' a 5 yn 'hyderus o gynnal y gofod'), pa mor hyderus ydych chi'n gallu cynnal eich gofod natur yn y dyfodol?

- 1 - Ddim yn bosib o gwbl
- 2
- 3
- 4
- 5 - Hyderus o gynnal y lle

C21 Pa drefniadau sydd gennych chi yn eu lle ar gyfer cynnal a chadw'r prosiect rydych chi wedi dechrau? Ydych chi'n rhagweld unrhyw heriau o ran cyflawni hyn? [testun am ddim]

C22 Ydy eich grŵp / sefydliad / cymuned yn cynllunio gwneud gwaith pellach yn dilyn y prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur hwn?

Ie
Na
Ddim yn gwybod

Os felly, beth ydych chi'n bwriadu ei wneud nesaf? A yw hyn wedi'i gynllunio drwy Lleoedd Lleol ar gyfer Natur?

Diolch am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn! Cliciwch ar y botwm 'submit' i gofnodi eich ymatebion.

Atodiad 8: Astudiaethau Achos

Clwb Yr Wyddgrug

Lleolir y prosiect mewn neuadd gymunedol a gafodd ei roi 19 o flynyddoedd yn ôl fel ased cymunedol gan y cyngor i grŵp o wirfoddolwyr. Fel rhan o'r trosglwyddiad asedau hwn, datblygwyd gardd gymunedol y tu ôl i'r ardd.

Y rhesymeg tu ôl i'r datblygiad oedd i greu man gwyrdd o ansawdd da sy'n agored i'r cyhoedd ac mae gan hynny hefyd y potensial i ehangu'n barhaus dros amser tra hefyd yn darparu mannau tyfu mewn ardal lle ychydig iawn oedd ar gael i'r cyhoedd.

Yr hyn mae'r prosiect wedi'i wneud yw edrych i ddatblygu'r ardal rhwng yr ardd a'r neuadd er mwyn sefydlu ardal sy'n ddeniadol i'r gymuned leol ac sy'n cefnogi bioamrywiaeth. Mae'r datblygiad hwn wedi cynnwys sefydlu perllan, creu gweirglodd blodau gwyllt a sefydlu ardaloedd tyfu penodol.

Drwy ddarparu ystod amrywiol o osodiadau i gynyddu bioamrywiaeth y gobaiith yw y gall gyfrannu mewn amryw o ffyrdd. Mae effeithiau hyn i'w gweld eisoes gyda'r berllan a'r ddôl yn cymryd siâp a bywyd gwyllt fel draenogod a gwenyn i'w gweld ar y safle.

Y syniad o'r prosiect yw ei fod yn parhau a hynny wrth i amser fynd heibio bydd mwy o ddefnyddwyr a grwpiau yn dod i ddefnyddio'r gofod, ac yn ei dro yn ymfalchïo ynddo a chymeryd cyfrifoldeb amdano. Mae creu y math hwn o ofod diogel mewn amgylchedd braf i bobl ei ddefnyddio yn cael ei weld fel prif gryfder y prosiect, ac mae'r rhai sy'n rhedeg y prosiect yn teimlo bod y cysylltiadau â'r gymuned a'r grwpiau ehangach yn llwyddo i ddatblygu ar hyn o bryd.

Amharwyd ar ymgysylltiad â'r gymuned oherwydd pandemic COVID-19 a'r cyfyngiadau pellhau cymdeithasol dilynol. Mae'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oedd cysylltiadau i sefydliadau a grwpiau yn arbennig, y ganolfan gymunedol yn gallu mynd yn ei blaen fel y cynlluniwyd, ac felly roedd ymgysylltiad â'r cyhoedd ynglun â'r prosiect wedi ei gyfyngu i gysylltu gyda phobl oedd yn ymweld â'r ardal ac yn dod draw i weld beth oedd yn digwydd. Ar ben hynny, effeithiodd y pandemig ar argaeledd gwirfoddolwyr i gynorthwyo yn y prosiect gan fod llawer yn hŷn neu'n arbennig o agored i niwed ac fe'u cynghorwyd i beidio â gadael eu cartrefi.

Mae rhannu'r neges trwy ffrindiau/teulu/cydweithwyr wedi bod yn bwysig iawn wrth ledaenu ymwybyddiaeth o'r prosiect yn dilyn y tarfu a achoswyd i'r codi ymwybyddiaeth arfaethedig, ac mae hyn yn rhywbeth y mae staff y prosiect yn teimlo sy'n casglu momentwm o'r diwedd.

Heb gefnogaeth LPfN a'r Cydlynnydd LNP mae'n annhebygol y byddai'r prosiect wedi mynd yn ei flaen. Mae'r gefnogaeth wedi rhoi arian i'r cyfleusterau ac unigolion sydd â phrofiad o ddatblygu prosiectau fel hyn, sydd wedi helpu'r ardd i fod mor llwyddiannus ag y bu.

Mae'r camau nesaf ar gyfer yr ardd yn cynnwys ychwanegiad posibl cydlynnydd gardd, er bod hyn yn ddibynnol ar gyllid pellach ar gyfer y prosiect neu darganfod ffyrdd newydd o greu incwm. Mae cynlluniau hefyd i osod polytunnels er mwyn rhoi cyfle i'r ardd dyfu gydol y flwyddyn.

"Mae'n gynhwysol ohonoch chi. Does dim rhaid i chi ddod i arddio plot cyfan. Os nad dyna beth yr ydych yn ei hoffi, chi'n gwybod mai dyna beth sy'n dda amdano. Lle rydyn ni wedi creu gardd sy'n agored i unrhyw un. " (Kate Surry, Cydlynnydd)

Llwybrau Gwyrdd Trafnidiaeth Cymru

Mae'r prosiect, a gyflwynir gan Trafnidiaeth Cymru (TfW), gyda dwy elfen: 1) i gyflwyno nodweddion gwyrdd i 22 gorsaf (gan gynnwys waliau gwyrdd a thoeau; planhigwyr; basgedi crog; casglwyr dŵr; gwestai gwenyn a chwilod; tai adar a draenog; blychau ystlumod) , a 2) i gefnogi prosiectau bioamrywiaeth lleol ar y cyd â phum partner cymunedol o fewn milltir i'w gorsafoedd rheilffordd. Mae'r holl brosiectau cymunedol wedi'u cwblhau, ond mae elfen yr orsaf yn dal i fynd rhagddo wedi iddo gael ei ymestyn hyd at fis Gorffennaf 2022. Mae nodweddion gwyrdd a gwella bioamrywiaeth wedi'u gosod mewn 14 o'r 22 gorsaf hyd yn hyn.

Roedd gan y pum prosiect cymunedol yr un grant o £2,000 i £3,000 i wella manau gwyrdd heb eu defnyddio (e.e. gyda phlanhigion, cynaeafu dŵr glaw, cyfleusterau tyfu cymunedol, planhigion ar gyfer gardd synhwyrdd). Maen nhw wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i grwpiau, eu gwirfoddolwyr a'r manau gwyrdd. Mae'r prosiectau wedi arwain at ysgolion yn cymryd rhan, tyfu a defnyddio cynnyrch gardd a recriwtio gwirfoddolwyr newydd (e.e. grŵp garddio newydd ar gyfer gardd synhwyrdd,). Cefnogodd TfW y grwpiau gyda hyfforddiant bioamrywiaeth a threfnu digwyddiadau, gan gynnwys recriwtio gwirfoddolwyr, diwrnodau agored a gweithgareddau i bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau newydd.

Dyma'r tro cyntaf i TfW gynnal prosiect a ariennir gan grant o'r math hwn ac mae pob un o'r 22 gorsaf yn cael ei drin fel prosiect bach gyda'i anghenion a'i heriau ei hun. Nid yw isadeiledd gwyrdd mewn amgylchedd rheilffordd yn gysyniad newydd i'r sefydliad, ac nid yw yn cael ei ddeall yn dda eto ac nid yw bob amser yn eistedd yn hawdd o fewn prosesau rheoli cyfredol. Mae nodweddion fel blychau bywyd gwyllt a phlanhigwyr wedi'u cyflwyno mewn 14 o orsafoedd ac maent yn cael gofal gan wirfoddolwyr cymunedol o dan raglen presennol mabwysiadwyr gorsaf TfW (mae mabwysiadwyr yn gofalu am yr orsaf, gan roi adroddiad i Dîm Rheilffyrdd Cymunedol Cymru yn fisol). Mae eu cyfrifoldebau bellach yn cynnwys y nodweddion gwyrdd ac maent wedi'u uwchsgilio gyda hyfforddiant bioamrywiaeth i ymgymryd â monitro a gwerthuso hirdymor. Fodd bynnag, nid oedd rhai elfennau (e.e. basgedi crog, casglwyr dŵr a gwestai gwenyn), wedi ei gytuno ar lefel yr asesiad risg – proses hir a hirfaith sydd wedi arafu'r gwaith o'i gyflwyno. Nid yw'r tîm wedi gallu cychwyn unrhyw nodweddion sefydlog eto (e.e. toeau gwyrdd neu waliau) a derbynnir na ellir cwblhau yr elfen hon o fewn yr amserlen. Mae Metro yn gweithio yn rhai o'r

gorsafoedd, ac mae ansefydlogrwydd gorsafoedd eraill ar Linellau craidd y Cymoedd wedi golygu bod angen cydweithio â gweithredwr rheilffyrdd arall i ddarganfod gorsafoedd addas y tu allan i rwydwaith TfW. Mae hyn wedi gohirio'r ddarpariaeth ymhellach.

Mae'r prosiect yn cael ei ystyried fel peilot sy'n creu dealltwriaeth fanwl o'r hyn fydd yn gweithio ac yn dangos yr hyn y gellir ei wneud mewn amgylchedd rheilffordd. Mae ymgorffori ystod o orsafoedd wedi amlygu bod pob safle'n unigryw. Mae'r prosiect wedi gwrthio agenda werdd TrC ac mae'n sbarduno newidiadau sylweddol i brosesau mewnol a ffyrdd o feddwl (e.e. ar gyfer pob prosiect newydd, mae cynaliadwyedd bellach yn rhan o wiriadau llwyfan porth: "*Mae'n beth mawr i allu ymyrud yn ystod y broses gynllunio a gofyn Pam na ellir rhoi to gwyrdd yno ?*"). Cafodd gosodiad y nodweddion lawer o sylw cadarnhaol gan ddefnyddwyr y rheilffyrdd, gyda'r tîm yn gallu egluro am yr arian grant a'r hyn y maent yn anelu at ei gyflawni yn ardaloedd yr orsaf. Mae mabwysiadwyr gorsafoedd wedi elwa o hyfforddiant a ddarparwyd gan ecolegydd TfW a chyfleoedd i fynychu trafodaethau arbenigol. Mae hyn wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'u galluogi i ddechrau ei fonitro, a fydd yn ei dro yn rhoi sylfaen dystiolaeth i TfW ddeall beth sy'n gweithio, beth sydd ddim a beth y gellir ei efelychu mewn gorsafoedd eraill.

Barrack Hill, Casnewydd

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar fan gwyrdd cymunedol o'r enw Barrack Hill, sydd o fewn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig Casnewydd. Mae'r lle, sydd wedi'i amgylchynu gan ddwy stad fawr o dai cymdeithasol, yn cael ei ffinio gan safle gemau aml-ddefnydd a thrac BMX. Mae nant sydd wedi'i argloddio'n serth yn broblem o ran tipio anghyfreithlon. Roedd y safle'n dlwm ac yn fan cyfarfod hysbys i werthwyr cyffuriau. Y nod oedd hawlio'r man gwyrdd ar gyfer natur a phobl yn ôl drwy ysgogi newid mewn ymddygiad a mynd i'r afael â phwysau allweddol ar fioamrywiaeth.

Roedd trigolion lleol yn cymryd rhan drwy ddsbarthiau tafenni a churo drysau a a sefydlwyd grŵp gweithredu aml-asiantaeth o randdeiliaid allweddol. Roedd hyn yn cynnwys grŵp preswylwyr, y ddwy gymdeithas dai, timau Cefn Gwlad, Teithio Llesol a Gorfodi Gwastraff y cyngor, Tîm tipio anghyfreithlon CNC a phlisma cymdogaethol.

Canolbwyntiwyd ar glirio gwastraff anghyfreithlon, cael gwared ar rywogaethau ymledol a chlirio rhedyn i greu ardaloedd blodau gwyllt sy'n gyfeillgar i beillwyr a llwybr mynediad a i hwyluso defnydd o'r safle. Gosodwyd blychau adar ac ystlumod a gwnaed gwaith plannu coed.

Ymhlith yr heriau roedd COVID, a arafodd y broses o ymgysylltu, a chwalu rhwystrau gyda chymuned a oedd yn ddrwgdybus i ddechrau. Cynorthwywyd yr olaf drwy gynnwys aelodau allweddol o'r gymuned o'r dechrau, gan fagu hyder wrth i drigolion ddod i sylweddoli y byddai asiantaethau'n cymryd rhan dros y tymor hir. Yn ystod y cyfnod clo, fe wnaeth y gymdeithas trigolion a'r gymdeithas dai greu pecynnau i'w rhoi allan i'r gymuned leol, gan gynnwys canllawiau hadau ac adnabod sy'n cael eu darparu fel rhan o'r prosiect.

Arweiniodd hyn at ffurfio grŵp cadwraeth gwirfoddolwyr. Roedd diwrnodau clirio gwirfoddolwyr a sesiynau gwirfoddol corfforaethol (e.e. gyda banc lleol) hefyd yn hwyluso ymrwymiad y gymuned. Er bod cyfranogiad cymunedol ehangach yn dal i fod yn her, mae grŵp casglu sbwriel wedi'i sefydlu ac mae tua 20 o wirfoddolwyr wedi troi i fyny ar gyfer casglu sbwriel. Mae teithiau cerdded bywyd gwyllt cymunedol hefyd yn ddigwydd yn rheolaidd ac mae'r grŵp cadwraeth bellach yn monitro ac yn cofnodi'r bioamrywiaeth.

Hyd yma, mae'r grŵp cadwraeth wedi cofnodi dros 400 o rywogaethau a'r consensws yw bod cynnydd wedi bod mewn bioamrywiaeth. Mae'r materion gwreiddiol yn parhau gan ei bod yn cymryd amser i ymgorffori newid go iawn; Ond, mae'r prosiect wedi cychwyn y

newid hwnnw ac wedi gweithredu fel catalydd ar gyfer prosiectau eraill. Mae Buglife wedi sefydlu prosiect dilynol, a rhan ohono yw monitro'r safle yn ffurfiol. Arweiniodd taith gerdded llesiant a gynhaliwyd yn ddiweddar fel rhan o brosiect Buglife at adnabod gwllithen prin ar y safle. Ar ardaloedd sydd â chliriannau rhedyn mae'n amlwg bod mwy o flodau gwyllt yn dod drwodd ac mae un o'r grŵp cadwraeth yn cofnodi rhywogaethau gwenyn yn rheolaidd. Gerllaw'r safle mae hen farics sy'n gartref i drefedigaethau o *house martins* a gwenoliaid du a'r gobraith yw cysylltu â'r barics i gynnal arolwg blwch adar.

Mae'r LA yn dal i fod yn rhan o hyn ar y funud a bydd y grŵp gweithredu aml-asiantaeth yn darparu cynaliadwyedd parhaus. Mae tipio anghyfreithlon wedi gostwng, mae diwrnodau gwirfoddol cymunedol yn cael eu cynnal ac mae'r safle'n dechrau cael ei weld fel lle i'r gymuned, gyda phobl yn mynd am dro yno a gwirfoddolwyr ar y safle rhan fwyaf o benwythnosau. Gan fod pobl yn defnyddio'r safle mewn ffordd wahanol, yn ddiodyn nid yw'n cael ei ddefnyddio bellach fel man delio cyffuriau rheolaidd. Wrth hwyluso dealltwriaeth ehangach o faterion lleol, amlygodd y prosiect mai diffyg goleuadau ar y safle yw un o'r rhain. Mae hyn wedi arwain at ei glustnodi fel ardal sydd angen buddsoddiad *Active Travel*, ac mae'r tîm perthnasol bellach yn edrych ar ail wynebu a goleuo y safle.

Parc yr Esgob, Abergwilli

Dechreuodd Ymddiriedolaeth Porth Tywi ar waith ym Mharc yr Esgob yn Abergwilli i wneud y palas a'r parc yn fwy agored i bobl leol ac ymwelwyr i archwilio a mwynhau yn dilyn blynyddoedd o esgeulustod a dirywiad. Dyma oedd tair blaenoriaeth Ymddiriedolaeth Porth Tywi wrth ymgymryd â'r gwaith hwn - hanes, carddwriaeth a bywyd gwyllt.

Defnyddiodd yr ymddiriedolaeth gyllid sydd ar gael drwy LPfN i ddatblygu dwy ardal arddio yn y parc: gardd fynedfa a gardd goetir.

Defnyddiwyd y cyllid i wella rheolaeth Ymddiriedolaeth Porth Tywi ar y safle, gan gynnwys ei rheolaeth o bwll llyn pysgod x-bow, Pwll yr Esgob, sydd wedi ei gydnabod fel SSSI, yn ogystal a'r ddôl orlifdir sy'n gorwedd ar ochr ddeheuol y gerddi ffurfiol. Defnyddiwyd yr arian hefyd i ddatblygu gardd furiog gan ddefnyddio ffawna brodorol Cymru i ddenu bywyd gwyllt a chyflwyno planhigion yn yr ardd fynedfa sydd wedi eu dewis yn benodol i ddenu peillwyr.

Dyma syniadau yr oedd Ymddiriedolaeth Porth Tywi wedi'u hystyried o'r blaen ond nid oedd ganddynt yr adnoddau i wneud popeth mewn un tro; rhagwelwyd mai pethau y gellid eu gwneud o bosib yn y dyfodol oedd y rhain. Fodd bynnag, drwy gyllid LPfN, llwyddodd yr ymddiriedolaeth i ymgymryd â'r prosiectau hyn yn llawer cynt.

Mae gwirfoddolwyr wedi cael eu hystyried fel rhan holl bwysig o ddatblygu'r ardal; Roedd gweledigaeth y byddai'n fuddiol dod â phobl ifanc i blannu a gofalu am yr i'r ardd, ac y byddai hyn yn rhoi cyfle iddynt ddysgu mwy am y broses. Unwaith eto, cafodd y cynlluniau hyn eu gohirio gan bandemig C OVID-19, ond, yn y pen draw, ym mis Mawrth 2022, llwyddodd pobl ifanc i ddod i gymryd rhan.

Mae ymgysylltiad â'r gymuned bellach wedi dod yn flaenoriaeth barhaus i'r prosiect ac mae Ymddiriedolaeth Porth Tywi yn cynnal cyfres o weithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu cymunedol i ddod â phobl i mewn i'r ardd gan gynnwys *Cyfrif Glöynod Byw Mawr* a oedd yn arbennig o lwyddiannus. Yn ogystal, defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i ddiweddarau pobl ar gynnydd y gwaith ac mae wedi cyrraedd dros 1,000 o ddilynwyr.

Yn ystod y prosiect, mae'r nifer cynyddol o'r rheini sy'n ymweld â'r parc yn arwyddocaol, gyda phobl yn aml yn treulio mwy o amser yn y parc nag o'r blaen, a gyda'r ardaloedd eistedd yn yr ardd yn cael eu defnyddio'n aml gan ymwelwyr.

Y camau nesaf i'r prosiect yw parhau i gyrraedd a denu mwy o bobl tra yn parhau i ddatblygu'r parc. Ymhlith y blaenoriaethau ar gyfer hyn mae cyflwyno mwy o goed ffrwythau, adfer y tai gwydr a gwella mynediad i'r ardd.

"Cawsom gefnogaeth wrth geisio ein helpu ni i gael y gorau o'r adnoddau oedd gennym ni, a'r Grant roedden nhw wedi'i roi i ni. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda llawer o grantiau a chyrff grantiau gwahanol, ac mae'n gwneud gwahaniaeth pan mae gennych chi bobl cefnogol sy'n ei redeg." (Rheolaeth Ymddiriedolaeth Porth Tywi)

Meithrin Natur ein Peillwyr a'n Gardd Synhwyrdd, Llandrindod, Llansanffraid

Cyflwynwyd y prosiect gan Gyngor Tref Llandrindod, nod y prosiect oedd trawsnewid gardd rosod a oedd wedi ei esgeuluso yng nghanol y dref yn ardd peillio synhwyrdd. Yr uchelgais oedd creu gardd synhwyrdd hygrych i wella iechyd a lles corfforol a meddyliol y gymuned leol (fflatiau yn y cyffiniau yn gartref i bobl hŷn gyda llai o symudedd; Lleolir Mind gyferbyn â'r safle; mae gan y dref grŵp Dementia Matters gweithredol iawn a nifer o gartrefi nyrsio), a fyddai'n cefnogi natur gan ddefnyddio planhigion brodorol a chynefinoedd bywyd gwyllt. Cadwyd rhai o'r rhosod presennol, tra bod eraill yn cael eu hailblannu mewn mannau eraill.

Mae'r ardd wedi'i lled-amgáu trwy blanhigion a wal, gyda bwa mynedfa haearn yn cefnogi planhigion llusgol fel honeysuckle, sy'n atgyfnerthu y ffaith eich bod yn mynd i mewn i ofod diffiniedig ac yn annog pobl i mewn i'r ardd. O fewn yr ardd, mae llwybrau hygrych yn amgylchynu man eistedd canolog a gwlaeu wedi eu codi. Roedd arogl a chyffwrdd yn ffactorau pwysig, ac ymgorfforwyd perllysiau bwytadwy a garleg gwyllt - y syniad oedd i bobl helpu eu hunain. O fewn y gofod ehangach, mae blychau adar, ystumod a chwilog a phentyrrau pren wedi eu gosod i gynnal bywyd gwyllt.

Aelodau o'r cyngor a wnaeth y Cynllunio, plannu a chynnal a chadw (gyda un ohonynt yn arwain ar yr agwedd bywyd gwyllt tra bod un arall yn goruchwyllo ac adeiladu'r gwlaeu wedi eu codi a'r seddi) a gwirfoddolwyr o'r gymuned leol. Defnyddiwyd busnesau lleol i wneud y meinciau a'r bwa ac i osod y llwybr. Fe wnaeth y gwaith ar y safle ennyn llawer o ddiddordeb gan bobl oedd yn pasio, a rhai ohonynt wedyn yn gwirfoddoli. Roedd Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed, The Bracken Trust a'r grŵp Incredible Edible yn rhan i'r prosiect hefyd. Yr unig her oedd o ran cyllideb (roedd angen graean cyfansawdd ar gyfer y llwybr i gynorthwyo hygrychedd, ac, oherwydd faint o wybodaeth oedd yn cael ei gynnwys, roedd angen bwrdd arddangos ychwanegol yn hytrach nag un bwrdd, dwyieithog). Roedd yr arianwyr yn hyblyg ac yn derbyn yr angen am wariant ychwanegol.

Yn ôl y sôn, dyma'r prosiect mwyaf llwyddiannus y mae'r cyngor tref wedi'i weithredu o ran adborth a phositifwydd cymunedol. Mae diddordeb sylweddol gan ymwelwyr hefyd: "Rydyn yn clywed bobl yn dweud "Does gennym ni *ddim byd tebyg i hyn lle ni'n byw*". Trwy'r tywydd braf, yn ôl y sôn, roedd pob mainc yn llawn. Mae holiadur, sy'n cael ei rannu drwy'r papur newydd lleol, gwefan cyngor y dref a thudalen Facebook, ac ar y byrddau arddangos,

wedi cynhyrchu 80 neu 90 o ymatebion hyd yma, gydag adborth cadarnhaol tu hwnt. Yn ôl y sôn, mae tystiolaeth o fwy o weithgaredd ystlumod, cynnydd yn nifer y gwenyn ac mewn adar sy'n nythu yn yr ardal.

Bydd y cyngor tref nawr yn cyllidebu ar gyfer cynnal a chadw'r ardd. Bydd gwirfoddolwyr yn chwarae rhan weithredol, ac mae ymdeimlad amlwg o berchnogaeth gymunedol eisoes, y mae'r cyngor tref yn gobeithio adeiladu ar hyn (mae pobl wedi bod yno'n crwydro ac yn cymryd toriadau o blanhigion, ac mae ysgolion a phaleontolegydd lleol wedi bod yno gyda grwpiau o blant gyda chwyddwydrau ac yn cymryd darnau o risgl ac yn rhwbio dail). Mae ysgolion cynradd yn edrych ar wneud prosiectau gwanwyn a haf yn yr ardd, a'r cynllun yw iddyn nhw gael rhan o'r gwely canolog. Mae'r prosiect yn rhan o ymgyrch ehangach i hyrwyddo cynaliadwyedd yn y dref, ac mae'i llwyddiant wedi ysbrydoli'r cyngor tref i weithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol ar dir mewn mannau eraill.

Green Walls, Caerdydd

Roedd prosiect Green Walls yn deillio o gynllun prosiect a luniwyd yn flaenorol gan Dîm Seilwaith Gwyrdd yr LA, a oedd wedi nodi nifer o ysgolion cynradd gydag ansawdd aer gwael a bioamrywiaeth gwael. Rhoddodd LPfN gyfle i ddatblygu y syniad. Y cam nesaf oedd adnabod adeiladau addas sy'n eiddo i'r cyngor o amgylch y ddinas, gydag ansawdd aer gwael a mannau awyr agored addas i leoli'r waliau gwyrdd. Dewiswyd canolfan gymunedol yn Nhrelái ac ysgol gynradd yn Nhreganna oherwydd addaswydd y safleoedd ac oherwydd bod ganddynt ddiddordeb yn y prosiect ac yn awyddus i gynnal a chadw y waliau gwyrdd yn y dyfodol. Mae'r ddau safle ar ffyrdd prysur ac roedd ganddynt lawer o wyneb caled gydag ychydig iawn o le gwyrdd. Mae'r waliau gwyrdd yn cynnwys cynwysyddion yn ogystal a sgrin rhwyll sydd yn galluogi hyfforddiant eiddew a dringwyr eraill sy'n gyfeillgar i beillwyr fel honeysuckle a clematis. Ymgynghorwyd â'r ysgol a'r grŵp cymunedol ar faint o'r ffrynt yr oeddent eisiau eu gorchuddio a nhw wnaeth benderfynu ar leoliadau terfynol y sgriniau.

Ar ôl eu codi, nid oes angen llawer o waith cynnal a chadw ar y waliau gwyrdd. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt lleol sesiynau i gynyddu ymwybyddiaeth am seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth a parhaodd i weithio gyda'r grwpiau drwy brosiectau eraill yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt. Mae disgyblion ac athrawon wedi ymgorffori'r waliau gwyrdd yn ngweithgareddau yr ystafell ddosbarth (yn chwilio am bryfed, ychwanegu at y planhigwyr, ac ati), ac mae aelodau'r grŵp cymunedol wedi paentio'r planhigwyr, plannu bylbiau'r gwanwyn a gosod blychau chwilod. Y gobaith yw y bydd y gweithgareddau hyn yn sbarduno diddordeb ehangach ym myd natur. O ran bioamrywiaeth, gellid dadlau bod targedu ardaloedd ag ychydig iawn o fannau gwyrdd wedi cael mwy o effaith na phe baent wedi'u gosod mewn safleoedd gyda digon o fannau gwyrdd presennol o'u cwmpas. Mae'r waliau newydd yn darparu ar gyfer peillwyr ac yn gweithredu fel tai ar gyfer pryfed, sydd yn ei dro wedi arwain at gynnydd mewn ymweldiadau adar. Yn ogystal, cafodd ansawdd aer yn y safleoedd ei fonitro am 12 mis, a dangosodd y canlyniadau welliant amlwg: gostyngiad o 30 y cant mewn ocsid nitrogen yn y ganolfan gymunedol a gostyngiad o 20 y cant yn yr ysgol gynradd. Nododd y ddau safle hefyd fuddion cadarnhaol annisgwyl ar ffurf preifatrwydd uwch a llai o lygredd sŵn.

Yn ôl y sôn, mae gosod y waliau gwyrdd wedi ennyn llawer o ddiddordeb gan bobl sy'n pasio, a bydd paneli dehongli yn parhau i ledaenu gwybodaeth i'r cyhoedd. Pan gafodd y gwaith gyhoedduswydd, fe gysylltodd ysgolion eraill i ddweud y byddai ganddyn nhw ddiddordeb mewn gosod waliau gwyrdd. Er efallai na fyddant o reidrwydd yn cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer prosiect Green Walls, efallai y byddant yn addas ar gyfer prosiectau eraill sy'n canolbwyntio ar beillwyr ar raddfa lai. Mae'r tîm yn bwriadu gosod tair wal werdd arall yn 2021\ 22. Y tu hwnt i hynny, mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu mwy o amrywiaeth o seilwaith gwyrdd ac archwilio'r posibilrwydd o wneud rhywbeth gydag adeiladau nad ydynt yn addas i'r arddull hon o wal werdd.

Cae Crwn, Criccieth

Mae Cyngor Tref Criccieth, mewn partneriaeth â'r gymuned a phartneriaid, wedi datblygu rhandir cymunedol a gardd glöyn byw. Mae hyn ar dir prysgwydd gwyllt gerllaw'r Ardd Natur (safle cadwraeth) yng nghanol y dref, lle gall pobl ei weld yn hawdd o ddydd i ddydd.

Roedd gwell mynediad i'r mwynder yn destun pryder, yn ogystal â nifer o amcanion, gan gynnwys gwella'r amgylchedd drwy adeiladu strwythurau mynediad a phlannu a chlirio ardaloedd sydd wedi gordyfu, addysg a chaffael sgiliau. Roedd y canlyniadau'n cynnwys gwell lles ac iechyd meddwl a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau rhwng cenedlaethau. Prif hwb y prosiect oedd gwella'r amgylchedd naturiol ac annog bywyd gwyllt i ailsefydlu yng Nghae Crwn, er enghraifft, yr Ardd Glöyn Byw sydd newydd ei chreu. Mae'r rhandiroedd sy'n cael eu defnyddio gan bobl leol yn rhan annatod o'r mwynder sydd wedi elwa o'r prosiect.

Roedd gwell mynediad i bawb, gan gynnwys pobl ag anableddau, yn nod arall i'r project, yn ogystal â darparu gwybodaeth drwy fyrddau dwyieithog a darpariaeth o gyfleoedd i bobl ddatblygusgiliau, gwybodaeth a llesiant.

Datblygodd Cyngor Tref Criccieth y prosiect mewn partneriaeth â'r ysgol gynradd leol, gwasanaethau ieuencid, gwirfoddolwyr cymunedol, Cyngor Gwynedd (Partneriaeth Natur) a llawer o grwpiau gwirfoddol.

Mae prif fanteision y gwaith a wnaeth y prosiect yn rhai addysgiadol ac amgylcheddol.

Addysgol:

Nododd y prosiect taw addysgu pobl yn y gymuned a darparu sgiliau a gwybodaeth oedd yr amcan.

Mae ysgolion lleol (Ysgol Treferythyr, ysgol gynradd y dref, ac Ysgol Eifionydd, yr ysgol uwchradd leol) wedi bod yn rhan o'r prosiect drwy gynorthwyo gyda adeiladu'r safle, ymwneud â'r plannu a dysgu am fywyd gwyllt a thyfu bwyd.

Cafwyd cyfle i drafod agweddau amgylcheddol a bywyd gwyllt y prosiect gyda'r bobl ifanc, megis adfer cynefinoedd a chynyddu bioamrywiaeth, cynhyrchu bwyd ac ailgylchu. Gyda phobl eraill yn gweithio ar y safle, bu cyfleoedd am brofiadau pontio'r cenedlaethau a chreu balchder yn eu cymuned eu hunain drwy sefydlu ased sy'n cael effaith hirdymor ar fywydau pobl.

Amgylcheddol:

Dangosir effaith amgylcheddol gadarnhaol gan y cynefinoedd cynyddol ar gyfer pryfed trwy'r gwestai chwilod a'r ardd glöyn byw sydd newydd ei phlannu, sy'n denu llawer o rywogaethau i Gae Crwn. Bydd plannu blodau a llwyni brodorol hefyd yn gwneud yr amwynder yn fwy deniadol i amrywiaeth o fywyd gwylt, p'un ai adar neu famaliaid bach.

Mae'r prosiect wedi denu tua 50 o wirfoddolwyr ac mae swm yr amser gwirfoddol wedi bod yn sylweddol. Mae 100 o blant ysgol gynradd arall wedi bod yn cymryd rhan, a 25-30 arall o ysgolion uwchradd a cholegau lleol. Mae'r prosiect wedi helpu i trosoli cyllid ychwanegol ar gyfer y gwaith cyfalaf.

Mae'r project wedi hyrwyddo gweithgareddau addysgol awyr agored ac wedi creu diddordeb yn ymwneud â'r amgylchedd a natur, gan gynnwys gwobr gan Cymen ar gyfer yr ysgol gynradd leol. Mae gwirfoddolwyr wedi dweud bod nifer o bobl yng Nghricieth wedi dweud eu bod yn gweld Gae Crwn yn ffordd bwysig o ymlacio a chysylltu â byd natur a chefnogi gwelliannau mewn gwell iechyd meddwl a lles, tra bod eraill yn adrodd cynnydd mewn gweithgareddau Pontio'r Cenedlaethau, gyda phlant oed ysgol ac aelodau hŷn o'r gymuned yn cymryd rhan mewn digwyddiadau gyda'i gilydd.

Y gred hefyd yw bod y prosiect yn cynnig profiad gwell o Gricieth i ymweld â thwristiaid yn ogystal â chynyddu capasiti yn lleol i ddatblygu a rheoli prosiectau o'r fath.

Llwybrau Llesiant Gardd Gymunedol, Arfon

Mae Llwybrau Llesiant yn wasanaeth llesiant a ddatblygwyd gan Wasanaeth Anabledd Dysgu Cyngor Gwynedd. Mae'r tîm yn gweithio i hyrwyddo lles corfforol, cymdeithasol ac emosiynol oedolion ag anableddau dysgu gan ddefnyddio ystod o ddulliau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, waith grŵp, un i un ymyriadau a darpariaeth ar-lein.

Cafodd pandemig COVID-19 a'r cyfnodau clo dilynol effaith negyddol iawn ar les llawer o oedolion ag anableddau dysgu yng Ngwynedd. Dirywiodd sgiliau cymdeithasol llawer o unigolion, a gronnwyd dros nifer o flynyddoedd, wrth iddynt gael cais i ynysu ac, mewn llawer o achosion, roi'r gorau i fynychu cyfleoedd dydd. Daeth yn hanfodol bod y gwasanaeth yn archwilio ffyrdd newydd i ddod â phobl at ei gilydd i gymdeithasu'n ddiogel yn eu cymunedau. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, llwyddodd y gwasanaeth i aildechrau gyda grwpiau a gweithgareddau yn bersonol: "Roeddem yn awyddus iawn i gael ein unigolion yn ôl yn yr awyr agored a'u hailgyflwyno i gyfarfod mewn grŵp cyn gynted a mor ofalus â phosib".

Gan weithio'n agos â Byw'n Iach, mae'r ardd gymunedol yn cefnogi anghenion llesiant oedolion sydd ag anableddau dysgu yn Arfon, ac mae wedi bod yn lle gwych i ailgyflwyno unigolion sydd â phryderon am dorffeydd a chymysgu cymdeithasol yn yr awyr agored.

Felly, mae cyflwyno'r ardd gymunedol wedi gweithredu fel ffordd o gyflwyno natur i'r grŵp a delio'n ymarferol â rhai o'r cyfyngiadau a ddigwyddodd yn sgil y pandemig.

Fel rhan o'r prosiect, roedd tîm Llwybrau Llesiant yn gyfrifol am baratoi, plannu a chynnal dau wely mawr oedd wedi eu codi. Hefyd, roedd y tîm wrth law i blannu a pharatoi'r ffiniau yn yr ardd synhwyrdd. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn ystod sesiynau wythnosol y grŵp garddio. Fodd bynnag, datblygodd y prosiect gyfleoedd newydd hefyd i rai o'u hunigolion mewn mannau eraill; un enghraifft yw'r ffaith bod y gwaith pren ar gyfer y meinciau picnic a gwelyau'n codi wedi eu cwblhawyd yn un o hybiau hyfforddi Gwasanaethau Anableddau Dysgu, Melin Glanrafon.

Yn nyddiau cynnar yr ardd, roedd y gweithgareddau'n gyfyngedig oherwydd gofynion ynysu llawer o'r gynulleidfa darged oherwydd pandemig COVID-19.

Mae'r gweithgareddau rheolaidd yn cynnwys:

- Llwybrau Llesiant Clwb Garddio – Sesiynau Wythnosol
- Sesiwn Beintio Cerrug
- Sesiynau Mainc Cyfeillgarwch
- Ymweliadau ad-hoc i fwynhau'r llwybr/ gardd synhwyrdd

Wrth edrych i'r dyfodol, mae Llwybrau Llesiant yn gobeithio parhau gyda'r clwb garddio yn y gwanwyn ac am sicrhau bod gan y Gwasanaeth Anabledd Dysgu bresenoldeb yn yr ardd yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r prosiect hwn wedi sbarduno diddordeb mewn garddio o fewn llawer o'i unigolion, a, lle bo'n bosibl, y gobaith yw trefnu hyfforddiant a chyfleoedd perthnasol yn y maes hwn i unigolion barhau â'u hobiau newydd.

Mae amcan y prosiect yn cyd-fynd â nod LPfN o gefnogi grwpiau difreintiedig neu sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn yr achos hwn, oedolion ag anabledd dysgu, i ymgysylltu â natur, yn yr achos hwn o fewn lleoliad trefol (Caernarfon) mewn ardal LA wledig yn bennaf (Gwynedd).

Atodiad 9: Hysbysiadau Preifatrwydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwerthusiad Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021/22 **Gweithdy gydag arbenigwyr natur, bioamrywiaeth ac ymgysylltu â'r gymuned**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad o Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021/22. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd Wavehill yn casglu gwybodaeth drwy weithdy gydag unigolion sy'n arbenigo mewn natur a bioamrywiaeth a/neu ymgysylltu â'r gymuned. Nodau'r gwerthusiad hwn yw:

- Nodi pa effeithiau mae'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi ei gael hyd nawr ar greu 'natur ar stepen eich drws' ac ar greu, adfer a chynyddu bioamrywiaeth.
- Nodi effeithiau'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar gymunedau lleol ac ar yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y prosiectau.
- Nodi i ba raddau mae'r tri chynllun a'r rhaglen yn ei chyfanrwydd yn cyflawni nodau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a nodi a ellir gwneud unrhyw welliannau.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn copi o'r data a gesglir gan Wavehill.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei gynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hwn yn hollol wirfoddol. Fodd bynnag mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu llywio polisiau Llywodraeth Cymru.

Y person cyswllt yn Wavehill ar gyfer yr ymchwil hwn yw Ian Johnson

Cyfeiriad e-bost: ian.johnson@wavehill.com

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Pa ddata personol ydyn ni'n eu cadw ac o le ydym yn cael gafael ar y wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodwr.

Rydym wedi cysylltu â chi ar gyfer yr ymchwil hwn oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi eich nodi chi fel rhywun sy'n arbenigo mewn natur a bioamrywiaeth a/neu ymgysylltu â'r gymuned. Dim ond lle rydych chi wedi cytuno i hynny y mae eich manylion wedi cael eu pasio ymlaen i Wavehill, a bydd Wavehill yn defnyddio eich data personol at ddibenion y prosiect ymchwil hwn yn unig.

Mae cymryd rhan yn wirfoddol. Os nad ydych yn dymuno cymryd rhan na derbyn negeseuon atgoffa, atebwch yr e-bost gwahoddiad a ni fyddwn yn cysylltu â chi eto am yr ymchwil hwn. Bydd Wavehill yn defnyddio'r cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn at ddibenion y gwerthusiad hwn yn unig.

Fel rhan o'r ymchwil hwn, ni fyddwn yn casglu data personol ychwanegol oddi wrthydych chi, heblaw am eich delwedd os ydych yn hapus i'r gweithdy gael ei recordio ar fideo.

Efallai y bydd angen i ni recordio'r gweithdy am resymau gweithredol. Os felly y mae, byddwn yn gwneud hyn yn glir i chi cyn i'r gweithdy ddechrau, a byddwch yn cael cyfle i ddweud wrthym ni os nad ydych chi'n hapus i'r drafodaeth gael ei recordio. Dim ond os yw pob aelod o'r grŵp yn hapus i hynny ddigwydd y caiff y gweithdy ei recordio. Os caiff y gweithdy ei recordio, caiff data personol ei ddileu yn y broses drawsgrifio. Caiff y recordiadau eu dileu unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau. Os na chaiff trafodaethau eu recordio, ni chaiff data personol ei gynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir yn ystod neu'n dilyn y cyfweiliadau.

Cynhelir y gweithdy drwy Microsoft Teams a'r cyfnod cadw ar gyfer unrhyw sylwadau a wneir yn y bar sgwrsio (chat) fydd 7 diwrnod. Felly caiff unrhyw atebion a ddarperir drwy'r bar sgwrsio eu dileu 7 diwrnod wedi'r gweithdy, ac fe'u cynhwysir mewn unrhyw nodiadau ysgrifenedig mewn fformat dienw gyda'r manylion personol wedi'u dileu.

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, ymarfer ein hawdurdod swyddogol i gynnal cyfrifoldeb a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn hollol wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hon yn bwysig i Lywodraeth Cymru er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth fel sail gweithredu am ei allu

i ddarparu blaenoriaethau'r llywodraeth. Er enghraifft, efallai y defnyddir y wybodaeth a gesglir yn yr ymchwil hwn i wella'r ffordd mae'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn cael ei rhedeg yn y dyfodol.

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Cedwir yr wybodaeth personol a ddarperir i Wavehill ar weinydd diogel ar bob adeg. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect sy'n medru cael mynediad at y data. Bydd Wavehill yn defnyddio'r data hwn at ddibenion ymchwil yn unig. Mae Wavehill wedi ei ardystio gan Cyber Essentials.

Mae gan Wavehill weithdrefnau i ddelio gydag unrhyw sefyllfa lle amheuir bod diogelwch data wedi ei danseilio. Os amheuir bod diogelwch data wedi ei danseilio, bydd Wavehill yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol lle bod gofyn cyfreithiol i ni wneud hynny.

Bydd Wavehill yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i gynhyrchu adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

Am ba hyd fyddwn ni'n cadw eich data personol?

Bydd Wavehill yn cadw data personol dros gyfnod y cytundeb, a bydd unrhyw ddata personol nad sydd wedi ei ddileu yn ystod y broses o gasglu data yn cael ei ddileu gan Wavehill dri mis wedi diwedd y cytundeb. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt.

Bydd Wavehill yn darparu fersiwn dienw o'r data i Lywodraeth Cymru - ni fydd hyn yn cynnwys gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i'ch adnabod chi.

Hawliau unigolion

O dan GDPR y DU, mae gennych chi'r hawliau canlynol mewn cysylltiad â'r wybodaeth personol yr ydych yn ei ddarparu fel rhan o'r prosiect hwn. Mae gennych yr hawl:

- I gael mynediad at gopi o'ch data chi;
- I fynnu ein bod ni'n cywiro camgymeriadau yn y data hwnnw;
- I (o dan rhai amgylchiadau) wrthwynebu i neu gyfyngu ar y prosesu;
- I fynnu (o dan rhai amgylchiadau) bod eich data yn cael ei 'ddileu'; ac
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.org.uk

Gwybodaeth Bellach

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach am sut caiff y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu os hoffech chi arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, cysylltwch â:

Enw: Aimee Marks

Cyfeiriad e-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

Rhif ffôn: 03000 259321

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ,

E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales.

Gwerthusiad Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021/22

Cyfweliadau gyda rheolwyr cynllun, swyddogion rhaglen ac arweinyddion Partneriaeth Natur Lleol

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad o Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021/22. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd Wavehill yn casglu gwybodaeth drwy gyfweliadau unigolyn neu grŵp gyda rheolwyr cynllun, swyddogion rhaglen ac arweinyddion Partneriaeth Natur Lleol. Nodau'r gwerthusiad hwn yw:

- Nodi pa effeithiau mae'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi ei gael hyd nawr ar greu 'natur ar stepen eich drws' ac ar greu, adfer a chynyddu bioamrywiaeth.
- Nodi effeithiau'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar gymunedau lleol ac ar yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y prosiectau.
- Nodi i ba raddau mae'r tri chynllun a'r rhaglen yn ei chyfanrwydd yn cyflawni nodau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a nodi a ellir gwneud unrhyw welliannau.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn copi o'r data a gesglir gan Wavehill.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei gynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hwn yn hollol wirfoddol. Fodd bynnag mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu llywio polisiâu Llywodraeth Cymru.

Y person cyswllt yn Wavehill ar gyfer yr ymchwil hwn yw Ian Johnson

Cyfeiriad e-bost: ian.johnson@wavehill.co.uk

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Pa ddata personol ydyn ni'n eu cadw ac o le ydym yn cael gafael ar y wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodwr.

Rydym wedi cysylltu â chi oherwydd eich gwybodaeth o a/neu eich cysylltiad â'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

- Heblaw am os ydych chi'n arweinydd Partneriaeth Natur Lleol, rhoddwyd eich enw a'ch manylion cyswllt i Wavehill gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw eich manylion cyswllt oherwydd eich cysylltiad â'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.
- Os ydych yn arweinydd Partneriaeth Natur Lleol, nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw eich manylion ac felly byddwch wedi derbyn e-bost oddi wrth y rheolwr cynllun yn gofyn a ydych yn hapus i'ch manylion gael eu pasio ymlaen at Wavehill er mwyn iddyn nhw gysylltu â chi i drefnu cyfweiliad. Dim ond lle rydych chi wedi cytuno i hynny y cafodd eich manylion eu pasio ymlaen at Wavehill.

Mae cymryd rhan yn wirfoddol. Os nad ydych yn dymuno cymryd rhan na derbyn negeseuon atgoffa, atebwch yr e-bost gwahoddiad ac ni fyddwn yn cysylltu â chi eto am yr ymchwil hwn. Bydd Wavehill yn defnyddio'r cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn at ddibenion y gwerthusiad hwn yn unig.

Fel rhan o'r ymchwil hwn, ni fyddwn yn casglu unrhyw wybodaeth personol ychwanegol heblaw am eich delwedd os ydych yn hapus i gyfweiliad gael ei recordio ar fideo.

Efallai y bydd angen i ni recordio'r cyfweiliad unigolyn neu grŵp am resymau gweithredol. Os felly y mae, byddwn yn gwneud hyn yn glir i chi cyn i'r cyfweiliad unigolyn neu grŵp ddechrau, a bydd cyfle i chi ddweud wrthym os nad ydych yn hapus i'r drafodaeth gael ei recordio. Gyda chyfweiliadau grŵp, dim ond os yw pob aelod o'r grŵp yn hapus i hynny ddigwydd y caiff y drafodaeth ei recordio. Os caiff y cyfweiliad unigolyn neu grŵp ei recordio, caiff data personol ei ddileu yn y broses drawsgrifio. Caiff y recordiadau eu dileu unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau. Os na chaiff cyfweiliadau eu recordio, ni chaiff data personol ei gynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir yn ystod neu'n dilyn y cyfweiliad unigolyn neu grŵp.

Cynhelir cyfweiliadau unigolyn neu grŵp drwy Microsoft Teams. Y cyfnod cadw ar gyfer unrhyw sylwadau a wneir yn y bar sgwrsio (chat) fydd 7 diwrnod. Felly caiff unrhyw atebion a ddarperir drwy'r bar sgwrsio eu dileu 7 diwrnod wedi'r cyfweiliad, ac fe'u cynhwysir mewn unrhyw nodiadau ysgrifenedig mewn fformat dienw gyda'r manylion personol wedi'u dileu.

Os ydych chi'n gwneud ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol wrth ofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen i'r swyddog perthnasol yn unig, ac yna ei ddileu o'r data ymchwil.

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, ymarfer ein hawdurdod swyddogol i gynnal cyfrifoldeb a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn hollol wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hon yn bwysig i Lywodraeth Cymru er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth fel sail gweithredu am ei allu i ddarparu blaenoriaethau'r llywodraeth. Er enghraifft, efallai y defnyddir y wybodaeth a gesglir yn yr ymchwil hwn i wella'r ffordd mae'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn cael ei rhedeg yn y dyfodol.

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Cedwir yr wybodaeth bersonol a ddarperir i Wavehill ar weinydd diogel ar bob adeg. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilyddyr sy'n gweithio ar y prosiect sy'n medru cael mynediad at y data. Bydd Wavehill yn defnyddio'r data hwn at ddibenion ymchwil yn unig. Mae Wavehill wedi ei ardystio gan Cyber Essentials.

Mae gan Wavehill weithdrefnau i ddelio gydag unrhyw sefyllfa lle amheuir bod diogelwch data wedi ei danseilio. Os amheuir bod diogelwch data wedi ei danseilio, bydd Wavehill yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol lle bod gofyn cyfreithiol i ni wneud hynny.

Bydd Wavehill yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i gynhyrchu adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

Am ba hyd fyddwn ni'n cadw eich data personol?

Bydd Wavehill yn cadw data personol dros gyfnod y cytundeb, a bydd unrhyw ddata personol nad sydd wedi ei ddileu yn ystod y broses o gasglu data yn cael ei ddileu gan Wavehill dri mis wedi diwedd y cytundeb. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt.

Bydd Wavehill yn darparu fersiwn dienw o'r data i Lywodraeth Cymru - ni fydd hyn yn cynnwys gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i'ch adnabod chi.

Hawliau unigolion

O dan GDPR y DU, mae gennych chi'r hawliau canlynol mewn cysylltiad â'r wybodaeth bersonol yr ydych yn ei darparu fel rhan o'r prosiect hwn. Mae gennych yr hawl:

- I gael mynediad at gopi o'ch data chi;

- I fynnu ein bod ni'n cywiro camgymeriadau yn y data hwnnw;
- I (o dan rhai amgylchiadau) wrthwynebu i neu gyfyngu ar y prosesu;
- I fynnu (o dan rhai amgylchiadau) bod eich data yn cael ei 'ddileu'; ac
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.org.uk

Gwybodaeth Bellach

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach am sut caiff y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu os hoffech chi arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, cysylltwch â:

Enw: Aimee Marks

Cyfeiriad e-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

Rhif ffôn: 03000 259321

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales.

Gwerthusiad Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021/22 Arolygon o'r prosiectau a gyllidwyd

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad o Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021/22. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd Wavehill yn casglu gwybodaeth oddi wrth brosiectau sydd wedi derbyn cyllid LILlagN drwy arolwg. Nodau'r gwerthusiad hwn yw:

- Nodi pa effeithiau mae'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi ei gael hyd nawr ar greu 'natur ar stepen eich drws' ac ar greu, adfer a chynyddu bioamrywiaeth.
- Nodi effeithiau'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar gymunedau lleol ac ar yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y prosiectau.
- Nodi i ba raddau mae'r tri chynllun a'r rhaglen yn ei chyfanrwydd yn cyflawni nodau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a nodi a ellir gwneud unrhyw welliannau.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn copi diennw o'r data a gesglir gan Wavehill.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei gynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hwn yn hollol wirfoddol. Fodd bynnag mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu llywio polisiau Llywodraeth Cymru.

Y person cyswllt yn Wavehill ar gyfer yr ymchwil hwn yw Ian Johnson

Cyfeiriad e-bost: ian.johnson@wavehill.co.uk

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Pa ddata personol ydyn ni'n eu cadw ac o le ydym yn cael gafael ar y wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodwr.

Rydych chi wedi darparu neu rydych chi yn darparu prosiect drwy un o'r cynlluniau LILlagN canlynol:

- Partneriaethau Natur Lleol (cyd-gysylltwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)
- Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
- Cadwch Gymru'n Daclus

Mae eich Partneriaethau Natur Lleol, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol neu Cadwch Gymru'n Daclus, fel partneriaid cyflawni ar gyfer y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, yn cadw eich manylion cyswllt oherwydd eich cysylltiad â'r rhaglen. Darparodd Wavehill ddolenni i'r arolwg i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (a wnaeth rannu'r rhain gyda'r Partneriaethau Natur Lleol), Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Cadwch Gymru'n Daclus, a wnaeth eich e-bostio chi gan ddefnyddio'r wybodaeth personol maen nhw'n ei gadw. Mae cymryd rhan yn wirfoddol.

Does dim gofyn i chi ddarparu unrhyw ddata personol yn eich ymatebion i'r arolwg. Pan fyddwch yn cwblhau'r arolwg, ni chesglir eich cyfeiriad e-bost na'ch cyfeiriad IP, ac felly bydd yr ymatebion yn ddiennw. Os ydych yn dewis darparu data personol ychwanegol mewn cwestiynau testun agored, byddwn yn ceisio peidio â'ch adnabod chi o'r, na'ch cysylltu chi â'r, atebion yr ydych chi'n eu darparu.

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, ymarfer ein hawdurdod swyddogol i gynnal cyfrifoldeb a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn hollol wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hon yn bwysig i Lywodraeth Cymru er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth fel sail gweithredu am ei allu i ddarparu blaenoriaethau'r llywodraeth. Er enghraifft, efallai y defnyddir y wybodaeth a gesglir yn yr ymchwil hwn i wella'r ffordd mae'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn cael ei rhedeg yn y dyfodol.

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Cedwir yr wybodaeth bersonol a ddarperir i Wavehill ar weinydd diogel ar bob adeg. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect sy'n medru cael mynediad at y data. Bydd Wavehill yn defnyddio'r data hwn at ddibenion ymchwil yn unig. Mae Wavehill wedi ei ardystio gan Cyber Essentials.

Wrth gynnal arolygon, mae Wavehill yn defnyddio rhaglen feddalwedd cynnal arolygon o'r enw Qualtrics ac rydym wedi sicrhau bod Qualtrics yn cydymffurfio â GDPR y DU (mae'r holl ddata yn aros o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd).

Mae gan Wavehill weithdrefnau i ddelio gydag unrhyw sefyllfa lle amheuir bod diogelwch data wedi ei danseilio. Os amheuir bod diogelwch data wedi ei danseilio, bydd Wavehill yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol lle bod gofyn cyfreithiol i ni wneud hynny.

Bydd Wavehill yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i gynhyrchu adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

Am ba hyd fyddwn ni'n cadw eich data personol?

Efallai bydd Wavehill yn cadw data personol dros gyfnod y cytundeb, a bydd unrhyw ddata personol yn cael ei ddileu gan Wavehill dri mis wedi diwedd y cytundeb. Bydd Wavehill yn darparu fersiwn dienw o'r data i Lywodraeth Cymru - ni fydd hyn yn cynnwys gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i'ch adnabod chi.

Hawliau unigolion

O dan GDPR y DU, mae gennych chi'r hawliau canlynol mewn cysylltiad â'r wybodaeth bersonol yr ydych yn ei darparu fel rhan o'r ymchwil. Mae gennych yr hawl:

- I gael mynediad at gopi o'ch data chi;
- I fynnu ein bod ni'n cywiro camgymeriadau yn y data hwnnw;
- I (o dan rhai amgylchiadau) wrthwynebu i neu gyfyngu ar y prosesu;
- I fynnu (o dan rhai amgylchiadau) bod eich data yn cael ei 'ddileu'; ac
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

Gwybodaeth Bellach

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach am sut caiff y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu os hoffech chi arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, cysylltwch â:

Enw: Aimee Marks

Cyfeiriad e-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

Rhif ffôn: 0300 025 9321

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales.

Gwerthusiad Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021/22

Astudiaethau achos o brosiectau a gyllidwyd

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad o Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2021/22. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd Wavehill yn casglu gwybodaeth oddi wrth brosiectau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur drwy gyfweiliadau er mwyn llywio astudiaethau achos. Nodau'r gwerthusiad hwn yw:

- Nodi pa effeithiau mae'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi ei gael hyd nawr ar greu 'natur ar stepen eich drws' ac ar greu, adfer a chynyddu bioamrywiaeth.
- Nodi effeithiau'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar gymunedau lleol ac ar yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y prosiectau.
- Nodi i ba raddau mae'r tri chynllun a'r rhaglen yn ei chyfanrwydd yn cyflawni nodau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a nodi a ellir gwneud unrhyw welliannau.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn copi diennw o'r data a gesglir gan Wavehill.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei gynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hwn yn hollol wirfoddol. Fodd bynnag mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu llywio polisiau Llywodraeth Cymru.

Y person cyswllt yn Wavehill ar gyfer yr ymchwil hwn yw Ian Johnson

Cyfeiriad e-bost: ian.johnson@wavehill.co.uk

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Pa ddata personol ydyn ni'n eu cadw ac o le ydym yn cael gafael ar y wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodwr.

Rydych chi wedi darparu neu rydych chi yn darparu prosiect drwy un o'r cynlluniau LILlagN canlynol:

- Partneriaethau Natur Lleol (cyd-gysylltwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)
- Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
- Cadwch Gymru'n Daclus

Mae eich Partneriaethau Natur Lleol, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol neu Cadwch Gymru'n Daclus, fel partneriaid cyflawni ar gyfer y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, yn cadw eich manylion cyswllt oherwydd eich cysylltiad â'r rhaglen. Mae Wavehill wedi nodi prosiect rydych chi wedi gweithio arno fel un a fyddai'n fuddiol i'w archwilio ymhellach er mwyn llywio astudiaeth achos. Mae'r partner cyflawni y derbyniodd eich prosiect gyllid LILlagN drwyddo wedi cysylltu â chi i ofyn eich caniatâd i rannu eich manylion cyswllt (enw a chyfeiriad e-bost) gyda Wavehill fel y gallan nhw gysylltu â chi i drefnu cyfweiliad. Bydd y cyfweiliad hwn yn helpu i lywio astudiaeth achos am eich prosiect. Dim ond os rhowch eich caniatâd i hynny y bydd eich manylion cyswllt yn cael eu rhannu â Wavehill.

Bydd Wavehill yn defnyddio eich manylion cyswllt at ddibenion yr ymchwil hwn yn unig.

Mae cymryd rhan yn wirfoddol. Os nad ydych yn dymuno cymryd rhan na derbyn negeseuon atgoffa, atebwch yr e-bost gwahoddiad a bydd eich manylion yn cael eu dileu.

Fel rhan o'r ymchwil hwn, ni fyddwn yn casglu unrhyw wybodaeth personol ychwanegol heblaw am eich delwedd os ydych yn hapus i gyfweiliad gael ei recordio ar fideo. Efallai y bydd angen i ni recordio'r cyfweiliad am resymau gweithredol. Os felly y mae, byddwn yn gwneud hyn yn glir i chi cyn i'r cyfweiliad ddechrau, a bydd cyfle i chi ddweud wrthym os nad ydych yn hapus i'r drafodaeth gael ei recordio. Os caiff y cyfweiliad ei recordio, caiff data personol ei ddileu yn y broses drawsgrifio. Caiff y recordiadau eu dileu unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau. Os na chaiff trafodaethau eu recordio, ni chaiff data personol ei gynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir yn ystod neu'n dilyn y cyfweiliad.

Cynhelir cyfweiliadau drwy Microsoft Teams. Y cyfnod cadw ar gyfer unrhyw sylwadau a wneir yn y bar sgwrsio (chat) fydd 7 diwrnod. Felly caiff unrhyw atebion a ddarperir drwy'r

bar sgwrsio eu dileu 7 diwrnod wedi'r cyfweiliad, ac fe'u cynhwysir mewn unrhyw nodiadau ysgrifenedig mewn fformat dienw gyda'r manylion personol wedi'u dileu.

Os ydych chi'n gwneud ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol wrth ofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen i'r swyddog perthnasol yn unig, ac yna ei ddileu o'r data ymchwil.

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, ymarfer ein hawdurdod swyddogol i gynnal cyfrifoldeb a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn hollol wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hon yn bwysig i Lywodraeth Cymru er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth fel sail gweithredu am ei allu i ddarparu blaenoriaethau'r llywodraeth. Er enghraifft, efallai y defnyddir y wybodaeth a gesglir yn yr ymchwil hwn i wella'r ffordd mae'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn cael ei rhedeg yn y dyfodol.

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Cedwir yr wybodaeth bersonol a ddarperir i Wavehill ar weinydd diogel ar bob adeg. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilydd sy'n gweithio ar y prosiect sy'n medru cael mynediad at y data. Bydd Wavehill yn defnyddio'r data hwn at ddibenion ymchwil yn unig. Mae Wavehill wedi ei ardystio gan Cyber Essentials.

Mae gan Wavehill weithdrefnau i ddelio gydag unrhyw sefyllfa lle amheuir bod diogelwch data wedi ei danseilio. Os amheuir bod diogelwch data wedi ei danseilio, bydd Wavehill yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol lle bod gofyn cyfreithiol i ni wneud hynny.

Bydd yr holl ddata a gesglir drwy'r ymchwil hwn yn cael ei adrodd mewn fformat dienw. Bydd Wavehill yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i gynhyrchu adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

Am ba hyd fyddwn ni'n cadw eich data personol?

Bydd Wavehill yn cadw data personol dros gyfnod y cytundeb, a bydd unrhyw ddata personol yn cael ei ddileu gan Wavehill dri mis wedi diwedd y cytundeb. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt. Bydd Wavehill yn darparu fersiwn dienw o'r data i Lywodraeth Cymru - ni fydd hyn yn cynnwys gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i'ch adnabod chi.

Hawliau unigolion

O dan GDPR y DU, mae gennych chi'r hawliau canlynol mewn cysylltiad â'r wybodaeth personol yr ydych yn ei darparu fel rhan o'r ymchwil. Mae gennych yr hawl:

- I gael mynediad at gopi o'ch data chi;
- I fynnu ein bod ni'n cywiro camgymeriadau yn y data hwnnw;
- I (o dan rhai amgylchiadau) wrthwynebu i neu gyfyngu ar y prosesu;
- I fynnu (o dan rhai amgylchiadau) bod eich data yn cael ei 'ddileu'; ac
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

Gwybodaeth Bellach

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach am sut caiff y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu os hoffech chi arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, cysylltwch â:

Enw: Aimee Marks

Cyfeiriad e-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

Rhif ffôn: 0300 025 9321

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales.